







sportwales chwaraeoncymru

# ADRODDIAD BLYNYDDOL CHWARAEON CYMRU 2022-2023




Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
**THE NATIONAL LOTTERY®**

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 4 |
| Neges gan y Farwnes Tanni Grey-Thompson, Cadeirydd Chwaraeon Cymru | 6 |
| Trosolwg Perfformiad | 8 |
| Cadarnhau - Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru | 10 |
| Ein Strategaeth | 12 |
| Adroddiad Blynyddol Integredig | 13 |
| Ein Dull O Fuddsoddi | 22 |
| Ein Meysydd Gwaith 2022-2023 | 24 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | 25 |
| System Chwaraeon Gynhwysol | 32 |
| Partneriaethau Chwaraeon | 40 |
| Iechyd a Lles | 44 |
| Addysg | 49 |
| Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio | 56 |
| Buddsoddiadau | 62 |
| Gemau'r Gymanwlad – Birmingham 2022 | 68 |
| Ein Gwaith Ni Fel Corff Cyhoeddus | 70 |
| Amcanion Cydraddoldeb | 76 |
| Adrodd ar Safonau'r Iaith Gymraeg | 80 |
| Dadansoddi Perfformiad | 86 |
| Canlyniadau Ariannol Ar Gyfer Y Flwyddyn | 99 |
| Adroddiad Atebolrwydd | 103 |
| Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2022/23 | 106 |
| Adroddiad Tâl a Staff | 114 |
| Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru I'r Senedd | 123 |

# CYFLWYNIAD

## CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU

## 1 EBRILL 2022 - 31 MAWRTH 2023

### Adroddiad a chyfrifon blynyddol

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn ymgorffori ein Hadroddiad Perfformiad (sy'n cynnwys ein Hadroddiad Cynaliadwyedd) yn ogystal â'n Hadroddiad Atebolrwydd (sy'n cynnwys ein Hadroddiad Tâl). Mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi mabwysiadu Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mae Chwaraeon Cymru yn Ymddiriedolwr Unigol ar gyfer Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.



### Hanes a chefndir statudol

Sefydlwyd Cyngor Chwaraeon Cymru (sy'n cael ei adnabod oddi wrth ei enw masnach, Chwaraeon Cymru) gan Siarter Frenhinol dyddiedig 4 Chwefror 1972, gyda'r amcanion o "feithrin gwybodaeth am chwaraeon a hamdden corfforol, a'u hymarfer, ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol yng Nghymru a darparu cyfleusterau ar gyfer hynny". Caiff ei gyllido gan gyllid blynyddol gan Lywodraeth Cymru a thrwy incwm a gynhyrchir o'i weithgareddau. Paratoir y Datganiadau Cyfrifon hyn yn unol ag Erthygl 15 Siarter Frenhinol Cyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) ar ffurf a bennir gan Lywodraeth Cymru gyda chymeradwyaeth Trysorlys EM.

Mae copi o'r Cyfarwyddyd Cyfrifon ar gael i'r cyhoedd ei archwilio yn swyddfeydd Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd. Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 16 Mai 1972 ac mae wedi'i chofrestru fel elusen gyda'r Comisiwn Elusennau yng Nghymru a Lloegr, gyda'r amcanion elusennol canlynol:

1. gwarchod a diogelu iechyd corfforol a meddyliol y gymuned drwy hamdden corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a'r addysg mewn perthynas â hynny;
2. darparu cyfleusterau ar gyfer hamdden corfforol (gan gynnwys chwaraeon) a fydd ar gael i aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol.

## Swyddfa Gofrestredig

Gerddi Sophia
Caerdydd
Cymru
CF11 9SW



# NEGES GAN Y FARWNES TANNI GREY-THOMPSON, CADEIRYDD CHWARAEON CYMRU

Mae Chwaraeon Cymru ar siwrnai. Dechreuodd hyn gyda sgwrs genedlaethol yn ôl yn 2017/18 a arweiniodd at 'Y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru'. Yn ystod fy ychydig fisoedd cyntaf i fel Cadeirydd, rydym wedi bod yn rhan o'r Uwchgynhadledd Chwaraeon sydd wedi ailddatgan ymrwymiad y Llywodraeth a'r sector i'r weledigaeth honno.

Ar ôl blynyddoedd lawer o weld cyfraddau cyfranogiad yn sefyll yn eu hunfan ac anghydraddoldebau'n dyfnhau, mae'r pandemig a'r argyfwng costau byw presennol wedi gwneud ein gwaith yn llawer anoddach. Rwy'n ddiolchgar ein bod wedi cael y cyfle i ddod at ein gilydd a herio ein hunain i fynd yn ôl ar y trywydd iawn a chyflawni'r weledigaeth honno ar ôl cyfnod mor galed.

Rydym i gyd yn gwybod y gall chwaraeon greu cymdeithas iachach a hapusach, ond rhaid i ni sicrhau nad yw'r anghydraddoldebau sy'n treiddio drwy gymdeithas yn cael parhau i gyfyngu ar allu unrhyw un i fod yn gorfforol actif.

> "Rydym i gyd yn gwybod y gall chwaraeon greu cymdeithas iachach a hapusach"

Mae ein gwaith gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn y sectorau addysg ac iechyd hefyd yn allweddol i gefnogi gweithgarwch dyddiol pob person ifanc, i'w helpu i gael dechrau gwych a datblygu sylfaen sy'n para am oes.

Mae ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer Tymor y Llywodraeth yn rhoi lle i ni ddatblygu dull **tymor hir** a blaengar o weithredu tuag at y partneriaethau hyn.

Rydym yn gweithio'n galed i sicrhau bod yr amgylchedd hwnnw a chynaliadwyedd, ac egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, wrth galon popeth rydym yn ei wneud.

Ac rydym hefyd wedi cymryd cam mawr ymlaen wrth sefydlu pum partneriaeth chwaraeon ranbarthol bwysig gyda lansiad Actif North Wales.

Mae un o'r chwe maes gwaith y mae'r tîm o staff yn gweithio mor angerddol arnynt yn cynnwys 'system chwaraeon gynhwysol'. Mae'r syniad y gall unrhyw berson ifanc, athletwr, neu rywun sy'n rhoi cynnig ar rywbeth newydd am y tro cyntaf wneud hynny a gyda'r gefnogaeth briodol yn ddyhead cadarn a fydd, gobeithio, yn adeiladu ac yn datblygu dros weddill fy nghyfnod i fel Cadeirydd.

Oherwydd pan mae'r gefnogaeth yn briodol, gall y canlyniadau fod yn syfrdanol. Yng Ngemau'r Gymanwlad Birmingham 2022, gwelwyd 201 o athletwyr ar draws 15 o chwaraeon yn cystadlu dros Dîm Cymru. Roedd y tîm yn cynnwys mwy o ferched nag o ddynion gyda deifwyr benywaidd yn cystadlu am y tro cyntaf, a mwy o bara athletwyr nag erioed o'r blaen.

Gorffennodd Cymru yn wythfed yn y tabl medalau, gan ddod adref gyda 28 o fedalau ar draws deg camp wahanol; 8 aur, 6 arian, a 14 efydd. Roedd Birmingham yn Gemau anhygoel i bara athletwyr Tîm Cymru, a gyfrannodd at hanner cyfanswm y medalau aur a enillwyd.

Hoffem ddiolch i'r chwaraeon a'r unigolion hynny a gyfrannodd at y llwyddiant a welsom.

Cyflawnodd y tîm safonau perfformiad canmoladwy gyda nifer o oreuon personol, goreuon y tymor a sawl record yn y Gemau – gan gynnwys Jake Heyward yn torri record y Gemau yn 1,500m y dynion ar y trac athletau ond yn gorffen yn y 5ed safle. Dyma natur chwaraeon ar y lefel hon.

Gan weithio'n agos gyda Thîm Cymru a'r Cyrff Rheoli Cenedlaethol oedd yn mynychu'r Gemau, cynhyrchodd Chwaraeon Cymru gynnwys a oedd yn tynnu sylw at brofiadau unigryw rhai o'r athletwyr a fynychodd y Gemau, a byddwch yn darllen am rai ohonynt ar y tudalennau hyn.

"Rydym yn brysur yn sicrhau bod yr amgylchedd hwnnw a chynaliadwyedd, ac egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, wrth galon popeth rydym yn ei wneud"

Am y tro cyntaf yn hanes Gemau'r Gymanwlad Cymru, darlledwyd rhaglen uchafbwyntiau fyw bob nos ar y teledu o'r gemau o Dŷ Tîm Cymru ar S4C. Hefyd cadarnhaodd Cymru ei masgot cyntaf erioed – Mr Urdd. Chwaraeodd nifer o staff Chwaraeon Cymru rôl wrth gefnogi Tîm Cymru yn y Gemau, gan gynnwys nifer o ymarferyddion a fynychodd fel rhan o dimau chwaraeon penodol, gan gyflawni swyddogaethau pencadlys a gweinyddol arweiniol, a chefnogi'r athletwyr gyda maeth a seicoleg.

Rwy'n ddiolchgar i'r holl staff sy'n parhau i fuddsoddi eu hangerdd mewn cynhyrchu canlyniadau ar gyfer y bobl maent yn gweithio â hwy, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y gwaith caled y mae'r sector, chwaraeon cymunedol a gwirfoddolwyr yn ei wneud i sicrhau bod cyfleoedd chwaraeon yn digwydd. Edrychaf ymlaen at flwyddyn arall o waith caled a gweld y canlyniadau y gallwn ni i gyd eu cyflawni.



# TROSOLWG PERFFORMIAD

## Neges gan Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Chwaraeon Cymru

Roedd 2022 yn flwyddyn o godi'r holl gyfyngiadau ar chwaraeon ac agweddau eraill ar fywyd wrth i'r byd ddychwelyd i 'normal' fel yr oedd cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae llawer wedi parhau i fod ymhell o fod yn normal; mae anghydraddoldebau wedi ehangu o ran cyfranogiad ymhlith dynion a merched a rhwng y rhai sy'n gefnog a'r rhai nad ydynt. Mae rhai grwpiau oedran wedi cadw draw o'u gweithgareddau arferol hefyd. Yng nghanol hyn i gyd rydym hefyd wedi gweld argyfwng pellach wrth i bwysau costau byw effeithio ar gostau gweithredu chwaraeon a'r bobl sy'n cymryd rhan.

Er bod hyn yn cyflwyno heriau i ni mae hefyd yn creu cyfleoedd. Rydym yn credu bod gan chwaraeon a gweithgarwch corfforol ran allweddol i'w chwarae o ran gwella iechyd corfforol a meddyliol y genedl, cefnogi'r economi, ailgysylltu cymunedau ac ailadeiladu cymdeithas gryfach i bawb. Er mwyn cyflawni hynny, mae'n rhaid i ni allu ei gwneud yn haws i bawb – dim ots beth yw eu hamgylchiadau – elwa ar chwaraeon a gweithgarwch a goresgyn yr anghydraddoldebau ystyfnig sydd wedi lleihau cyfleoedd i ormod o bobl, am gyfnod rhy hir.

Dyma pam, yn 2022/23, y rhoddodd Chwaraeon Cymru ffocws o'r newydd i flaenoriaethau ei gynllun busnes i fireinio'r rôl y gellir ei chwarae wrth lunio cymdeithas iachach a hapusach. Mae ein chwe blaenoriaeth yn sicrhau bod chwaraeon yn chwarae rhan allweddol mewn addysg ac iechyd a lles; aethom ati i symud cam arall ymlaen at sefydlu pum partneriaeth chwaraeon ranbarthol, er mwyn sicrhau y gall partneriaid lleol gydweithio i ddarparu cyfleoedd chwaraeon yn eu cymunedau.

Aethom ati i flaenoriaethu datblygiad cynhwysol chwaraeon a fydd yn golygu ein bod yn ymrwymo ymhellach i gefnogi pawb o'u cam cyntaf ar y cwrt neu'r cae i ymuno â llwybr talent ac ymlaen i lwyddiant rhyngwladol. Yn olaf, rydym yn rhoi cynaliadwyedd a datgarboneiddio, ac yn ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, wrth galon popeth rydym yn ei wneud.

Rwy'n hynod falch o weld sut mae'r Bwrdd a staff Chwaraeon Cymru wedi uno i gyflawni'r chwe blaenoriaeth yma ac rwy'n obeithiol ar gyfer y flwyddyn i ddod wrth i ni geisio defnyddio ein dirnadaeth a pharhau i ddylanwadu ar y ddadl ynghylch sut mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn gallu cefnogi Cymru iachach, hapusach.

Eleni rydym hefyd wedi gweld y gwaith enfawr, yr Arolwg Chwaraeon Ysgol, yn cael ei gynnal am y chweched tro. Cymerodd 116,000 o ddisgyblion ledled y wlad ran yn yr arolwg mwyaf o'i fath yng Nghymru i'n helpu i ddeall eu harferion chwaraeon, eu diddordebau yn y maes a'u rhwystrau o ran cyfranogiad. Gyda'r ddirnadaeth newydd hon, rydym wedi rhoi cam cyntaf ein dull buddsoddi newydd ar waith, sy'n blaenoriaethu cefnogaeth i chwaraeon sydd â'r galw mwyaf ymhlith cenedlaethau'r dyfodol, i dyfu a datblygu cyfleoedd ystyrlon i bawb sydd eisiau cymryd rhan.



Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn gobeithio gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran sut mae plant a phobl ifanc yn dechrau cael mynediad i'r gweithgareddau sy'n addas iddyn nhw – ac mae cyfle gwirioneddol i wneud hyn gan fod 93% o'r plant a holwyd eisiau gwneud mwy o chwaraeon, tra bo gan 56% angen heb ei ddiwallu am chwaraeon.

Yn olaf, buom yn gweithio gyda'r sector i gynnal Uwchgynhadledd Chwaraeon gyda phartneriaid a'r Llywodraeth i edrych ar sut gellir rhoi'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru ar waith yn well; pa rwystrau a chyfleoedd sy'n bodoli a phwy all gydweithio i ysgogi'r newid sydd ei angen. Mae hon wedi bod yn broses barhaus ers ein sgwrs genedlaethol yn 2017-18, a gyda'r newidiadau yn ein cymdeithas ers hynny, roedd taflu goleuni ar yr hyn sydd angen ei wneud o hyd yn amserol ac yn angenrheidiol.

I gloi, hoffwn dalu teyrnged enfawr i'n Cadeirydd sy'n gadael, Lawrence Conway, am y modd y bu iddo gefnogi Chwaraeon Cymru a'i staff drwy gyfnod anodd yn gynnar yn ei gyfnod ac wedyn helpu i lunio a llywio'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon a strategaeth Chwaraeon Cymru, gan ddarparu sylfeini cadarn ar gyfer y dyfodol. Wrth i Lawrence adael fel Cadeirydd, rydym wedi croesawu'r Farwnes Tanni Grey-Thompson i'r rôl bwysig hon. Mae Tanni, rwy'n gwybod, yr un mor ymroddedig i ddefnyddio'r potensial gwirioneddol ar gyfer chwaraeon yng Nghymru i wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymdeithas ehangach a pharhau â'r siwrnai gyffrous rydym wedi dechrau arni.

# CADARNHAU - Y WELEDIGAETH AR GYFER CHWARAEON YNG NGHYMRU

VISION FOR SPORT

'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

Mae'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru yn sail i'n gwaith ni fel sefydliad, gwaith **cydweithredol** y sector chwaraeon a **chyfranogiad** rhanddeiliaid ehangach. Nid dim ond Gweledigaeth i Chwaraeon Cymru weithio tuag ati yw hon, ond yn hytrach mae'n gyfrwng cyfunol ar gyfer ymgysylltu traws-sector i drawsnewid Cymru yn genedl actif.

### Cenedl Actif

Rydym eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon.

### Gydol Oes

Mae'r weledigaeth am oes; mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd.

### Pawb

Mae'r weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl nad ydynt yn gweld eu hunain yn fedrus mewn chwaraeon i'r rhai sy'n ennill medalau.

### Mwynhad

Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar greu ystod o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon.

'Cenedl actif lle gall pawb fwynhau chwaraeon am oes'

Yn bwysig iawn, mae'r Weledigaeth wedi'i seilio ar y Pum Ffordd o Weithio yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

## Tymor Hir

Mae'r Weledigaeth yn sicrhau ein bod ni, ochr yn ochr â'n partneriaid, yn cynllunio ar gyfer y **tymor hir**, gan ddatblygu cyfleoedd sy'n ymateb i anghenion pawb mewn cymdeithas sy'n newid.

## Atal

Mae'r Weledigaeth yn ymwneud â sicrhau bod chwaraeon yn hygyrch, yn hwyl ac yn fforddiadwy, ac nad yw'n gadael neb ar ôl. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn rhoi adnoddau i **atal** problemau rhag codi, neu rhag gwaethygu.

## Integreiddio

Mae'r Weledigaeth yn uno'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a sefydliadau drwy ei huchelgeisiau. Mae wedi'i llunio ar sail effaith **gydweithredol** yr hyn y gallwn ei gyflawni pan fyddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

## Cydweithredu

Mae'r Weledigaeth yn perthyn i bawb yng Nghymru ac angen cefnogaeth pawb – gweithio, buddsoddi, dysgu a llwyddo gyda'n gilydd.

## Ymwneud

Lluniwyd y Weledigaeth yn dilyn sgyrsiau ag unigolion o bob rhan o Gymru ac mae'n parhau i hybu **ymwneud** wrth lunio dyfodol Cymru fel cenedl actif.

Mae'r Weledigaeth yn sail i'n strategaeth a'n cynllun busnes blynyddol. Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwch yn darllen am feysydd craidd ein gwaith sy'n hwyluso ein cynnydd tuag at y Weledigaeth.

Rydym yn hynod ddiolchgar ac yn falch iawn o'r ymdrech **gydweithredol** gan sector chwaraeon Cymru i fod yn ymroddedig i'r Weledigaeth.



# EIN STRATEGAETH

Fel rhan o'n rôl yn cyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, rydym yn gweithio i chwe datganiad o fwriad strategol. Mae'r datganiadau sefydliadol hyn yn dangos yr hyn y gallwch ddisgwyl ei weld o'r gwaith rydym yn ei gyflawni, a'r gwaith rydym yn rhan ohono.

Mae'r datganiadau hyn hefyd yn gweithredu fel ein Hamcanion Llesiant, ac rydym yn eu defnyddio i lunio ein hadroddiadau ar ddyletswyddau cyhoeddus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Deddf) Cymru 2015. Fe welwch lawer o enghreifftiau o sut rydym yn gweithio tuag at yr amcanion hyn yng nghorff yr adroddiad ac, ar y dudalen o dan 'Ein gwaith fel Corff Cyhoeddus.'

Dyma ein datganiadau bwriad strategol:

## #1
### Bod yn berson ganolog

Mae anghenion a chymhelliant yr unigolyn yn arwain y ddarpariaeth, wrth ddechrau arni, anelu am **gynnydd** neu geisio rhagoriaeth ar lwyfan y byd.

## #2
### Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc

Mae gan bob person ifanc sgiliau, hyder a chymhelliant i allu mwynhau a gwneud **cynnydd** drwy chwaraeon, gan roi iddynt sylfeini i fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

## #3
### Sicrhau bod pawb yn cael cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon

Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

## #4
### Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir

Ceir sector chwaraeon **cydweithredol, cynaliadwy** a llwyddiannus sy'n cael ei arwain gan ddysgu a gwybodaeth ar y cyd.

## #5
### Arddangos manteision chwaraeon

Gwelir tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

## #6
### Bod yn sefydliad hynod werthfawr

Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch sy'n ceisio gorgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth rhagorol drwy staff hynod werthfawr.



# ADRODDIAD BLYNYDDOL INTEGREDIG

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn **integreiddio** ein Hadroddiad Safonau'r Iaith Gymraeg ochr yn ochr â'n hadroddiad blynyddol ar Ddyletswyddau Cydraddoldeb a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (LlCD). Mae ein Hadroddiad ar Fioamrywiaeth hefyd wedi'i **integreiddio** yn ein Hadroddiad Cynaliadwyedd o fewn yr Adran Cyfrifon Blynyddol.

Mae'r **integreiddio** hwn yn dod â'r adrodd ar ddyletswyddau cyhoeddus i un ddogfen i roi darlun mwy cyfannol o'n gwaith. Mae hefyd yn adlewyrchu'r ffordd rydym yn gweithio fel sefydliad.

Rydym yn credu bod hwn yn ddull unigryw a blaengar o adrodd gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru.

Bydd llawer o enghreifftiau ac egwyddorion o'n gwaith yn cael eu hymgorffori gan ddefnyddio iaith, er enghraifft: **'cydweithredu, ymwneud, tymor hir, atal ac integreiddio'** neu eu hamlygu gyda'r logos canlynol:

| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Yr Iaith Gymraeg | Cydraddoldeb | Bioamrywiaeth | Economaidd-gymdeithasol |
|---|---|---|---|---|

# EIN DIRNADAETH

Yn Chwaraeon Cymru, rydym yn defnyddio dirnadaeth i ddeall pwy sy'n gwneud gweithgarwch corfforol a phwy sydd ddim yn gwneud hynny; pam, a beth all y sector a pholisi ei wneud i addasu a datblygu i helpu pobl i fod yn fwy actif.

Cafodd pandemig Covid-19 effaith nid yn unig ar y canlyniadau gweithgarwch a welsom, ond hefyd ar gwblhau ein prif arolygon. Ni allai'r adran chwaraeon a ffyrdd o fyw actif yn Arolwg Cenedlaethol Cymru gael ei chyflwyno yn ei fformat blynyddol arferol ac yn hytrach fe'i cyflwynwyd fel arolygon ffôn chwarterol. Yn 2022 rhyddhawyd yr arolwg blynyddol cyntaf mewn dwy flynedd.

Yn yr un modd, roedd yr arolwg chwaraeon ysgol i fod i gael ei gynnal yn 2021, dair blynedd ar ôl yr arolwg yn 2018, ond ar ôl ymgynghori â'n partneriaid yn 2020 roedd yn amlwg na ellid cyflawni graddfa ein harolwg yn yr amodau ansicr ar y pryd a chafodd ei ohirio am flwyddyn.

Yn olaf, deilliodd ein hadnodd Traciwr Gweithgarwch Cymru o gyfyngiadau 2020 pan oedd angen i ni wybod sut roedd y cyfyngiadau symud yn effeithio ar lefelau gweithgarwch pobl. Rydym newydd gwblhau'r wythfed traciwr, sydd wedi datgelu llawer am arferion pobl yn ystod y cyfnodau clo ac am gostau byw. Yn yr adran hon, fe welwch ganfyddiadau allweddol o bob un.

Rydym yn ymfalchïo ein bod yn cael ein harwain gan ddirnadaeth ac mae'r hyn sy'n dilyn yn sail i'r rheswm pam rydym yn gwneud yr hyn rydym yn ei wneud.



# Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif 2021-22: Canfyddiadau o Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae prif ganfyddiadau 2021-22 yn yr adroddiad "Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif – Cyflwr y Genedl" wedi'u strwythuro o amgylch y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Canfu'r arolwg bod y lefelau chwaraeon a gweithgarwch corfforol cyffredinol yng Nghymru yn cael eu sbarduno'n bennaf gan weithgareddau sy'n cael eu dosbarthu fel 'Gweithgareddau Ffitrwydd' (e.e. cerdded i ymarfer, rhedeg / loncian, nofio a beicio). Roedd 51% o oedolion wedi cymryd rhan yn un o'r gweithgareddau hyn o leiaf unwaith yn ystod y pedair wythnos flaenorol. Roedd y lefel ar gyfer gweithgareddau a ddosbarthwyd fel 'Chwaraeon a Gemau' traddodiadol (e.e. chwaraeon tîm, chwaraeon raced, bowlio, golff, athletau (trac a chae), ac ati) yn sylweddol is (14%). Roedd lefel y cyfranogiad mewn Gweithgareddau Awyr Agored (e.e. chwaraeon dŵr, chwaraeon modur, chwaraeon mynydd, marchogaeth, chwaraeon rholio a sglefrfyrddio, ac ati) yn is eto, sef 6%.

Yn gyffredinol, canran y bobl a gymerodd ran mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos (h.y. unrhyw un o'r 'Gweithgareddau Ffitrwydd', 'Chwaraeon a Gemau', neu 'Gweithgareddau Awyr Agored') oedd 34%. Eto, mewn 'Gweithgareddau Ffitrwydd' yr oedd pobl fwyaf tebygol o fod wedi cymryd rhan deirgwaith neu fwy yr wythnos. Roedd tuedd i gymryd rhan mewn 'Chwaraeon a Gemau' unwaith neu ddwywaith yr wythnos, a thueddwyd i gymryd rhan mewn 'Gweithgareddau Awyr Agored' yn llai aml; a llai nag unwaith yr wythnos.

Edrychodd yr adran 'Pawb' a 'Gydol Oes' yn adroddiad Chwaraeon Cymru ar nodweddion y rhai a oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon ac, yn bwysig, y rhai nad oeddent yn cymryd rhan. Tynnodd yr adroddiad sylw at y canlynol:

- Mae lefelau cyfranogiad yn gostwng gydag oedran.
- Mae lefelau cyfranogiad merched yn is na chyfranogiad dynion.
- Y rhai ag ethnigrwydd gwyn oedd â'r lefelau cyfranogiad isaf o gymharu â'r rhan fwyaf o grwpiau ethnig eraill.
- Roedd gan oedolion â salwch hirsefydlog, anabledd neu freguster lefelau cyfranogiad is na'r rhai heb y nodweddion hyn.
- Roedd gan oedolion sy'n byw mewn amddifadedd materol ac yn y cymunedau mwyaf difreintiedig rai o'r lefelau cyfranogiad isaf yng Nghymru.
- Roedd cyfraddau cyfranogiad yr oedolion a oedd yn defnyddio'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn uwch na'r cyfartaledd.

Roedd llai o amrywiaeth yn y galw yn ôl nodweddion geo-ddemograffig ac economaidd-gymdeithasol. Ar draws y 2.5 miliwn o oedolion yng Nghymru, dywedodd 773,000 bod ganddynt alw i gymryd rhan mewn o leiaf un gamp neu weithgaredd corfforol, sef 31% o'r holl oedolion. Yn nodedig, nid oedd 224,000 o'r bobl hyn, neu 9% o gyfanswm y boblogaeth o oedolion yng Nghymru, wedi cymryd rhan mewn unrhyw chwaraeon neu weithgarwch corfforol yn ystod y pedair wythnos flaenorol ond roeddent eisiau gwneud hynny.

Ymhlith y gweithgareddau yr oedd y galw mwyaf amdanynt roedd nofio, dosbarthiadau ffitrwydd, beicio, pêl droed, athletau neu redeg / loncian a golff. Canŵio a chaiacio gyda'i gilydd oedd y gweithgaredd awyr agored gyda'r galw mwyaf amdano.

Mae newidiadau i ddull yr arolwg wedi gwneud cymariaethau dros amser yn anodd rhwng 2019-20 a 2021-22. Bydd y datganiad Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif nesaf yn rhoi gwell syniad o unrhyw dueddiadau tymor byr mewn cyfranogiad a galw dros amser. Bydd arolwg 2022-23 yn cael ei ryddhau yn haf 2023.

## Pwyntiau dysgu allweddol

Mae oedolion a ffyrdd o fyw oedolion yn unigryw ac yn amlochrog ac felly dylai'r ddarpariaeth o ran cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol adlewyrchu hyn.

Mae newidiadau cymdeithasol sydd wedi cael eu sbarduno gan y pandemig a'r argyfwng costau byw wedi creu rhwystrau ychwanegol i gymryd rhan mewn chwaraeon i aelwydydd ledled Cymru. O ganlyniad, mae amser hamdden yn debygol o fod yn gyfyngedig, prin yn bodoli i rai, ac mae llawer o aelwydydd yn llai tebygol o fod ag adnoddau dros ben.

Mae ymchwil blaenorol a gynhaliwyd gan Chwaraeon Cymru a'r canfyddiadau diweddaraf hyn yn awgrymu bod angen i ymyriadau chwaraeon ar gyfer oedolion felly gymell a chyfateb cymhellion oedolion yn y gymuned a chael eu trefnu gyda'r nod o feithrin hyder a lleihau hyn fel rhwystr i'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan.

Nid yn unig y mae angen i gyfleoedd cyfranogiad fod yn hygyrch, ond mae angen iddynt hefyd fod yn ddigon pleserus, hwyliog a chystadleuol i wneud i bobl fod eisiau dod yn ôl. Mae angen i sefydliadau yng Nghymru, yn awr yn fwy nag erioed, gydweithio'n effeithiol a thargedu adnoddau i'r mannau lle mae eu hangen fwyaf, fel y dangoswyd gan yr "Arolwg Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif".

Mae elfennau cydgysylltiedig oedran, rhywedd, ethnigrwydd, anabledd ac amddifadedd economaidd-gymdeithasol yn arwain at hanner yr oedolion yn unig yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, ac mae gostyngiad tymor hwy yn nifer yr oedolion sydd eisiau gwneud mwy o chwaraeon. Y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru sydd â'r cyfraddau cyfranogiad isaf mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Dylid dylunio'r fersiynau o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn y dyfodol (2024 ymlaen) gyda chwestiynau i helpu i edrych yn fanylach ar y ffactorau a allai annog cyfranogiad, a thracio tueddiadau tymor hwy i helpu i benderfynu a yw'r dulliau gweithredu yng Nghymru wedi cael effaith.

# Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022: Arolwg cenedlaethol o ymddygiadau, agweddau a chyfleoedd pobl ifanc mewn chwaraeon.

Yn nhymor yr haf ym mlwyddyn academaidd 2021-2022, fe wnaethom wahodd pobl ifanc 7 i 16 oed i leisio eu barn ar chwaraeon a lles yng Nghymru drwy gymryd rhan yn yr "Arolwg Chwaraeon Ysgol".

Mae'r arolwg ar-lein, sy'n un o'r rhai mwyaf o'i fath yn y byd, yn gwahodd holl ysgolion Cymru i gymryd rhan. Yn allweddol, mae'r "Arolwg Chwaraeon Ysgol" yn rhoi llais i bobl ifanc, gan ganiatáu i'r sector chwaraeon a thu hwnt wneud y newidiadau angenrheidiol i annog mwy o bobl ifanc i fabwysiadu ffordd o fyw actif ac iach.

Roedd yr angen am glywed a deall y lleisiau hynny'n amlwg o'r gefnogaeth i'r arolwg a sicrhaodd fwy na 116,000 o ymatebion gan ddisgyblion o 1,000 o ysgolion ledled Cymru. Bu mwy na 900 o athrawon yn rhannu eu profiad hefyd o ddarpariaeth chwaraeon ysgol a'r gefnogaeth sydd arnynt ei hangen i wella'r profiad chwaraeon i'w disgyblion.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod angen newid systemig i gyflawni'r Weledigaeth o greu Cenedl Actif. Dim ond **39%** o ddisgyblion oedd yn cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu deirgwaith neu fwy yr wythnos, gostyngiad sylweddol ers 2018.

Yn y cyfamser, mae canran y disgyblion sy'n adrodd 'dim gweithgarwch rheolaidd' wedi cynyddu ers 2018.

Ymhellach, mae'n amlwg nad yw pawb yn actif, neu'n cael cyfle i fod yn actif, a bod y bylchau anghydraddoldeb sydd wedi bodoli ers tro yn gwaethygu. Er enghraifft, roedd gwahaniaeth o 15 pwynt canran mewn cyfranogiad mewn chwaraeon wedi'u trefnu deirgwaith neu fwy yr wythnos rhwng yr ardaloedd lleiaf a mwyaf difreintiedig, sydd eto'n gynnydd ers 2018.

Fodd bynnag, mae'r canlyniadau'n dangos i ni y gall chwaraeon fod yn gyfrwng i lawer o ganlyniadau cadarnhaol, ac, yn fwy na hynny, mae galw sylweddol am chwaraeon o hyd. Mynegodd 93% o ddisgyblion alw i wneud mwy o chwaraeon, tra bo gan 56% o ddisgyblion alw heb ei ddiwallu am chwaraeon. Gyda'i gilydd, mae'r canlyniadau hyn yn pwysleisio'r ffaith bod angen newid mawr tuag at wneud chwaraeon yn fwy cynhwysol a hygyrch, fel bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth maent yn ei fwynhau.

Ers cau'r arolwg, mae'r sector a thu hwnt wedi derbyn yr wybodaeth drwy blatfformau niferus, gan gynnwys graffeg gwybodaeth, adroddiadau pwrpasol, tablau data helaeth, cyflwyniadau a mwy. Mae llawer o bartneriaid hefyd wedi cael y cyfle i drafod yr wybodaeth a'i goblygiadau gyda ni a'i gilydd, yn ysbryd gwneud y newidiadau systematig hynny sydd eu hangen. Yr hyn sy'n dilyn yn awr yw parhad o'r sgyrsiau hynny i ysgogi a gweithredu newid, yn ogystal â thyrchu'n ddyfnach i'r wybodaeth, gan edrych ar berthnasoedd o fewn y data a thu hwnt, ac ymrwymiad i archwilio cyfleoedd ansoddol i ddeall profiadau bywyd real pobl ifanc ledled Cymru.

## Traciwr Gweithgarwch Cymru – Deall tueddiadau cyhoeddus mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol

Ar ddechrau pandemig Covid-19, dechreuodd Chwaraeon Cymru ddilyn tueddiadau'r cyhoedd o ran cyfranogiad, hyder a rhwystrau sy'n atal cymryd rhan mewn chwaraeon drwy arolwg chwarterol ar lefel y boblogaeth. Drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i gasglu'r wybodaeth hon, gan weithio gyda'r sector i sicrhau bod yr allbynnau'n arwain at ymatebion y gellir gweithredu yn eu cylch.

Ymhlith y themâu allweddol rydym wedi'u harchwilio drwy'r gwaith ymchwil hwn yn ystod y 12 mis diwethaf mae heriau ailgysylltu'r sector gwirfoddol; deall sut orau i gefnogi'r cyhoedd mewn chwaraeon ar ôl y pandemig a sut mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar y sector chwaraeon.

Mae'r dystiolaeth wedi helpu i lunio cynlluniau ein rhwydwaith o bartneriaid, wedi canolbwyntio ar flaenoriaethau buddsoddi Chwaraeon Cymru, ac wedi ffurfio elfennau allweddol o'n mewnbwn i ymchwiliadau pwyllgor y Senedd.

Byddwn yn parhau â'r gwaith hwn, gan ymgysylltu â'n rhwydwaith o bartneriaid a'r sector chwaraeon ehangach ar y materion sy'n peri'r pryder mwyaf iddynt er mwyn profi barn y cyhoedd. Mae deall beth sy'n cymell pobl yng Nghymru, ble mae'r rhwystrau, a defnyddio'r llais cyhoeddus hwnnw i gyfeirio ein gwaith yn hanfodol i fod yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan ddirnadaeth.

## Y Rhaglen Cyfathrebu, Dysgu a Dirnadaeth (CLIP) – Uwchsgilio'r sector chwaraeon

Eleni gwelwyd parhad i gyflwyno CLIP. Yn brosiect o bwysigrwydd cynyddol, rydym wedi ffurfio partneriaeth ag amrywiaeth o ddarparwyr i gefnogi sesiynau ar Ddeddf yr Iaith Gymraeg, deall anghenion cynulleidfaoedd, defnyddio meddwl i newid ymddygiad, creu graffeg gwybodaeth, cynnal ymchwil defnyddwyr, yn ogystal â rhannu'r ymchwil uniongyrchol mae Chwaraeon Cymru wedi'i gynnal, fel canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol. Ers lansio'r rhaglen (CLIP) yn gynnar yn 2020, mae bron i 400 o unigolion wedi derbyn hyfforddiant dirnadaeth ac ymchwil.

Mae'r sesiynau wedi canolbwyntio ar helpu ein rhwydwaith o bartneriaid i ystyried yn well sut maent yn ymgysylltu â phoblogaethau amrywiol yng Nghymru ac yn ystyried eu llais wrth gynllunio gweithgareddau, yn ogystal â darparu'r offer, yr adnoddau a'r wybodaeth orau sydd ar gael i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Wrth i ni symud ymlaen i gam nesaf y rhaglen, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol i ganolbwyntio ar grŵp craidd o bartneriaid, gan sicrhau'r defnydd gorau o'r adnoddau hyn i helpu i gefnogi datblygiad y sector chwaraeon yng Nghymru. Bydd y rhwydwaith cefnogi hwn yn ystyried sut gall yr hyfforddiant a ddarperir gyd-fynd yn benodol â'r partneriaethau a all chwarae'r rhan fwyaf mewn cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

## Sylw i:
# Rhagen y Llysgenhadon Ifanc

Mae rhaglen y Llysgenhadon Ifanc (LlI) wedi bod yn un o'r mentrau mwyaf blaenllaw o ran rhoi llais i bobl ifanc mewn chwaraeon a'r grym i ddylanwadu ar y cyfleoedd maent hwy a'u cyfoedion yn eu cael. Rydym yn cyllido ac yn cefnogi'r Llysgenhadon Ifanc gyda chefnogaeth yr Youth Sport Trust (YST), sy'n elfen allweddol o'n cyfraniad at ddatblygu pobl ifanc fel arweinwyr mewn chwaraeon, gydag amcangyfrif o 25,000+ o LlI wedi cael eu cefnogi drwy'r rhaglen hon ers ei sefydlu.

Adolygodd YST y rhaglen yn 2022 i asesu'r cyfleoedd, y rheolaeth a chyfleoedd **cydweithredu** yn y dyfodol, ac i asesu rheolaeth a chydlynu'r rhaglen.

Roedd yr adolygiad hefyd yn gyfle i drafod recriwtio, hygyrchedd a chynhwysiant y Rhaglen LlI gyda phartneriaid a phobl ifanc, asesu'r ymateb i Covid-19, a'r Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol.

Gwnaed nifer o argymhellion, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o'r rhaglen, y ddarpariaeth, cyfathrebu a **chydweithredu** rhwng gwahanol bartneriaid. Mynegwyd syniadau fel **integreiddio** interniaid i fodel y Bartneriaeth Chwaraeon Ranbarthol ac e-blatfform a fydd yn galluogi arweinwyr awdurdodau lleol ac ysgolion i gydweithio'n ddi-dor, a byddant yn cael eu hystyried wrth i'r rhaglen symud ymlaen.



## Sylw i:
# Uwchgynhadledd Chwaraeon

Ar 8 Rhagfyr 2022, cynhaliwyd yr Uwchgynhadledd Chwaraeon gennym ar y cyd â Llywodraeth Cymru. Roedd mwy na 200 o gynrychiolwyr yn bresennol o bob rhan o'r sector chwaraeon a hamdden a thu hwnt i drafod yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer creu system chwaraeon gynhwysol a darparu gweithgareddau chwaraeon sy'n hygyrch, yn fforddiadwy, yn apelgar ac yn groesawgar i'r llu o gymunedau gwahanol yng Nghymru.

Ar ôl adolygu canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru ac Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022, roedd yn ddychryn i ni nodi bod anweithgarwch wedi cynyddu, a bod amledd y cyfranogiad wedi gostwng yn sylweddol ymhlith oedolion a phlant. Roedd anghydraddoldebau wedi parhau ac yn dangos arwyddion o ddod yn fwy sefydlog drwy'r pandemig ac effeithiau'r argyfwng costau byw.

Mae mwy o frys nag erioed i ni weithredu. Er gwaethaf cyfraniadau cadarnhaol pawb, ar hyn o bryd nid oes digon o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon i ni gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Mae gormod o fylchau cyfranogiad ystyfnig a dim digon o amrywiaeth yn ein gweithlu nac o fewn y rhai sy'n cymryd rhan. Mae angen newid sylweddol yn y ffordd rydym i gyd yn gwneud ac yn meddwl am bethau i wneud y cynnydd sydd ei angen.

Clywodd yr uwchgynhadledd sut mae rhai partneriaid yn cyrraedd cymunedau nad ydynt wedi gweithio gyda hwy yn draddodiadol i sicrhau bod chwaraeon ar gyfer pawb. Clywodd hefyd sut gellir gwella ffyrdd o weithio er mwyn **cynnwys** pobl yn well wrth ddatblygu a darparu cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Y neges allweddol gan y siaradwr gwadd o Norwy – Per Tøien, uwch gynghorydd i Bwyllgor Olympaidd a Pharalympaidd a Chydffederasiwn Chwaraeon Norwy – oedd bod system chwaraeon lwyddiannus ei wlad yn seiliedig ar egwyddor o undod. Ond hyd yn oed mewn gwlad sydd â chyfraddau cyfranogiad uchel, mae'n wynebu heriau wrth recriwtio gwirfoddolwyr chwaraeon.

Y consensws o'r uwchgynhadledd oedd bod angen i'r sector chwaraeon fod yn ddewrach yn ei benderfyniadau, yn fwy beiddgar yn ei uchelgeisiau a dod yn aflonyddwr cadarnhaol. Roedd yr uwchgynhadledd yn ddechrau ar broses i ddeall a mynd i'r afael â'r materion sy'n creu anghydraddoldeb mynediad i chwaraeon. Rydym yn cydnabod gyda'n gilydd bod llawer o heriau, fel y pandemig a'r argyfwng costau byw, wedi gwaethygu'r mater hwn mewn llawer o gymunedau. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid ar draws y sector a'r Llywodraeth i sicrhau'r newid angenrheidiol sydd ei angen i greu system sy'n caniatáu i bawb gael mwynhad oes o chwaraeon.




## Defnyddio dirnadaeth fel sail

Gan roi dirnadaeth wrth galon popeth rydym yn ei wneud, rydym yn gweithio'n agos gyda'r Senedd, cydweithwyr mewn llywodraeth leol, a hefyd gyda chlybiau lleol i helpu clybiau i arddangos sut maent wedi defnyddio ein buddsoddiad. Defnyddir ein dirnadaeth yn rheolaidd gan Aelodau'r Senedd, o Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 i'r astudiaeth hŷn, elw cymdeithasol ar fuddsoddiad, a gyhoeddwyd yn 2020. Eleni, gwnaethom gynnwys aelodau'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol (CCWLSIR), gan eu croesawu i Blas Menai i glywed am ein gweledigaeth **dymor hir** ar gyfer y ganolfan ac i glywed am waith Actif North Wales yn yr ardal.

Rydym wedi rhannu ein dirnadaeth i ymateb i ymgynghoriadau ar gyfer pwyllgorau Llywodraeth Cymru a'r Senedd. Roedd yn bleser gennym gefnogi gwaith y Pwyllgor CCWLSIR ymhellach, gan ymddangos fel tystion wrth iddynt gynnal eu hymchwiliad i "Cyfranogiad mewn chwaraeon mewn ardaloedd difreintiedig", yn ogystal ag ymchwiliad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i "Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd Awdurdodau Lleol". Eleni buom hefyd yn treulio amser yn gweithio gyda data ar lefel awdurdodau lleol, a gyflwynwyd gennym i gynghorwyr newydd eu hethol ym mhob ardal, i sicrhau eu bod yn ymwybodol o flaenoriaethau ar gyfer chwaraeon yn eu hawdurdod.

# EIN DULL O FUDDSODDI

Er mwyn gwireddu'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, ac i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio i greu'r effaith fwyaf posibl ymhlith y rhai sydd ei angen fwyaf, mae gan Chwaraeon Cymru ddull buddsoddi mentrus.

Rydym wedi canolbwyntio ar ddau faes:

- Cyllid Partner – sut rydym yn cefnogi ein partneriaid rhanbarthol a chenedlaethol:
  - Buddsoddiad sy'n cael ei sbarduno gan ddata
  - Egwyddorion sy'n cael eu sbarduno gan ddata
- Chwaraeon Cymunedol – sut rydym yn cefnogi clybiau a sefydliadau ledled Cymru

## Buddsoddiad sy'n cael ei sbarduno gan ddata

Yn 2020, rhoesom gam cyntaf ein dull newydd o fuddsoddi mewn partneriaeth ar waith gyda phartneriaid y Cyrff Rheoli Cenedlaethol y mae gennym ystadegau lefel genedlaethol a data perfformiad ar eu cyfer. Mae'r dull buddsoddi hwn sy'n cael ei sbarduno gan ddata yn ein galluogi i wrando ar yr hyn y mae pobl Cymru yn ei ddweud wrthym y maent eisiau ei wneud, gan ddefnyddio data fel sail i'r swm mwyaf o arian rydym yn ei fuddsoddi mewn partneriaid unigol a rhoi mwy o arwyddocâd i hil, rhywedd, anabledd ac amddifadedd. Mae'r dull hwn o weithredu'n newid sylweddol o'r ffyrdd blaenorol o gyllido ac rydym yn parhau i gefnogi partneriaid drwy'r cyfnod pontio hwn.

## Dull o weithredu sy'n cael ei sbarduno gan egwyddorion o fuddsoddi mewn partneriaid

Eleni, aeth tîm prosiect ati i greu dull newydd o bennu lefel y buddsoddiad ar gyfer partneriaid lle nad oes data lefel arolwg ar gael, a oedd yn cyd-fynd â'n strategaeth a'r ffordd **gydweithredol** newydd o weithio gyda phartneriaid.

Defnyddir dull 'sy'n cael ei sbarduno gan egwyddorion' o bennu buddsoddiad yn ein Partneriaid Cenedlaethol. Gwnaethom ystyried amrywiaeth o opsiynau, a dewiswyd dull gweithredu sy'n seiliedig ar egwyddorion yn dilyn ymchwil defnyddwyr, trafodaethau mewnol ac allanol, a phrofion cadarn. Mae defnyddio dull sy'n cael ei sbarduno gan egwyddorion o weithredu'n rhoi eglurder ar y meysydd rydym yn dymuno buddsoddi ynddynt, a'r hyn sy'n bwysig i'n gwerthoedd a'n cynllun busnes, ac mae'n cyd-fynd â'r Weledigaeth.

Y tair egwyddor allweddol yw:

- Creu sector chwaraeon cyfartal, amrywiol a chynhwysol
- Gwella Chwaraeon yng Nghymru
- Meithrin gallu

Ni fydd y dull gweithredu'n newid y ffordd rydym yn gweithio gyda phartneriaid, nac yn cyflwyno cyfrifoldebau newydd a fyddai'n rhoi baich ar y sefydliadau hynny. Bydd y broses fuddsoddi'n digwydd heb newid y ffordd **gydweithredol** o weithio rydym wedi'i datblygu'n ddiweddar ar y cyd â'n partneriaid. Ni fydd ein dull o weithredu, sy'n cynnwys sgyrsiau parhaus â phartneriaid ynghylch yr hyn sy'n wirioneddol bwysig, yn newid; bydd gweithio mewn partneriaeth yn parhau i annog dysgu a datblygu gyda'n gilydd.

Yr hyn fydd yn newid yw y bydd gennym ddull buddsoddi sy'n dryloyw ac yn dosbarthu buddsoddiad mewn ffordd â mwy o ffocws i gyflawni'r Weledigaeth.

## Dull newydd o fuddsoddi mewn cymunedau

Yn dilyn y bartneriaeth lwyddiannus gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) yn 2021/22 a oedd, drwy gynnwys ymgeiswyr posibl nad oeddent wedi gwneud cais o'r blaen a chymunedau a oedd wedi defnyddio'r system, yn amlygu bod ymgeiswyr am ein cyllid yn aml yn cael eu hatal gan ein system rheoli grantiau. Parhaodd y gwaith i mewn i 2022/23 gyda chyfnod Alpha+ estynedig o 14 wythnos. Roedd hwn yn canolbwyntio ar gynllunio a gwerthuso siwrnai'r defnyddiwr yn barhaus, a sut mae'n effeithio ar brosesau swyddfa gefn a gofynion systemau mewn perthynas â Chronfa Cymru Actif gennym.

Ar ôl i Alpha+ ddod i ben ym mis Mehefin 2022, gwnaed argymhellion i Chwaraeon Cymru, a roddwyd ar waith yn ail hanner 2022/23. Roedd llawer o'r argymhellion yn gysylltiedig â chaffael system fuddsoddi newydd, a gafodd ei ffurfioli ym mis Hydref 2022 gyda phenodiad cyflenwr newydd, Civic UK. Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo ers hynny i ddatblygu system fuddsoddi newydd sy'n diwallu anghenion Chwaraeon Cymru ac ymgeiswyr fel ei gilydd ar gyfer y **tymor hir**, gyda'r bwriad o lansio'r system newydd yn gynnar yn 2023/24.


Mae newidiadau wedi'u gwneud hefyd i'n prosesau mewnol presennol i helpu i ddileu'r rhwystrau i grwpiau sy'n gweithio i leihau anghydraddoldebau o ran cael mynediad i'n cyllid.



Mae'r Tîm Buddsoddi yn **cydweithredu** ag ymgeiswyr cyn i gais gael ei wneud, gan eu cynorthwyo yng nghamau cychwynnol y prosiect i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf cyllido, neu'n eu cyfeirio at bartneriaid perthnasol pe bai arnynt angen cymorth ychwanegol, drwy'r Ffurflen Datgan Diddordeb newydd a lansiwyd ym mis Mawrth 2023. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â rôl gwaith ymchwil partneriaid parhaus gan Chwaraeon Cymru i weithio gydag awdurdodau lleol a chyrff rheoli cenedlaethol ar y rôl maent yn ei chwarae mewn buddsoddi cymunedol.



# EIN MEYSYDD GWAITH 2022-2023




### Cynaliadwyedd a Datgarboneiddio

Gan gynnwys: datblygu Strategaeth Datgarboneiddio.

### Cydraddoldeb, Amrywiaeth, a Chynhwysiant

Gan gynnwys: Ymgorffori EDI ym mhob agwedd ar ein gwaith.

### System Chwaraeon Gynhwysol

Gan gynnwys: cyflwyno dull traws-sefydliadol o ddatblygu system chwaraeon fwy cynhwysol yng Nghymru.

### Partneriaethau Chwaraeon

Gan gynnwys: Cefnogi Chwaraeon Gogledd Cymru i bontio'n llawn i rwydwaith partner chwaraeon a sicrhau datblygiad yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.

### Addysg

Gan gynnwys: Arwain gwaith darganfod y 'Cynnig Actif Dyddiol' a'r Peilot Actif Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol.

### Iechyd a Lles

Gan gynnwys: Chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o gyflawni mentrau presennol a newydd o fewn Strategaeth Pwysau Iach Cymru Iach.

# CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A CHYNHWYSIANT

Rydym yn anelu at ymgorffori egwyddorion cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) ym mhob agwedd ar ein gwaith.

## Helpu'r sector i fod yn sector Cymraeg yn gyntaf

Cawn ein grymuso gan Lythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth i gefnogi creu amodau ffafriol lle gall y Gymraeg ffynnu. Gall y sector chwaraeon fod yn gatalydd hollbwysig ar gyfer yr uchelgais hwn.

Mae Cymdeithas Bêl-droed Cymru (CBDC) wedi arwain y ffordd gyda'i defnydd o'r Gymraeg yn ei chyfathrebu – gan gynnwys, uniaethu a chysylltu â chynulleidfa sy'n siarad Cymraeg. Lle mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i Chwaraeon Cymru ddefnyddio'r iaith, rydym eisiau dilyn esiampl Cymdeithas Bêl-droed Cymru a defnyddio'r Gymraeg oherwydd ein bod ni eisiau ac nid oherwydd bod raid i ni wneud hynny.

Gan gydnabod pwysigrwydd a manteision defnyddio'r iaith, testun un o'n digwyddiadau dysgu CLIP chwarterol wyneb yn wyneb oedd y Gymraeg. Gan **gydweithredu** â Chomisiynydd y Gymraeg, cyflwynodd Arweinydd y Gymraeg Golley Slater, Triathlon Cymru a'r Urdd sut maent yn defnyddio'r Gymraeg, pam ei bod yn bwysig a'r triciau a'r awgrymiadau gorau ar sut i ymgorffori'r Gymraeg mewn cyfathrebu bob dydd. Yn dilyn y digwyddiad, newidiodd Triathlon Cymru ei enw ar y cyfryngau cymdeithasol i Triathlon Cymru ac mae wedi parhau i ddefnyddio cyfathrebu dwyieithog.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn parhau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yng nghyfathrebu'r sector chwaraeon yng Nghymru, ac yn sicrhau ein bod yn ystyried defnyddio dull Cymraeg yn gyntaf o weithredu yn hytrach na chyfieithu o'r Saesneg dim ond oherwydd bod gofyn i ni wneud hynny, fel bod y gynulleidfa Gymraeg ei hiaith wir yn gallu uniaethu ag iaith ac arddull yr ysgrifennu.



## Sylw i:
# Amrywio ein gweithlu yn y dyfodol

Yn unol â'n strategaeth a'n cynllun busnes, rydym wedi bod yn gwneud cynnydd i amrywio ein gweithlu er mwyn cynnwys amrywiaeth o ffyrdd o feddwl a phrofiad byw. Bydd sicrhau bod ein gweithlu'n adlewyrchu'r boblogaeth ehangach yn well yn arwain at well dealltwriaeth o'r heriau a wynebir gan wahanol gymunedau, a ddylai yn ei dro arwain at wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau'n fwy effeithiol.

Eleni buom yn gweithio gydag ysgolion lleol i siarad â disgyblion o bob cefndir am yrfaoedd mewn chwaraeon. Ein nod oedd codi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli mwy o bobl ifanc i ddilyn gyrfa mewn chwaraeon. Gan weithio gyda Gyrfa Cymru, cyflwynodd nifer o staff Chwaraeon Cymru sgyrsiau gyrfaoedd mewn ysgolion lleol. Wedyn roeddem eisiau mynd â hyn ymhellach a chynnig profiad mwy ymarferol, felly, unwaith eto, gan weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru ac Ysgol Uwchradd Willows, fe wnaethom greu sesiwn diwrnod agored peilot yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru.

Cafodd y disgyblion gyfle i gael blas ar swyddi ym maes Gweithrediadau, Maeth a Chryfder a Chyflyru. Cafodd y disgyblion fynd o amgylch yr adeilad i ddysgu am y gwahanol swyddi yn ein Canolfan.

Cawsant gyfle wedyn i brofi gwaith staff yr Athrofa drwy gynllunio sesiwn cryfder a chyflyru. Dilynwyd hyn gan goginio crempog gydag elfen gystadleuol lle bu'n rhaid iddynt ddyfalu llwybr gyrfa pob maethegydd gan ddefnyddio cliwiau yn ystod y sesiwn coginio.

Daeth eu diwrnod i ben gyda gêm o badminton yn y brif neuadd. Nid oedd yr un o'r disgyblion wedi ymweld â'r Ganolfan o'r blaen, fe wnaethant fwynhau eu hymweliad yn fawr, ac mae'r ysgol yn awyddus i ailadrodd y sesiwn.

Ers y diwrnod peilot rydym wedi bod yn adolygu ein dull o weithredu gyda'r maes gwaith hwn. Mae cydbwysedd rhwng cyrraedd nifer fawr o ddisgyblion i'w hysbrydoli i yrfaoedd mewn chwaraeon a chynnig profiad ymarferol manylach o swyddi yn ein Canolfan Genedlaethol. Efallai y bydd yn cymryd blwyddyn neu ddwy arall i weld y newid mae'r gwaith hwn yn ei wneud i'n gweithlu, ond y gwerth uniongyrchol yw dysgu gan y disgyblion a'r ysgolion ynghylch sut maent yn ystyried eu gyrfaoedd yn y dyfodol ac unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu.

## Ymgyrch recriwtio Prentis Digidol

Eleni, fe wnaethom recriwtio dau Brentis Digidol i weithio fel rhan o'n tîm Digidol a Dylunio Gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd i sicrhau lle i'r prentisiaid ar eu cwrs gradd Peirianneg Meddalwedd.

Cyn y broses recriwtio, buom yn ystyried sut gallem fanteisio i'r eithaf ar gyrhaeddiad yr hysbysebion a chynyddu'r cyfle i ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr. O ganlyniad i'r gwaith hwn, gwnaethom rai newidiadau allweddol i'n proses recriwtio arferol, fel a ganlyn:

- Gwnaethom warantu cyfweliadau i ymgeiswyr o gefndiroedd a phrofiadau amrywiol a oedd yn bodloni gofynion hanfodol y rôl.
- Cynhaliwyd tri sesiwn galw heibio er mwyn i ddarpar ymgeiswyr allu cyfarfod yn anffurfiol â rhai o'r tîm a dysgu mwy am y rôl.

Daeth nifer dda i'r sesiynau galw heibio wythnosol a rhoddodd gyfle gwirioneddol i ni gadarnhau'r diwylliant cynhwysol sydd gennym yn Chwaraeon Cymru mewn sesiwn mwy anffurfiol.



Roedd pob sesiwn yn ddiddorol iawn, ac roedd ymdeimlad amlwg o gyffro ymhlith y mynychwyr.

Daeth yr hysbyseb i ben gyda'r nifer uchaf erioed o geisiadau am rôl gyda Chwaraeon Cymru (143). Roedd safon y ceisiadau am rôl o'r natur yma'n anhygoel o uchel a nododd dadansoddiad o ddemograffeg yr ymgeiswyr eu bod yn llawer mwy amrywiol nag y byddem yn ei weld fel arfer ar gyfer rôl arferol. Ceir rhagor o fanylion isod:

- 16% o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig.
- 8% ag anabledd.
- 13% LGBTQ+.
- 8% y mae eu hunaniaeth o ran rhywedd yn wahanol i'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu geni.
- 32% gyda galluoedd yn y Gymraeg.

### Dysgu allweddol

Yn y pen draw, bu hon yn ymgyrch recriwtio lwyddiannus iawn a dysgwyd nifer o wersi allweddol a allai ddylanwadu ar ymgyrchoedd yn y dyfodol, yn ogystal â rhywfaint o ddysgu sefydliadol. Mae'r gwersi allweddol wedi'u nodi isod:

- Roedd ehangu ein rhwydweithiau EDI ar draws y sefydliad yn help mawr i ni wthio'r hysbyseb ar gyfer y swyddi hyn allan i gronfa eang ac amrywiol o ddarpar ymgeiswyr.
- Cafodd bod yn glir ynghylch pwysigrwydd EDI (yn enwedig gwarantu cyfweliadau ar gyfer ymgeiswyr amrywiol) yn yr hysbyseb swydd effaith gadarnhaol iawn. Roedd y sesiynau galw heibio yn ffordd wych i ddarpar ymgeiswyr weld ein diwylliant a'n gwerthoedd ar waith a chael ymdeimlad o sut brofiad yw gweithio i Chwaraeon Cymru.

## Dull o amrywio'r gweithlu ymhellach yng Nghymru: Gweithredu Cadarnhaol mewn Arweinyddiaeth (PAL)

Mae'r rhaglen wedi cael ei dylunio mewn **cydweithrediad** ag AKD Solutions, yr ymgynghoriaeth hyfforddi a datblygu sy'n eiddo i bobl Dduon y buom yn gweithio â hwy ar yr ymgyrch #AdroddEichStori i amlygu lle mae hiliaeth ac anghydraddoldeb hiliol yn parhau mewn chwaraeon.

Ochr yn ochr â rhanddeiliaid allweddol a darpar gyfranogwyr, mae PAL yn cael ei gynllunio i ddatblygu gallu a hyder gweithlu lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

Y bwriad yw creu profiad dysgu a fydd nid yn unig yn grymuso ac yn uwchsgilio cyfranogwyr y rhaglen, ond hefyd yn treialu model a fydd yn cael ei ailadrodd i grwpiau pellach sy'n dymuno dilyn gyrfa yn Sector Chwaraeon Cymru i sicrhau **ymwneud** pob rhan o gymdeithas ar gyfer y **tymor hir**.

Bydd y rhaglen yn ymdrin â'r themâu canlynol, drwy gyfres o weithdai, dysgu preswyl, siaradwyr gwadd a rhwydweithio:

- Arwain / herio'r hunan
- Arwain eraill
- Arwain a galluogi newid cadarnhaol.

## Datblygu gweithlu hyfforddi mwy cynhwysol a chynrychioliadol yng Nghymru: Y Rhaglen Datblygu Hyfforddwyr Cymunedol

Mae ein Tîm Hyfforddi wedi ymrwymo i gefnogi twf gweithlu datblygwyr hyfforddwyr mwy cynhwysol a chynrychioliadol yng Nghymru. Mae ganddo'r gallu a'r capasiti i gael effaith gadarnhaol yn lleol ar ansawdd datblygiad hyfforddwyr, hyfforddiant, a phrofiadau pobl ifanc mewn lleoliadau chwaraeon cymunedol.

Yn 2022, gyda help gan UK Coaching, fe wnaethom ddatblygu adroddiad cwmpasu i ddeall y realiti presennol a'r dyheadau ar gyfer y dyfodol i gefnogi hyfforddwyr ar bob lefel ledled Cymru. Gwnaethom ganfod, ar ôl iddynt gael eu hyfforddi, cymhwyso neu achredu, bod diffyg cefnogaeth barhaus i lawer o hyfforddwyr ar lefel gymunedol neu lawr gwlad yn y ffordd roeddent yn dymuno, a phan oedd arnynt angen hynny.

Yn fwy na hynny, pur anaml oedd ganddynt fynediad at bobl roeddent yn eu gwerthfawrogi a oedd yn deall eu cyd-destun, eu hamgylchedd neu eu cymuned.

Mae gwaith ar droed bellach gyda Gray Matters Performance (arbenigwyr ac ymchwilwyr materion ym maes hyfforddi a hyfforddiant datblygwyr hyfforddwyr), Tîm Hyfforddi Chwaraeon Cymru, Athletau Cymru, Gymnasteg Cymru ac ymddiriedolaeth CBDC, i gyd-greu, treialu a chyflwyno nifer o fentrau datblygu hyfforddwyr ar draws y tair camp dros y flwyddyn nesaf. Nod y gwaith yw deall rôl ac anghenion datblygwyr hyfforddwyr mewn lleoliadau chwaraeon cymunedol, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi hyfforddwyr o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig ac mewn ardaloedd difreintiedig. Bydd y datblygwyr hyfforddwyr hyn yn cael eu recriwtio a'u datblygu o fewn y cymunedau hyn a'u hyfforddi i gefnogi hyfforddwyr yn well o fewn y cyd-destunau a'r amgylcheddau maent yn hyfforddi ynddynt.




## Hyrwyddo cydweithredu yng Nghymru: Rhwydwaith Hyfforddi Cymru

Mae Rhwydwaith Hyfforddi Cymru yn fforwm sy'n gwahodd arweinwyr hyfforddi i rannu arfer da a chydweithredu â phartneriaid eraill. Mae hefyd yn rhoi cyfle i ni wrando ar y sefydliadau rydym yn gweithio â hwy.

Prif ffocws y Rhwydwaith yn 2022 oedd EDI a'r rhwystrau y mae pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eu hwynebu wrth hyfforddi. Cafwyd nifer o gyflwyniadau a oedd yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chymunedau penodol yng Nghymru. Roedd y cyflwyniadau hyn yn amlygu'r cynnydd sy'n cael ei wneud gyda thargedu tangynrychiolaeth, ond hefyd yn dangos bod mwy y gallwn ni ei wneud yn y maes hwn.

Un o ganlyniadau hyn oedd pan ymunodd Rhwydwaith Hyfforddi Cymru â'r Rhwydwaith Cyfranogiad er mwyn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer cydweithredu rhwng Awdurdodau Lleol a Chyrff Rheoli Cenedlaethol.

Bydd cam nesaf Rhwydwaith Hyfforddi Cymru yn edrych ar sut gallwn roi her ystyrlon i bartneriaid er mwyn eu cefnogi gyda'r gwaith maent yn ei wneud, yn enwedig o ran EDI a Systemau Chwaraeon Cynhwysol. Bydd ffocws mawr ar gael mwy o sefydliadau sy'n gweithredu ar ran cymunedau a dangynrychiolir yng Nghymru a all, yn ei dro, helpu cyrff rheoli cenedlaethol (CRhC) i greu rhwydwaith o ffrindiau beirniadol i gefnogi cynhwysiant i bawb.

Sylw i:
# Chwaraeon Ramadan

Mae ein Prosiect Chwaraeon Ramadan yn fenter sydd â'r nod o hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn ystod Ramadan a meithrin dealltwriaeth a gwerthfawrogiad dyfnach o'r ddefod hon o fewn y gymuned Fwslimaidd. Cyllidwyd y prosiect hwn gan gyllid Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cymru Llywodraeth Cymru ac mae'n adeiladu ar ddisgwyliadau llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu amrywiaeth, cynhwysiant a chydraddoldeb ar draws y sector.

Mewn **cydweithrediad** â Foundation 4 Sports Coaching, fe wnaethom ymgysylltu a chynnwys y Gymuned Fwslimaidd yng Nghaerdydd i gael dirnadaeth ac i sicrhau bod y prosiect yn ddiwylliannol briodol ac yn parchu arferion y gymuned Fwslimaidd. Fe wnaethom gyfarfod yn rheolaidd â Foundation 4 Sports Coaching ac fe wnaeth dau ddigwyddiad hyfforddi ar gyfer cyflogeion Chwaraeon Cymru ein helpu i fireinio ein dull o weithredu a rhoi gwell cefnogaeth i gyfranogwyr yn ystod Ramadan.

Drwy gydol y prosiect, fe wnaeth heriau heb eu rhagweld ein hysgogi i ofyn cwestiynau ystyrlon i herio ein hunain a darganfod ffyrdd newydd o weithio. Rydym yn bwriadu rhannu'r hyn a ddysgwyd gyda'r sector yn ystod yr wythnosau nesaf.



Wrth symud ymlaen, ein nod ni yw creu gwaddol parhaus i Ramadan yn y **tymor hir** yn Chwaraeon Cymru drwy sicrhau gofod diogel a chynhwysol i'n cymuned Fwslimaidd drwy gydol y flwyddyn. Gobeithio y bydd effaith y prosiect yn ein helpu ni i nodi meysydd i'w gwella ymhellach ac archwilio cyfleoedd i ehangu prosiectau tebyg i gymunedau a defodau eraill. Rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i flaenoriaethu **cydweithredu**, cynhwysiant a chynnwys. Rydym wedi cael gwybodaeth werthfawr o'r prosiect hwn ac rydym wedi ymrwymo i'w defnyddio fel sail i'n gwaith yn y dyfodol. Rydym yn falch o'n cynnydd ac yn edrych ymlaen at barhau i hyrwyddo gweithgarwch corfforol a lles i bawb.





# Sylw i:
# Gweithgor Rhyngwladol (IWG) ar ferched a chwaraeon

Rydym wedi ffurfio partneriaeth gyda'r IWG i gynnal ysgrifenyddiaeth y DU rhwng 2022 a 2026. Fel rhan o'r bartneriaeth strategol hon, byddwn yn gweithio gyda'r IWG ar y canlynol:

1. Cryfhau dull cydraddoldeb rhywiol o gynllunio a gweithredu polisïau.
2. Hwyluso dull datblygu arweinyddiaeth o weithredu sy'n cynyddu nifer ac amlygrwydd merched ym mhob rôl arweinyddiaeth yng Nghymru.
3. Rhannu gwybodaeth a dysgu drwy **ymwneud** â'r hwb gwybodaeth a chefnogaeth dros y cyfnod o 4 blynedd i gwblhau neu **gydweithredu** mewn darn gwybodaeth am gydraddoldeb rhywiol sy'n benodol i Gymru.
4. Uwchsgilio staff Chwaraeon Cymru ar bynciau'n ymwneud â chydraddoldeb rhywiol mewn chwaraeon.

Mae cyfrifoldebau'r cyfnod cynnal o bedair blynedd yn cynnwys hyrwyddo a monitro Datganiad Brighton a Helsinki ar gydraddoldeb rhywiol ac ychwanegu gwerth at tua 600 o lofnodwyr byd-eang; datblygu a gweithredu rhaglenni IWG Global; ac eiriolaeth a rheoli perthnasoedd gyda sefydliadau anllywodraethol byd-eang fel Merched y Cenhedloedd Unedig, UNESCO, WHO, yn ogystal â nifer o raglenni allweddol eraill.

Fel y flwyddyn gyntaf yn ysgrifenyddiaeth y DU, mae ein tîm materion cyhoeddus wedi dechrau meithrin cysylltiadau â sefydliad cynnal yr IWG a'r Ysgrifennydd Cyffredinol a byddwn yn parhau i gysylltu â chynghorau chwaraeon y gwledydd cartref eraill drwy gydol pedair blynedd nesaf y cyfnod cynnal i gefnogi gwaith cydraddoldeb rhywiol parhaus.

# SYSTEM CHWARAEON GYNHWYSOL

## Cyflwyno dull traws-sefydliadol o weithredu i ddatblygu system chwaraeon fwy cynhwysol yng Nghymru.

### Trosolwg

Fel sector chwaraeon, fe wnaethom ymrwymo i greu cenedl actif lle gall pawb gael mwynhad o chwaraeon am oes. Bydd system chwaraeon gynhwysol yn darparu cyfleoedd sy'n cael eu harwain gan angen ac sy'n ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol.

Ein nod oedd sicrhau bod llais y cyfranogwyr yn cael ei ddefnyddio'n well wrth greu amgylcheddau chwaraeon; cefnogi partneriaid i arloesi mewn ffordd wahanol i'r ddarpariaeth draddodiadol, a thuag at ddarpariaeth a darparwyr amgen.



Roedd ein gwaith yn canolbwyntio ar dri maes eang:

1. Helpu i ddeall anghenion darpar gyfranogwyr, gan gynnwys defnyddio data'r arolwg chwaraeon ysgol i ddeall yn well yr heriau a'r cyfleoedd ar gyfer grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd.
2. Cefnogi darparwyr i newid a **gwella** arferion. Mae hyn yn cynnwys **cydweithredu** parhaus gyda'n partneriaid ynghylch yr hyn sydd ei angen i alluogi system chwaraeon gynhwysol a beth yw ein swyddogaethau ynddi yn gyfunol.
3. Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd a fydd yn helpu i lunio gwell darpariaeth, gan gynnwys rhannu astudiaethau achos ac arfer sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â **chydweithredu** â phartneriaid cenedlaethol a rhyngwladol i gynnal yr uwchgynhadledd chwaraeon ym mis Rhagfyr 2022.

Mae graddfa'r newid sydd ei angen yn sylweddol ac mae'n debyg mai'r amserlen ar gyfer y lefel yma o newid yw cenhedlaeth. Byddwn yn parhau â'n gwaith yn y meysydd uchod gyda'r pwys mwyaf yn cael ei roi ar fod yn feddwl agored ac yn barod i feddwl yn wahanol. Byddwn yn hybu arbrofi, ac yn ddigon dewr i roi'r gorau i wneud, neu o leiaf rhoi'r gorau i flaenoriaethu, rhai o'r pethau rydym wedi'u gwneud yn draddodiadol sy'n agos at galon rhai pobl efallai.

## Sylw i:
# Birmingham 2022

Nid yw pobl yn cael eu geni yn athletwyr y Gymanwlad; maent yn cael eu creu gan y cymunedau, y bobl a'r clybiau maent yn cyfarfod â hwy ar hyd y ffordd.

Mae pob athletwr wedi bod ar ei siwrnai ei hun i gyrraedd Birmingham 2022 – er enghraifft, efallai eu bod wedi dechrau yn eu camp yn hwyr, yn dod o ardal wledig, neu wedi jyglo swyddi a theulu gyda hyfforddiant.

Yn y cyfnod cyn Gemau'r Gymanwlad, buom yn cydweithredu â Thîm Cymru, Cyrff Rheoli Cenedlaethol, athletwyr, hyfforddwyr a staff cefnogi i lansio ymgyrch yn tynnu sylw at straeon athletwyr dethol. Nod y naratif oedd chwalu llawer o fythau sy'n gysylltiedig â pherfformio ar lwyfan byd-eang, ac yn lle hynny, adrodd straeon real am fywyd a oedd yn ategu ein hegwyddorion a oedd yn sail i weithgarwch datblygu athletwyr sy'n canolbwyntio ar system chwaraeon fwy cynhwysol.

Mae arddangos straeon real, straeon nad ydynt yn cael eu hadrodd yn nodweddiadol, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni a byddant yn gweithredu fel cyfrwng cefnogi defnyddiol wrth i ni gael gwared ar lawer o'r anghydraddoldebau parhaus yn y gofod datblygu athletwyr.



Harrison Walsh



Ioan Croft



Lily Rice



Olivia Breen

## Amgylcheddau datblygu athletwyr

Gan ddefnyddio'r 'Fframwaith Ffynnu' i ddeall amgylcheddau, rydym wedi cefnogi tair camp i sicrhau gwybodaeth am brofiadau cyfredol eu hathletwyr. Mae wyth camp arall rydym yn awyddus i **ymwneud** â nhw. At hynny, rydym yn sefydlu ffyrdd ychwanegol o weithio a fydd yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o ganfyddiadau athletwyr o'u profiadau gan ddefnyddio adnoddau fel y system rheoli athletwyr, y panel athletwyr, ac adolygu prosiectau'r Athrofa.

O safbwynt system chwaraeon ehangach, gyda nifer o gydweithwyr ar draws Chwaraeon Cymru, rydym wedi cynnig prosiect sy'n cysylltu amgylcheddau ffyniannus ag iechyd meddwl a lles.

Rydym yn bwriadu cynnig y prosiect hwn i CRhC a phartneriaid eraill yn ystod y tair blynedd nesaf.

Bydd y prosiect hwn yn galluogi chwaraeon i ddeall yn well pa weithgareddau sy'n creu amgylcheddau ffyniannus a sut gellir cefnogi iechyd meddwl a lles oddi mewn iddynt. Yn ogystal, mae'n archwilio pa weithgareddau all wella profiad yr athletwr neu'r cyfranogwr.

Ochr yn ochr â chydweithwyr sy'n gweithio ym mhob rhan o'r System Chwaraeon Gynhwysol (ISS), rydym wedi bod yn gweithio ar y ffordd orau i ni gefnogi datblygiad hyfforddwyr mewn perthynas ag amgylcheddau ffyniannus a datblygiad athletwyr. Ar hyn o bryd rydym yn cwblhau dadansoddiad bylchau, gan fapio cyfleoedd datblygu ar gyfer hyfforddwyr sy'n gysylltiedig â chreu amgylchedd ffyniannus.

## Sylw i:
## Panel Athletwyr

Yn dilyn proses ymgysylltu ag athletwyr ar draws y system i ddeall yn well sut gall eu barn ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau, rydym wedi sefydlu panel athletwyr. Pwrpas y panel hwn yw defnyddio eu gwybodaeth am amgylcheddau'r presennol a'r gorffennol i sicrhau dirnadaeth o'u profiad ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd yr wybodaeth hon yn ein helpu i gefnogi CRhC i sicrhau rhywfaint o 'fudd cyflym', ond hefyd i effeithio ar newidiadau mwy **tymor hir** i'r system.



## Prosiect Llwybrau x Dirnadaeth

**Beth ar hyn o bryd sy'n atal (neu'n cefnogi) pobl ifanc 11 i 16 oed rhag symud ymlaen o gyfranogiad yn yr ysgol neu ar lawr gwlad i lwybr a gydnabyddir gan Gorff Rheoli yng Nghymru?**

Rydym yn deall llawer eisoes am y rhwystrau sy'n atal cymryd rhan mewn chwaraeon yn gyffredinol, fodd bynnag, ychydig rydym yn ei wybod o gymharu am yr heriau presennol sy'n atal pobl ifanc yng Nghymru rhag symud o gyfranogiad yn yr ysgol a / neu ar lawr gwlad i lwybr chwaraeon cydnabyddedig. Rydym hefyd yn llai abl i fynegi'r gefnogaeth allweddol sydd ei hangen ar bobl ifanc, ar draws gwahanol chwaraeon ac amgylchiadau, a phwyntiau gwahanol ar eu siwrnai chwaraeon. Oherwydd hyn, nid oes llawer o le ar hyn o bryd i ddatblygu ymyriadau gwybodus.

Felly, mae'r prosiect ansoddol hwn, sy'n adeiladu ar waith Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022, wedi'i gynllunio i wneud defnydd o ddulliau creadigol i ymgysylltu â phobl ifanc yng Nghymru mewn sgwrs am yr hyn sy'n eu helpu neu'n eu rhwystro rhag symud i lwybr chwaraeon cydnabyddedig.

Roedd y prosiect yn cynnwys mwy na 150 o bobl ifanc, o 10 ysgol o leiaf, ar draws pum camp, ac yn ôl daearyddiaeth a lefelau amddifadedd amrywiol.

Mae'r dulliau creadigol, a'r sgyrsiau a'r wybodaeth maent wedi'u ffrwyno hyd yn hyn, wedi bod yn ddadlennol. Yn aml, mae ein rhagdybiaethau a'n dehongliadau ni ein hunain wedi cael eu herio a'u chwalu gan bobl ifanc. At hynny, mae amrywiadau mewn chwaraeon ac amgylchiadau yn aml yn tynnu sylw at wahanol anghenion a gofynion. Y camau nesaf fydd dadansoddiad trylwyr o'r sgyrsiau hynny, a rhannu'r wybodaeth honno â chyrff rheoli cenedlaethol, gyda'r nod o wella mynediad at gyfranogiad a dal ati i gymryd rhan mewn llwybrau chwaraeon cydnabyddedig ledled Cymru.



## Sylw i:
# Y Gymdeithas Nofio i Bobl Dduon




Lansiwyd y Gymdeithas Nofio i Bobl Dduon (BSA) yn ystod cyfnodau clo cyntaf Covid-19, ac eto eleni mae ei gwaith pwysig wedi'i gydnabod gan Brosiect y Flwyddyn y DU Achosion Da y Loteri Genedlaethol.

Trechodd y BSA fwy na 1,300 o sefydliadau eraill i gyrraedd cam pleidleisio cyhoeddus y gwobrau, sy'n helpu i ddathlu'r bobl a'r prosiectau sy'n defnyddio arian y Loteri i wneud pethau rhyfeddol. Trechodd 16 o sefydliadau eraill yn y rownd derfynol i dderbyn gwobr ariannol o £5,000 a thlws y Loteri.

Y BSA yw'r sefydliad cyntaf sy'n gweithio gyda phobl Affricanaidd, Caribïaidd ac Asiaidd, yn ogystal â chymunedau ethnig amrywiol eraill, i hyrwyddo diogelwch dŵr, **atal** boddi a manteision bod yn gorfforol actif yn y dŵr. Mae'n gweithio gyda Chwaraeon Cymru, Nofio Cymru a phartneriaid eraill i ymgysylltu â'r gymuned a sicrhau bod rhaglenni sy'n cael eu harwain gan y gymuned yn gynaliadwy.

Mae ffigurau cyffredinol ar gyfer plant ysgol wedi dangos nad yw 50 y cant yn nofio, ond mae hyn yn codi i 80 y cant ar gyfer plant ysgol o dras Du ac Asiaidd. Ymhlith oedolion, gall hyn fod mor uchel â 95 y cant. Un o nodau'r sefydliad yw **atal** achosion o foddi, gan leihau'r gyfradd 20 y cant erbyn 2024.

## Mae Athrofa Chwaraeon Cymru yn cynnig cymhwyster newydd a gydnabyddir yn genedlaethol mewn Cryfder a Chyflyru

Rydym wedi **cydweithredu** eleni gyda'r UK Strength and Conditioning Association (UKSCA) i gyflwyno ei dyfarniad Hyfforddwr Cryfder a Chyflyru Lefel 3 a gydnabyddir yn genedlaethol ac a gymeradwyir gan CIMPSA. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at hyfforddwyr chwaraeon, athrawon Addysg Gorfforol a gweithwyr ffitrwydd proffesiynol eraill, gan feithrin eu sgiliau i alluogi darpariaeth cryfder a chyflyru o ansawdd uchel i gyrraedd cynulleidfa ehangach. Mae cyflwyno'r cymhwyster hwn yn fewnol wedi ein galluogi i roi cymhorthdal sylweddol at gostau'r cymhwyster i unigolion a CRhC, yn ogystal ag ymgorffori elfennau o athroniaeth datblygu athletwyr cynhwysol Chwaraeon Cymru.

Yn ystod cyfnod peilot cyntaf y cwrs, mae hyfforddwyr CRhC o Athletau Cymru, Bocsio Cymru a Jiwdo Cymru wedi mynd drwy amrywiaeth o fodiwlau dysgu ac asesiadau ymarferol, ac ar ôl iddynt gwblhau'r cymhwyster byddant yn bodloni'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i gyflwyno sesiynau cryfder a chyflyru yn annibynnol. Ar ôl i'r cwrs ddod i ben, byddant yn parhau i gael eu cefnogi yn eu datblygiad proffesiynol drwy gyfleoedd mentora gyda staff yr Athrofa.

Bydd rhediad nesaf y cymhwyster, sy'n cymryd pedwar i chwe mis i'w gwblhau, yn dechrau ym mis Medi, ac yn agor i gynulleidfa ehangach. Drwy barhau i ehangu cymwyseddau proffesiynol mewn cryfder a chyflyru ar draws y sector chwaraeon yng Nghymru yn y **tymor hir**, rydym yn gobeithio gwella sgiliau symud athletaidd, lleihau nifer yr achosion o anafiadau a thrwy hynny cael gwared ar rai o'r rhwystrau sy'n aml yn ***atal*** datblygiad athletwr neu'n ei arwain at roi'r gorau i chwaraeon.



## Sylfaen gadarn i gynyddu cyfranogiad

Nod ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc yw rhoi'r sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i bawb i'w galluogi i fod yn actif am oes gyda ffocws ar y rhai sy'n llai actif.

### Rhwydweithiau Rhanbarthol

Mae gan bob partneriaeth chwaraeon ranbarthol Rwydwaith Sylfeini a Chyfranogiad sefydledig bellach sy'n cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r rhwydweithiau newydd hyn yn canolbwyntio ar ymchwil a gwybodaeth leol sy'n tynnu sylw at anghenion plant a phobl ifanc, anghenion datblygu rhanbarthol a datblygu system chwaraeon gynhwysol.

## Ymchwil rhanbarthol

Ers 2022, rydym wedi ymgysylltu â chynrychiolwyr Datblygu Chwaraeon awdurdodau lleol ac wedi contractio ymchwilwyr i ddyfeisio rhai cwestiynau ymholi i'n helpu i ddeall ymhellach sut gallem roi dechrau gwych ym myd chwaraeon i bob person ifanc, yn ogystal â'r rhwystrau mae pobl ifanc yn eu hwynebu o ran bod yn actif.

Roedd y cwestiynau ymchwil yn cynnwys:

1. Beth yw'r hwyluswyr a'r rhwystrau i rieni / gofalwyr gynnwys plant cyn oedran ysgol mewn cyfleoedd yn y gymuned?
2. Pa rwystrau mae pobl ifanc yn eu hwynebu wrth drosglwyddo o amgylcheddau ysgol i'r gymuned?
3. Ydi 'cynnig' am ddim yn dibrisio neu'n ehangu cyfranogiad gweithgarwch corfforol ymhlith plant ac oedolion ifanc 0 i 25 oed?
4. Oes angen newid y cynnig chwaraeon?

Mae'r wybodaeth a gasglwyd o'r ymchwil rhanbarthol wedi'i rhannu bellach â chynrychiolwyr Datblygu Chwaraeon, cydlynwyr Pobl Ifanc Egnïol (AYP) a rhwydweithiau sylfeini a chyfranogiad i gefnogi datblygiad cynigion sy'n cael eu harwain gan wybodaeth yn y dyfodol.

## Cwrs Addysg i Hyfforddwyr Cymunedol - 'Meithrin Sylfeini ar gyfer Chwaraeon'

Rydym wedi bod yn gweithio gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS) i ddatblygu cwrs hyfforddi ardystiedig ar gyfer hyfforddwyr a gwirfoddolwyr cymunedol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu dealltwriaeth fanwl o sut beth yw symudiad corfforol o ansawdd uchel yn ystod plentyndod cynnar, gan greu amgylchedd cynhwysol, seiliedig ar chwarae. Mae'r cwrs 'Meithrin Sylfeini ar gyfer Chwaraeon' yn hanfodol ar gyfer gosod sylfeini darpariaeth gweithgarwch corfforol sy'n cael ei harwain gan anghenion, gan sicrhau ein bod yn rhoi cychwyn gwych i bob person ifanc, ac ymdrechu i ddatblygu system chwaraeon gynhwysol.



# Sylw i:
# Y Gemau Trefol

Fel un o'n partneriaid cenedlaethol, mae'r Urdd bob amser yn ceisio cynnig cyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol sy'n denu cynulleidfaoedd newydd a chyfredol. Cynhaliwyd y Gemau Trefol cyntaf ym mis Mehefin 2022 dros ddeuddydd ym Mae Caerdydd ac roedd yn gyfle i arddangos Chwaraeon Trefol sydd wedi'u hychwanegu'n ddiweddar at y Gemau Olympaidd a Gemau'r Gymanwlad.

Daeth athletwyr elitaidd a llai profiadol ledled Cymru i ddangos eu talent mewn chwaraeon fel pêl fasged 3x3, torri, sglefrfyrddio a BMX dull rhydd a sgwteri. Bu'r Urdd yn gweithio mewn partneriaeth â CRhC a sefydliadau lleol gan ddarparu cyfleoedd i unrhyw un o unrhyw allu brofi'r chwaraeon a'r diwylliant Trefol. Roedd paratoadau cyn y digwyddiad gydag ymweliadau ag ysgolion a sesiynau cymunedol yn cael eu cynnig.

Roedd yr ystodau oedran amrywiol, y galluoedd a'r angerdd dros y digwyddiadau a gynhaliwyd yn amlwg i unrhyw un a oedd yn bresennol. Roedd oedolion a phlant yn mwynhau cymryd rhan mewn chwaraeon llai traddodiadol o fewn yr un gofod. Roedd yn gyfle gwych i'r chwaraeon hyn ddangos beth fydd i'w weld yng Ngemau'r Gymanwlad a'r Gemau Olympaidd yn y dyfodol. Yn 2023, bydd y Gemau Trefol yn cael eu cynnal ym Mae Caerdydd eto gyda chyfleoedd chwaraeon presennol a newydd yn cael eu cynnig.





# PARTNERIAETHAU CHWARAEON

## Rydym yn gwneud cynnydd o ran sefydlu pum Partneriaeth Chwaraeon ar gyfer y tymor hir, gan gynnwys Gwent, Canolbarth Cymru, Canol De Cymru a Gorllewin Cymru. Rydym yn parhau i gefnogi Actif North Wales fel y rhanbarth cyntaf i fynd yn 'fyw'.

Ym mis Mawrth 2022, lansiwyd y bartneriaeth chwaraeon gyntaf yng Ngogledd Cymru, gan gyflymu'r ymrwymiad yn llythyr Cylch Gwaith Tymor y Llywodraeth i ddatblygu'r rhwydwaith rhanbarthol hwn. Mae pedwar rhanbarth arall yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, a disgwylir mai gorllewin Cymru fydd y rhanbarth nesaf i gael ei lansio. Yn cyd-fynd â pholisïau Llywodraeth Cymru, fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a deddfwriaeth arall sy'n gofyn i gyrff lleol ffurfio partneriaethau darparu, ac wedi'u hysgogi gan y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru, y Partneriaethau Chwaraeon fydd yr endidau a ddefnyddir i gydlynu pob buddsoddiad lleol gan Chwaraeon Cymru erbyn mis Ebrill 2024.

### Newid y gêm

Mae Partneriaethau Chwaraeon yn anelu at drawsnewid darpariaeth, arweinyddiaeth a chyllid chwaraeon cymunedol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Byddant yn **integreiddio** ac yn datblygu'r gwaith sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau parhaus ac ystyfnig o ran cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan gefnogi Cymru i ddod yn genedl actif lle gall pawb gael mwynhad gydol oes o chwaraeon.

Wedi'u grymuso i sicrhau newid yn y system, bydd y Partneriaethau Chwaraeon yn gatalydd i fynd i'r afael â dau fater hirsefydlog:

1. Sicrhau bod y gefnogaeth a'r cyfleoedd cywir yn eu lle ar gyfer y rhai nad ydynt yn actif yn gorfforol yn rheolaidd - gyda ffocws clir ar ddileu rhwystrau i'r rhai sydd angen cymorth fwyaf.
2. Cymryd camau i ateb y galw cudd uchel gan y rhai sy'n actif ond sydd eisiau gwneud llawer mwy.

## Fframwaith llywodraethu a chyfreithiol cadarn

Mae Partneriaeth Chwaraeon yn dod â **chydweithrediad** rhanddeiliaid allweddol at ei gilydd mewn rhanbarth penodol, sy'n deall pwysigrwydd, ac yn canolbwyntio ar gyflawni buddion chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Efallai y bydd gan bob partneriaeth fframweithiau llywodraethu gwahanol, ond byddant i gyd yn endidau cadarn sy'n cael eu harwain gan ddirnadaeth ac sy'n darparu arweinyddiaeth a chynllunio strategol. Gan weithio ar lefel ranbarthol, bydd ganddynt ddiben cyffredin: y gall pawb gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Bydd pob un o'r Partneriaethau Chwaraeon yn derbyn cyllid Chwaraeon Cymru ar gyfer y rhanbarth a, thrwy ei rôl gomisiynu, yn hwyluso ystod o gyfleoedd sy'n diwallu anghenion eu cymuned orau.

## Sylw i:
# Actif North Wales

Mae'r Bartneriaeth Chwaraeon 'fyw' gyntaf yng Ngogledd Cymru wedi penodi tîm canolog i reoli ei llywodraethu ac arwain darpariaeth strategol ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn cynnwys Cyfarwyddwr Rhanbarthol, Rheolwr y Bartneriaeth a Swyddog Cefnogi Busnes. Maent yn cael eu cefnogi yn eu tro gan Fwrdd Partneriaeth seiliedig ar sgiliau gyda chynrychiolaeth o blith rhanddeiliaid allweddol yng Ngogledd Cymru, a Chadeirydd Annibynnol.

Wedi'i hailfrandio yn ddiweddar, mae "Actif North Wales" wedi datblygu strategaeth newydd drwy ymgysylltu ar draws y rhanbarth, gyda ffocws uwch ar gyfer timau datblygu chwaraeon partner i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar draws Gogledd Cymru, a meithrin perthnasoedd newydd gyda phartneriaid a gomisiynir. Mae hyn yn cynnwys strategaeth farchnata a chyfathrebu i gryfhau'r ymgysylltu â rhanddeiliaid ac archwilio cyfleoedd masnachol newydd.

Edrychwn ymlaen at sefydlu pob un o'r pum rhanbarth, gan adlewyrchu rhwydwaith amrywiol a ffyniannus o bartneriaethau dros y flwyddyn sydd i ddod.



## Sefydliad Gweithgaredd Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS)

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i ddatblygu ei berthynas â sector academaidd y genedl drwy'r Sefydliad Gweithgaredd Corfforol, Iechyd a Chwaraeon Cymru (WIPAHS). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae WIPAHS, sy'n **gydweithrediad** rhwng Chwaraeon Cymru a phob prifysgol yng Nghymru, ac sydd bellach yn ei drydydd blwyddyn o weithgarwch, wedi parhau i sefydlu ei hun fel elfen hollbwysig o ymchwil chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae'r sefydliad wedi cyfrannu at ymchwiliadau'r Senedd ac wedi cyflwyno tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, yn ogystal â'r Grŵp Gweithgarwch Corfforol Cenedlaethol.

Mae hefyd wedi cefnogi Cynhadledd y Gymdeithas Ryngwladol dros Weithgarwch Corfforol ac Iechyd (ISPAH), yr Emiradau Arabaidd Unedig a Chynhadledd Ewrop ar gyfer Gweithgarwch Corfforol sy'n Gwella Iechyd (HEPA), Ffrainc. At hynny, gan ymgysylltu a chefnogi 15 o randdeiliaid newydd a sicrhau mwy na £280,000 mewn incwm, mae'r sefydliad wedi gallu cynhyrchu ystod o ymchwil a gwerthusiadau newydd sydd wedi llywio ymyriadau polisi. Gellir gweld adroddiad blynyddol WIPAHS yma.

Mae Sefydliad Gwyddorau Perfformio Cymru (WIPS) yn **gydweithrediad** rhwng prifysgolion ledled Cymru sy'n cynnal prosiectau gwyddorau perfformiad cymhwysol, amlddisgyblaethol o'r radd flaenaf sy'n gwella perfformiad athletwyr a busnesau yng Nghymru, yn gwella'r llwybr perfformiad ac yn meithrin gallu yn y meysydd hyn ar gyfer y **tymor hir**.





Gyda dychweliad cynyddol cystadlaethau a hyfforddiant drwy gydol 2022, mae WIPS wedi parhau i **integreiddio** ag ymarferyddion a chwaraeon ledled Cymru a thu hwnt ac wedi denu diddordeb cynyddol gan ymarferyddion a sefydliadau newydd, gan gynnwys partneriaeth fuddsoddi gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru. Yn ogystal, mae WIPS wedi addasu i'r ymgyrch strategol ar gyfer cyfleoedd datblygu athletwyr cynhwysol gan Athrofa Chwaraeon Cymru. Drwy gydol y flwyddyn, mae WIPS wedi arwain ac wedi bod yn **ymwneud** â mwy na 10 o brosiectau cysylltiedig, yn amrywio o ddatblygu chwaraewyr pêl droed benywaidd i **integreiddio** â gêm y dynion, asesu gofynion aelodau isaf y corff mewn sboncen ac archwilio addysg cylch y mislif mewn ysgolion yn gysylltiedig â chyfranogiad a datblygiad mewn gweithgarwch corfforol a pherfformiad chwaraeon.

Mae WIPS wedi gallu cynnig dirnadaeth strategol, safbwyntiau rhyngwladol ac arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ynghylch y pwyslais ar wella cyfleoedd datblygu athletwyr. Mae wedi mwynhau'r cyfle i rannu dirnadaeth a dysgu drwy wahanol ddulliau, gan gynnwys cyflwyniadau i chwaraeon ac ymarferyddion ar hybu iechyd meddwl mewn amgylcheddau ffyniannus, datblygu a lledaenu adnoddau wyneb yn wyneb a thrwy gylchlythyrau ar-lein, lansio e-fodiwl ar gyfer hyfforddwyr ar ddeall cylch y mislif mewn chwaraeon a gweithio gyda'r cyfryngau i hyrwyddo ymchwil a gwblhawyd i ddarpariaeth addysg mislif mewn ysgolion.

# IECHYD A LLES

Eleni, ein nod oedd chwarae rhan arweiniol yn y gwaith o gyflawni mentrau presennol a newydd o fewn Strategaeth Pwysau Iach, Cymru Iach.

Yn 2021-22 buom yn **cydweithredu** â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ar ddatblygu cynllun cyflawni Pwysau Iach, Cymru Iach 2022-24 a dod yn bartner arweiniol ar bedair o'r saith blaenoriaeth genedlaethol. Mae'r gwaith ar Flaenoriaeth Genedlaethol (NP) 2: amgylcheddau a mannau actif, NP3: hyrwyddo a chefnogi teuluoedd i ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd ac NP5: dileu rhwystrau i leihau anghydraddoldebau deiet ac iechyd ar draws y boblogaeth i'w gweld yn y prosiectau isod.

Mae'r gwaith ar NP4: galluogi ein lleoliadau addysg i fod yn fannau lle mae iechyd corfforol a meddyliol yn flaenoriaeth, i'w weld drwy amcan ein cynllun busnes addysg yn yr adran nesaf.

## Cynllun Hamdden Actif, 60+

Cafodd y Cynllun Hamdden Actif (ALS), 60+ ei ddatblygu ymhellach eleni yn dilyn gwerthusiad annibynnol a wnaeth argymhellion ar gyfer cyfnod Cynllun Gweithredu Pwysau Iach, Cymru Iach 2022-24. Nod y cynllun yw darparu cynnig hamdden cenedlaethol i bobl dros 60 oed i annog gweithgarwch corfforol a dewisiadau ffordd o fyw iach; dull wedi'i dargedu i leihau anghydraddoldebau iechyd ac ynysu cymdeithasol.

Yn 2022, amlygodd cyflwyno llwyfan adrodd newydd newid yn y ffordd y casglwyd data ar draws yr holl awdurdodau lleol gyda manteision casglu gwybodaeth benodol, y gobeithir y bydd yn helpu awdurdodau i ddeall pa ymgysylltu a gweithgareddau sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Bu cynnydd sylweddol hefyd mewn ymgysylltu ar draws ardaloedd awdurdodau lleol wrth gydlynu mentrau eraill fel y Cynllun Cyfeirio Cleifion at Ymarfer (NERS), y Fenter Nofio Am Ddim (FSI), Presgripsiynu Cymdeithasol a rhwydweithiau Heneiddio'n Dda yn ogystal â darpariaeth 60+ leol arall i ddarparu dewislen **integredig** o gyfleoedd ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Mae'r Grŵp Cynghori 60+ wedi'i ailsefydlu eleni i roi cyfeiriad strategol a her wrth i'r cynllun fynd rhagddo; a thrwy weithio gyda chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru, y Cydlynydd NERS Cenedlaethol a Phobl Hŷn Cymru, yn ogystal â phob awdurdod lleol, byddwn yn dod at ein gilydd i gynnal digwyddiad cenedlaethol i adlewyrchu ac i ddathlu llwyddiannau ac i geisio deall pwy arall a allai elwa o'r cynllun.



## Sylw i:

# Rhaglen chwaraeon ac iechyd awyr agored Awdurdod Lleol Abertawe

Defnyddiodd Chwaraeon ac Iechyd Abertawe ei raglen chwaraeon a gweithgarwch corfforol awyr agored sefydledig i gynnwys darpariaeth oedolion hŷn yn yr amserlen a oedd yn cefnogi'r ALS 60+ yn ogystal â'i flaenoriaethau heneiddio'n dda lleol.

Yn ystod ac ar ôl pandemig Covid-19, roedd defnydd amlwg o fannau awyr agored lleol ar gyfer gweithgareddau ymarfer a lles ar draws pob grŵp oedran, gydag unigolion a theuluoedd yn ailgysylltu â'u parciau, eu traethau a'u hawliau tramwy lleol. Cynigiodd y tîm bedwar sesiwn yr wythnos, gan ddenu 581 o gyfranogwyr mewn 102 o sesiynau ers mis Ebrill 2022. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys cerdded Nordig, Tai Chi, ffitrwydd effaith isel a Pilates.

'Fe wnes i fwynhau cerdded a sgwrsio gymaint fel fy mod i wedi anghofio ein bod ni'n ymarfer.'
(Cyfranogwr Cerdded Nordig)

'Yn feddyliol, mae ymarfer y tu allan yn gwneud i mi deimlo'n well amdanaf i fy hun ac mae'n ganolbwynt i fy wythnos.'

(Cyfranogwr Cerdded Nordig)

Cafwyd adborth cadarnhaol gan fynychwyr y rhaglenni awyr agored, gan ddangos yr effaith gadarnhaol y mae'n amlwg yn ei chael ar iechyd meddyliol a chorfforol unigolyn.

Mae cyfweliadau â chyfranogwyr y sesiynau Cerdded Nordig wedi datgelu amrywiaeth o fanteision. Dywedodd un cyfranogwr sydd â Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD) mai dim ond unwaith y gallai gerdded o amgylch y parc pan ddechreuodd, a'i bod yn ei chael yn anodd iawn. Mae hi bellach yn cerdded deirgwaith o amgylch y parc yn y sesiwn. Mae cyfranogwr arall yn ofalwr llawn amser a thynnodd sylw at ba mor bwysig oedd iddi gael amser iddi hi ei hun i wneud ymarfer corff yn yr awyr iach a chadw'n heini. Ychwanegodd hefyd y fantais o gadw'n actif fel dull o atal codymau.

Nododd y mwyafrif a gyfwelwyd bod yr elfen gymdeithasol a'r saib am ddiod ar ddiwedd y sesiwn cerdded Nordig yr un mor bwysig â'r agwedd gorfforol.



## Sylw i:
# 'Y gêm grêt gydag enw gwirion'

Mae Kath Knowles wedi goroesi canser y fron a dechreuodd chwarae Pêl Picl pan symudodd i Ynys Môn yn 2018 ac mae wedi gweithio'n agos gyda staff yng Nghanolfannau Hamdden Ynys Môn i ddatblygu'r gamp i tua 200 o chwaraewyr ar draws yr ynys, diolch i gynllun Actif Môn 60+.

Roedd Kath yn gwneud ymarfer corff yn un o'r canolfannau hamdden fel rhan o'i hadferiad corfforol pan aeth yn sâl. Galwodd staff y ganolfan am ambiwlans a chafodd Kath ei throsglwyddo i'r ysbyty lle cafodd lawdriniaeth ar y galon yn dilyn trawiad ar y galon. Yn dilyn y digwyddiad hwn, ailddechreuodd Kath ymarfer ac mae wedi bod yn hyrwyddwr brwd o ALS 60+ yr ardal, gan hyrwyddo pob math o ymarfer corff i bawb a fyddai'n elwa.

Mae'n recriwtio ffrindiau ac aelodau o'r teulu i'w helpu i fod yn actif neu i'w cadw'n actif, gan ddyfynnu ei phrofiad ei hun yn aml pan fydd pobl yn dweud nad ydynt yn hoffi chwaraeon neu nad ydynt yn ddigon heini.

Mae Kath hefyd wedi mynd ymlaen i ennill medalau a hithau bron yn 72 oed yng Ngornest Genedlaethol Lloegr, Gornest Agored yr Iseldiroedd, Gornest Agored yr Almaen a Chaergrawnt.

Mae Kath yn awyddus i annog cymaint o bobl â phosibl i fod yn actif a "dysgu'r gamp hawdd yma i ddod â chwerthin, cariad a rhyngweithio cymdeithasol yn rhan o'u bywydau. Dyma'r gamp fwyaf amrywiol, llawn hwyl i mi ei chwarae erioed ac mae'n addas ar gyfer grwpiau oedran o 8 i 90 oed dim ots beth yw eu gallu neu anabledd."



## Prosiect Plant a Theuluoedd

Mae maes Blaenoriaeth Genedlaethol 3 yn y cynllun cyflawni Pwysau Iach, Cymru Iach yn canolbwyntio ar ddarparu'r dechrau gorau mewn bywyd. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'n bwriad strategol #2. Nod y prosiect Plant a Theuluoedd yw helpu i ddylunio mentrau ar gyfer teuluoedd â phlant 0 i 7 oed sy'n profi, neu mewn perygl o ordewdra. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid craidd i gyflwyno mentrau newydd ar gyfer dull ataliol, cyn gwerthuso'r effaith yn seiliedig ar adborth gan deuluoedd a chydlynwyr prosiect.

Yn cael ein harwain gan ddirnadaeth, fe wnaethom gomisiynu ymchwil cychwynnol mewn tair ardal beilot drwy siarad ag amrywiaeth o bartneriaid gan gynnwys CRhC, Partneriaid Cenedlaethol ac asiantaethau allweddol ar draws yr ystod oedran 0 i 7 gan gynnwys ymwelwyr iechyd, lleoliadau gofal plant ac ysgolion cynradd.

Gan weithio ochr yn ochr â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen cenedlaethol ar gyfer Plant a Theuluoedd, sy'n cael ei weithredu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, bydd y prosiect nawr yn canolbwyntio ar waith ym Merthyr Tudful, ar Ynys Môn ac yn Arc Ddeheuol Caerdydd. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u dewis i gynrychioli'r gwahanol fathau o gymunedau a lleoliadau yng Nghymru lle mae nifer yr achosion o ordewdra a phlant dros bwysau yn uchel.

Mae canfyddiadau'r ymchwil yn cael eu defnyddio i ddylanwadu ar y prosiect dwy flynedd ac i helpu i nodi pa bartneriaid sydd yn y sefyllfa orau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno i wahanol grwpiau oedran o fewn yr ystod oedran 0 i 7, ac ym mhob ardal beilot. Mae gan bob ardal ffocws EDI ac mae'n ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad, mewn amgylchedd sy'n ddiogel, yn bleserus ac yn ddatblygiadol. Mae'r prosiect peilot yn cael ei gyllido am ddwy flynedd, gan ddechrau ym mis Ebrill 2023.

## Iechyd a lles y meddwl: seicoleg glinigol yn Chwaraeon Cymru

Rydym wedi dechrau ailddychmygu sut rydym yn cefnogi iechyd a lles y meddwl i staff ac athletwyr. Rydym yn gwneud hyn drwy ddull perthynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae tair agwedd graidd i'r gwaith hwn:

1. **Cefnogi athletwyr yn yr arena perfformiad uchel.**
   Sicrhau bod gan athletwyr a phobl sy'n bwysig iddynt le i drafod eu hanghenion a sut i'w diwallu.
2. **Datblygu sut mae Chwaraeon Cymru yn deall ac yn cefnogi iechyd a lles y meddwl**
   **Integreiddio** ar draws y sefydliad i ddatblygu dealltwriaeth amlddisgyblaethol o sut mae chwaraeon yn cefnogi iechyd a lles y meddwl.
3. **Rhwydweithio Cenedlaethol Cydweithredu** â gwledydd eraill y DU i arddangos ein gwaith a dysgu gan eraill.

Byddwn yn parhau i flaenoriaethu a chanolbwyntio ein hymdrechion ym maes iechyd meddwl, gan ddatblygu ein gwybodaeth a'n harbenigedd ynghylch sut gellir defnyddio chwaraeon yn effeithiol i wella iechyd a lles y meddwl, a dysgu oddi wrth seicolegwyr clinigol a'u disgyblaeth drwy weithio gydag athletwyr.

## Cyfergyd mewn chwaraeon

Mae'r ffocws diweddar ar y cyfryngau ar yr achosion o anafiadau i'r ymennydd ymhlith ein harwyr chwaraeon wedi cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o effaith bosibl cyfergyd yn y tymor byr a'r **tymor hir** ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon. Yn dilyn adroddiad Cyfergyd mewn Chwaraeon Pwyllgor Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Senedd y DU (Gorffennaf 2021), mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu sy'n ceisio ymateb yn uniongyrchol i'r argymhellion a amlinellir yn yr adroddiad.

Mae ein tîm meddygol wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Gweithgor Cyfergyd mewn Chwaraeon, a gomisiynwyd gan Lywodraeth y DU, i sefydlu canllawiau ffurfiol ar gyfergyd sy'n gysylltiedig â chwaraeon (SRC) o fewn cyfranogiad chwaraeon ar lawr gwlad. Bydd y canllawiau'n sicrhau bod modd adnabod y symptomau corfforol a seicolegol sy'n gysylltiedig â SRC yn gynnar a galluogi cyfranogwyr a'u rhwydweithiau cefnogi i reoli SRC yn fwy effeithiol.

Er mwyn sicrhau bod y canllawiau Cyfergyd mewn Chwaraeon yn cael yr effaith orau bosibl yn system chwaraeon Cymru, bydd Chwaraeon Cymru yn cydweithio â CRhC Cymru i ddatblygu dull dwyieithog o gasglu gwybodaeth yn ymwneud â SRC o fewn llwybrau chwaraeon a pherfformiad Cymru ar lawr gwlad.

Y nod yw sefydlu dealltwriaeth sylfaenol o sut mae SRC yn cael ei reoli ar hyn o bryd gan y rhai sy'n **ymwneud** â chwaraeon yng Nghymru. Cafodd cwestiynau seiliedig ar gyfergyd eu cynnwys yn Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 hefyd. Dylai'r wybodaeth hon helpu CRhC i nodi elfennau sy'n galluogi ac yn rhwystro o ran rheoli cyfergyd yn fwy effeithiol, gan hyrwyddo gwell canlyniadau cyfranogiad a chwaraeon perfformiad yn y tymor byr a'r **tymor hir** yng Nghymru.

Mae llawer iawn o waith i'w wneud o hyd. Bydd cydweithredu **ehangach** ar draws systemau addysg, iechyd a chwaraeon Cymru a'r DU yn sicrhau bod rhieni a'u plant, hyfforddwyr a'u hathletwyr, meddygon, a'u cleifion, i gyd yn ymwybodol o effeithiau niweidiol posibl SRC. Byddwn yn parhau i **gydweithredu** â phartneriaid ar draws y systemau hyn i sicrhau bod effeithiau negyddol SRC yn cael eu lliniaru, gan alluogi i bawb fwynhau buddion llawn chwaraeon.



# ADDYSG

Mae lleoliadau addysg ac ysgolion yn ganolog i sicrhau dechrau gwych; mwynhad gydol oes o chwaraeon a chael plant ac oedolion i fod yn fwy actif. Roedd ein gwaith eleni yn cynnwys arwain gwaith darganfod y 'Cynnig Actif Dyddiol' a pheilot 'Actif Y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol'.

## Cynnig Actif Dyddiol

Eleni rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ar fenter i hyrwyddo dull ysgol gyfan o weithredu gyda gweithgarwch corfforol a fydd yn llunio dull gweithredu diwygiedig ac wedi'i adnewyddu ar gyfer ysgolion. Bydd yn rhan **integredig** o Gynllun Rhwydwaith Cymru o Ysgolion Iach wedi'i adolygu a'i adnewyddu. Mae'n ddull o weithredu sy'n crynhoi'r holl gyfleoedd lle gellir cyflwyno gweithgarwch corfforol yn ystod y diwrnod ysgol, gan ddarparu pecyn o gefnogaeth i alluogi datblygu cynllun pwrpasol ar gyfer eu hysgol yn seiliedig ar ddirnadaeth ac adborth disgyblion.

Mae'r rhaglen wedi cael ei datblygu i:

- Gwneud cynnydd sylweddol wrth gynyddu nifer y plant oedran ysgol sy'n actif am 60 munud neu fwy bob dydd drwy gyfleoedd uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy gydol y diwrnod ysgol.
- Ategu'r Cwricwlwm i Gymru, drwy gefnogi pob ysgol i greu amgylcheddau dysgu iach ac actif gyda chysylltiadau gwell â'u cymuned leol.
- Sicrhau bod Actif Dyddiol yn rhan ganolog o weithgarwch corfforol yn y Cynlluniau Ysgolion Iach ehangach (wedi'u hadfywio).

Bydd ymyriadau wedi'u targedu ar gyfer yr ysgolion sy'n mabwysiadu'n gynnar yn canolbwyntio ar gymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol ac sydd ag opsiynau o ran graddadwyedd. Bydd yn cael ei gyflwyno nawr gan y mabwysiadwyr cynnar hyn o hydref 2023 ymlaen.



## Chwaraeon Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru

Mae Cenhadaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod rhaid cefnogi pob dysgwr i fod yn unigolyn iach a hyderus sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Mae lles yn chwarae rhan hanfodol yn llwyddiant y Cwricwlwm i Gymru ac mae'n rhan o'r pedwar diben a'r Maes Profiadau Dysgu Iechyd a Lles. Mae angen i ysgolion ac athrawon fod yn barod i gefnogi dysgwyr wrth iddynt archwilio'r cysylltiadau rhwng iechyd corfforol a lles a'u pwysigrwydd mewn dysgu llwyddiannus. Bydd pob ysgol yn gweithredu'r cwricwlwm newydd hyd at ac yn cynnwys dysgwyr 12 oed, o fis Medi 2022 ymlaen, gyda'r ysgolion uwchradd yn mabwysiadu'r Cwricwlwm i Gymru ar sail dreigl yn flynyddol.

### Ymgysylltu ag ysgolion

Rydym yn ymgysylltu â thua 80 i 90 o ysgolion, sy'n cael eu recriwtio mewn clystyrau ar draws y Partneriaethau Chwaraeon rhanbarthol i ddeall yn well anghenion cymuned yr ysgol o ran gweithgarwch corfforol ym maes dysgu a phrofiad iechyd a lles. Mae'r ysgolion sy'n cymryd rhan yn cynnwys ysgolion Cymraeg a'r rheini mewn cymunedau sydd ddim yn derbyn gwasanaethau digonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod ysgolion yn:

- Cydnabod y gwerth y gall chwaraeon a gweithgarwch corfforol ei gyfrannu at les pob disgybl unigol yn ogystal â chyrhaeddiad addysgol gwell a phresenoldeb gwell (ond heb ei gyfyngu i hynny). Rydym eisiau gwybod pa hyfforddiant a chefnogaeth y gellir eu darparu i helpu athrawon i gyflawni hyn, gan eu cefnogi i wella ac adeiladu cysylltedd cymunedol drwy chwaraeon.
- Cryfhau hyder ac ymarfer athrawon ac, yn eu tro, creu dysgwyr llawn cymhelliant a brwd. Ble mae'r bylchau yn hyder ac ymarfer yr athro? Pa ddull fyddai'n gweithio orau wrth drosi'r cwricwlwm yn ymarferol? Ydi athrawon yn deall sut i ymgorffori'r camau cynnydd yn eu harferion a sut mae'r rhain yn cysylltu ag asesu? Pa hyfforddiant / adnoddau fyddai eu hangen i gefnogi athrawon a disgyblion? Beth fyddai'r dull cyflwyno a argymhellir ar gyfer yr hyfforddiant / adnodd?
- Deall sut i greu gallu i athrawon adlewyrchu, mireinio, meddwl a chynllunio sut i ymgorffori ac addasu eu dysgu i weddu i anghenion cymuned eu hysgol.

## Citbag – Ysgolion yn elwa o hwb newydd ar-lein

Yn 2022, lansiwyd 'Citbag' gennym, sef hwb ar-lein ar gyfer adnoddau addysgu a hyfforddi sydd wedi'u creu gan arbenigwyr dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Mae Citbag yn cynnwys cynnyrch enwog Campau'r Ddraig a Chwarae i Ddysgu sydd wedi'u hanelu at ddisgyblion oedran ysgol gynradd, yn ogystal ag adnoddau addysgu ar gyfer plant hŷn. Mae hyn yn cynnwys straeon i gael y rhai ieuengaf yn symud ac yn actif; gemau hwyliog i helpu ystwythder, cydbwysedd a chydsymudiad; dysgu chwaraeon-benodol drwy chwaraeon fel rygbi a chriced; a gymnasteg mwy arbenigol neu symud creadigol i blant hŷn.

Cefnogwyd y platfform gan gyllid gan Lywodraeth Cymru o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, sy'n golygu bod gan yr adnoddau gartref ar-lein am y tro cyntaf erioed ac yn cefnogi cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

Gall defnyddwyr gofrestru i gael cyfrif am ddim ar y platfform cwbl ddwyieithog. Cofrestrodd bron i 1,000 o athrawon yng Nghymru yn ystod y chwe mis cyntaf.

Mae Citbag yn parhau i gael ei ddatblygu. Bydd y ffocws yn y dyfodol ar sicrhau bod yr adnoddau'n diwallu anghenion athrawon wrth iddynt gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

## Actif Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol (AEBSD)

Mae ysgolion yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol fel lleoliad a all ddylanwadu ar ymddygiadau plant a'r gymuned ehangach ac sydd â'r potensial i fod yn ffocws i'r gymuned. Mae'r cysyniad o ddefnyddio safle'r ysgol ar gyfer gweithgarwch corfforol mwy buddiol ac ystyrlon sy'n gysylltiedig ag anghenion cymuned yn cyd-fynd ag ethos y cwricwlwm ysgol newydd yng Nghymru.

Yn dilyn yr etholiadau i'r Senedd yn 2021, roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn addo gwireddu'r ymrwymiad i greu ysgolion bro ac archwilio diwygio'r diwrnod ysgol. Yn hanesyddol mae Chwaraeon Cymru wedi dadlau dros agor cyfleusterau chwaraeon ysgolion y tu hwnt i'r diwrnod ysgol ar gyfer cyfleoedd gweithgarwch corfforol, a thrwy'r posibilrwydd o gyfnod peilot, ceisiwyd pennu dichonoldeb a derbynioldeb agor safleoedd ysgolion, y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, gan gynnwys gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.

Buom yn gweithio gydag ystod o bartneriaid gan gynnwys Tîm Ysgolion Bro Llywodraeth Cymru, Arweinwyr Addysg Awdurdodau Lleol (Aelodau ADEW), Penaethiaid a Thimau Datblygu Chwaraeon Awdurdodau Lleol. Buom hefyd yn **cydweithredu** â Sport England, Chwarae Cymru a WIPAHS yn ystod y cam dirnadaeth a darganfod.

Cymerodd cyfanswm o 14 o ysgolion unigol ac un ffederasiwn o bob rhan o Gymru ran yn y peilot. Cafodd pob ysgol eu categoreiddio fel ysgolion prif ffrwd. Fodd bynnag, darparwyd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol o fewn nifer o'r ysgolion peilot. Roedd pob ysgol wedi'i lleoli mewn cymunedau nad oedd yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol gyda'r canrannau prydau ysgol am ddim yn amrywio o 15% i 50%. Roedd dwy o'r 14 ysgol wedi'u lleoli mewn cymunedau ethnig amrywiol a dyluniodd un ysgol ei darpariaeth gweithgarwch corfforol yn seiliedig ar anghenion y gymuned Roma lle mae 79% yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol.



## Canfyddiadau a dysgu allweddol:

Roedd effaith gadarnhaol ar lefelau gweithgarwch corfforol pobl ifanc, yn enwedig ar gyfer y dysgwyr hynny a oedd yn anweithgar yn flaenorol a / neu ferched. Cafwyd mwy o ymgysylltu hefyd gan ddisgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd mwy o gyswllt ac ymgysylltu ag ystod ehangach o weithgareddau fel dawns gyda bechgyn; gwelsom well ymddygiad, hunan-barch, lles a gwydnwch ymhlith disgyblion. Yn olaf, roedd effeithiau cadarnhaol ar gydlyniant cymunedol, gan gynnwys y disgyblion yn gweld ysgolion fel mannau diogel, gwell perthnasoedd rhwng rhieni / ysgolion a llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned.

Mae'r canfyddiadau allweddol a fydd yn helpu i lunio rhaglenni llwyddiannus yn y dyfodol mewn ysgolion yn cynnwys yr angen am amlinellu cyfrifoldebau a swyddogaethau clir yn y strwythur staffio. Mae hefyd yn hanfodol sicrhau partneriaeth rhwng ysgolion a thimau datblygu chwaraeon lleol a sefydliadau cymunedol er mwyn meithrin gallu, rhannu arbenigedd ac annog rhwydwaith ffyniannus o gyfleoedd chwaraeon a gweithgarwch corfforol lleol.

Yn ogystal, roedd angen i'r cynigion unigol fod yn unigryw i'r ysgol a'r gymuned ac mae ymgynghori â disgyblion a'r gymuned yn allweddol i sicrhau bod y cynnig yn diwallu eu hanghenion. Yn olaf, o ran cyllid, rhaid ystyried cynaliadwyedd a chynllunio ar ei gyfer o'r dechrau un ac wedyn ei integreiddio mewn cyllidebau. Mae angen cynnwys cyllid ar gyfer staffio a / neu hyfforddi hefyd.


## Y camau nesaf

Mae pump o'r 14 ysgol yn parhau i fonitro effaith eu cynnig drwy gydol misoedd y gaeaf. Bydd adroddiad estyniad ar gyfer y pum ysgol yma ar gael yng Ngwanwyn 2023. Wrth symud ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ein hymchwil a'n canfyddiadau yn ei chanllawiau ar gyfer ysgolion sy'n dymuno bod yn ysgolion bro.




## Persbectif disgyblion


Gofynnwyd i ddisgyblion, drwy arolwg ym mis Gorffennaf 2022 (cwblhawyd 121), adlewyrchu ar eu profiad o gymryd rhan yn y sesiynau AEBSD. Yn gyffredinol:





**Dywedodd 99% o'r disgyblion bod y profiad cyffredinol o'r sesiynau yn dda**




**Roedd 99% o'r disgyblion yn teimlo'n hyderus wrth fynychu sesiynau**




**Roedd 100% o'r disgyblion yn debygol o argymell y sesiynau hyn i rywun**




**Roedd 95% o'r disgyblion yn debygol o barhau i fynychu'r sesiynau**

## Sylw i:
# Ysgol Uwchradd Pencoedtre

Mae Ysgol Uwchradd Pencoedtre wedi'i lleoli yn Ward Cadog y Barri ym Mro Morgannwg lle ceir heriau cymdeithasol-economaidd sylweddol. Mewn gwirionedd, mae dalgylchoedd yr ysgol yn cynnwys rhai o'r 10% uchaf o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru a bu cynnydd sydyn yn nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd yr ysgol eisiau datblygu cynnig cyfannol yn canolbwyntio ar weithgarwch corfforol a maeth a chreu sefydliad addysgol, lles a chymunedol o safon fyd-eang.

Nododd yr ysgol bod angen gwella'r ddarpariaeth o gyfleoedd gweithgarwch corfforol yn y gymuned yn yr ardal, gan ddefnyddio ein Harolwg Chwaraeon Ysgol, a ddangosodd bod cyfranogiad mewn darpariaeth chwaraeon ar ôl ysgol yn isel o gymharu â gweddill Bro Morgannwg; a thrwy'r arolwg 'Lleisio Eich Barn' bod disgyblion ysgolion uwchradd eisiau gwneud mwy o weithgarwch corfforol ar ôl ysgol ac mewn lleoliadau cymunedol.

Ymrwymodd yr ysgol i ymestyn oriau agor yr ysgol, ynghyd â threfnu a chynnal sesiynau yn yr ysgol.

Yn para tan fis Gorffennaf 2022, roedd y rhaglen yn cynnwys gweithgareddau fel dawns, Tai chi, hunanamddiffyn, pêl fas, ioga, sglefrfyrddio, rhedeg a golff. O fis Medi 2022 ymlaen, mae'r ysgol wedi anelu at ymgorffori'r dysgu o'r peilot mewn model **tymor hir** cynaliadwy.

Tra oedd y prosiect yn weithredol, adroddodd yr heddlu am ostyngiadau mewn troseddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol, a Gorchmynion Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASBOs) a gyhoeddwyd yn yr ardal; cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni, a theimlwyd bod y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar y gymuned. Datblygodd yr hyfforddwyr berthynas â'r disgyblion, gan ddysgu sgiliau bywyd iddynt a sut bydd y dewisiadau maent yn eu gwneud nawr yn effeithio arnynt wrth symud ymlaen mewn bywyd.



Galluogodd y bartneriaeth gyda thîm Byw yn Iach y Fro gysylltiadau â darpariaeth gymunedol i ddisgyblion ei mynychu wedyn.

Ceisiodd yr ysgol uwchsgilio disgyblion i ddod yn arweinwyr chwarae drwy gydol y prosiect.

Yn gyffredinol, teimlai 79% o ddisgyblion bod mynychu'r sesiynau wedi cynyddu eu lefelau gweithgarwch corfforol, gyda 74% yn dweud eu bod wedi mynychu 10+ sesiwn. Adroddodd y disgyblion hefyd ei bod yn hawdd iawn teithio i'r sesiynau wrth iddynt gael eu cynnal yn ystod amser cinio neu ar ôl ysgol. Roedd mynychu'r sesiynau'n helpu disgyblion i ddysgu neu wella eu sgiliau (90% yn cytuno / cytuno'n llwyr), cwrdd â phobl newydd (89%), a theimlo'n dda (89%).

## Uchafbwyntiau'r disgyblion

Nododd yr ysgol bod y rhaglen wedi cael effaith arbennig ar un disgybl. Cyn cymryd rhan yn y rhaglen, roedd y disgybl wedi ymddieithrio ac yn aml roedd yn gadael gwersi ac yn gwrthod cyfathrebu â'r staff.

Mae stori'r disgybl yn enghraifft o sut gall y rhaglen arwain at fanteision ehangach y tu hwnt i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol yn unig.

"Mae personoliaeth a hyder y disgybl hwn wedi cynyddu cymaint ers dechrau'r ddarpariaeth ar ôl ysgol. Yn y gorffennol, doedd y disgybl ddim yn heini o gwbl ac nid oedd yn mwynhau ymarfer corff. Nawr mae'n mynychu bob nos, wedi dod yn fwy heini ac wedi gwneud llawer o ffrindiau. Mae hefyd wedi dangos cymaint o gynnydd fel ei fod yn cefnogi staff sydd â rôl arwain." **Louis Johnson**, Rheolwr Darpariaeth Amgen

"Y rheswm pam fy mod i'n mwynhau'r dosbarth ar ôl ysgol yn fawr yw oherwydd ers i mi ddechrau mynd iddo, mae wedi fy helpu i gyda fy hyder a fy hunan-barch. Rydw i hefyd wedi gwneud rhai ffrindiau newydd ac wedi gwella fy ffitrwydd. Mae'n brofiad gwych yn gyffredinol." **Disgybl**



# CYNALIADWYEDD A DATGARBONEIDDIO

Ein hymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur a chynllun gweithredu ar sut gallwn chwarae ein rhan i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o sector cyhoeddus sero net.

## Datblygu a lansio'r Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol erbyn 2030

Rydym yn falch ein bod, drwy ein Llythyr Cylch Gwaith, yn gallu cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni economi ddi-garbon drwy weithio i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Yn wir, mewn ymateb i'r Argyfyngau Hinsawdd a Natur, mae Chwaraeon Cymru wedi nodi cynaliadwyedd amgylcheddol fel blaenoriaeth cynllun busnes. Er mwyn datblygu ein cynlluniau i gyfrannu at uchelgais Llywodraeth Cymru o gael sector cyhoeddus sero net erbyn 2030, comisiynodd Chwaraeon Cymru arbenigedd yr Ymddiriedolaeth Garbon i helpu i ddeall ein llinell sylfaen o ran allyriadau carbon ac i ddatblygu blaengynllun i leihau allyriadau. Yn dilyn cyfres o weithdai gyda rhanddeiliaid allweddol, datblygwyd Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol drafft.

Mae'r cynllun yn canolbwyntio ein gweithredoedd datgarboneiddio a bioamrywiaeth ar bum thema allweddol:

- Ein Pobl
- Ein Partneriaid
- Ein Caffael
- Ein Llefydd
- Ein Prosesau

Un o themâu allweddol y cynllun yw'r cyfleoedd **cydweithredu** i weithio gyda sefydliadau eraill (Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, partneriaid o fewn y Gynghrair Chwaraeon, yr Amgylchedd a Hinsawdd, Dosbarthwyr y Loteri, Cyrff Rheoli Cenedlaethol a Phartneriaid Cenedlaethol eraill).

Mae'r cynllun wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan ni mewn fformat hygyrch. O ystyried cyflymder y newid yn y maes hwn, mae Chwaraeon Cymru yn rhagweld y bydd y cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod y datblygiadau diweddaraf yn cael eu cynnwys yn y camau gweithredu.

Byddwn yn monitro'r cynnydd gyda chyflawni'r cynllun gan gynnwys drwy'r datganiad allyriadau carbon blynyddol i Lywodraeth Cymru. Yr hyn a ddysgwyd o ddatblygiad y cynllun yw bod cael cyngor arbenigol yn amhrisiadwy gan ei fod yn rhoi gwybodaeth am faes cymhleth a thechnegol. Mae hefyd wedi bod yn bwysig datblygu'r llinell sylfaen o ran allyriadau carbon i'n galluogi i fonitro effaith y camau rydym yn eu cymryd.

Sylw i:

# System wresogi ffynhonnell daear, Plas Menai

Rydym wedi parhau â'r prosiect lleihau carbon cyffrous ym Mhlas Menai dros y flwyddyn ddiwethaf, gan osod a chysylltu mwy na 12 milltir o bibellau tanddaearol i'r pympiau gwres ffynhonnell ddaear newydd. Mae pympiau gwres yn defnyddio llawer llai o ynni na ffynonellau gwres eraill, gyda'r gwres yn cael ei drosglwyddo i'r adeilad tua phedair gwaith yn gyflymach na phan ddefnyddir ynni trydan.

Roedd yn heriol ôl-ffitio technoleg newydd ar adeilad 40 oed a seilwaith cyfatebol. Roedd angen peiriant i ddrilio 68 o dyllau hyd at 160m o ddyfnder i'r ddaear i greu casglwr gwres daear oedd yn ddigon mawr i'r adeilad.

Mae'r casglwr daear wedi'i guddio'n llwyr o dan y ddaear. Bydd yn cefnogi'r galw am wres a dŵr poeth yn y dyfodol ym Mhlas Menai, gan sicrhau gostyngiadau sylweddol mewn allyriadau carbon o gymharu â'r system olew oedd yno'n flaenorol.

I gefnogi'r prosiect hwn, mae'r unedau trin aer, allyrwyr gwres fel rheiddiaduron a dargludyddion gwyntyll, a'r panel rheoli i gyd wedi'u huwchraddio i helpu i sicrhau bod y system yn gweithio mor effeithlon â phosibl. Rydym yn credu mai dyma'r ôl-ffitio cyntaf o'i fath yng Nghymru a'n nod yw rhannu'r hyn rydym yn ei ddysgu o'r prosiect hwn gydag unrhyw bartneriaid sy'n edrych ar ffyrdd o leihau eu hôl troed carbon o fewn seilwaith eu cyfleuster.






## Buddsoddi mewn sector chwaraeon cynaliadwy

Eleni, gwnaethom ymrwymiad i flaenoriaethu'r agenda cynaliadwyedd o fewn ein buddsoddiadau cyfalaf. Gan weithio ar draws y sector chwaraeon yng Nghymru a nifer o ffrydiau cyllido, roedd y buddsoddiadau'n canolbwyntio ar leihau costau ynni ar gyfer cyfleusterau a chlybiau cymunedol, yn ogystal â gwneud cyfraniad cadarnhaol at ddatgarboneiddio yng Nghymru.

Drwy ein proses mynegi diddordeb buddsoddiadau cyfalaf agored, rydym wedi buddsoddi mewn gosodiadau paneli solar, goleuadau LED, ac mae ymrwymiad sylweddol wedi'i wneud i wella llifoleuadau ynni-effeithlon mewn clybiau chwaraeon ledled Cymru drwy Gronfa Cymru Actif.

Mae'r dysgu o **gydweithredu** â phartneriaid ar y cynlluniau peilot hyn wedi bod yn amhrisiadwy a bydd yn golygu bod Chwaraeon Cymru mewn sefyllfa i lansio ei gronfa gyhoeddus ei hun, sy'n hygyrch i bob sefydliad chwaraeon cymunedol nid-er-elw, yn gynnar ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

# Sylw i: Buddsoddiad cynaliadwyedd

Un o'r dulliau mwyaf arloesol o gyflawni amcanion ein Llythyr Cylch Gwaith o weithio gyda phartneriaid ar gyllid cyfalaf oedd datblygu dwy gronfa cynaliadwyedd beilot rhwng Chwaraeon Cymru, Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru drwy Sefydliad Pêl-droed Cymru. Buddsoddwyd mwy na £500,000 er mwyn i glybiau gael mynediad at hyd at £20,000 yr un ar gyfer gwelliannau a fyddai'n gwella eu heffeithlonrwydd ynni.

Byddai'r cyllid yn cefnogi pethau fel uwchraddio goleuadau dan do, hyrwyddo bioamrywiaeth safle, ffynonellau dŵr cynaliadwy, paneli solar, prosiectau inswleiddio, pympiau gwres ffynhonnell daear a phwyntiau gwefru cerbydau trydan.

**Llwyddodd cyfanswm o**

**41 o glybiau i wella eu cyfleusterau cymunedol drwy gyfrwng y dull hwn o weithredu.**

## Sut mae ymgorffori cynaliadwyedd yn rhan o gaffael yn Chwaraeon Cymru?

Nodwyd y prosiect hwn oherwydd ein **hymwneud** â Rhaglen Infuse. Mae'n cyd-fynd â nodau Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Chwaraeon Cymru sy'n cefnogi gwaith blaenoriaeth busnes datgarboneiddio / cynaliadwyedd y sefydliad. Drwy archwilio'r cwestiynau dysgu canlynol, bydd y prosiect yn mynd i'r afael â'r cwestiwn sut bydd cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori yn rhan o gaffael yn Chwaraeon Cymru:

1. Beth yw'r broses gaffael bresennol yn Chwaraeon Cymru ac a oes rhwystrau neu gyfleoedd yn gysylltiedig â hi?
2. Sut mae addasu drwy ddysgu oddi wrth sefydliadau eraill sydd ag arfer da trosglwyddadwy?
3. Sut gallwn ni brofi newidiadau yn Chwaraeon Cymru?

Cynhaliwyd cyfnod darganfod y prosiect rhwng mis Tachwedd a mis Rhagfyr 2022. Cynhaliwyd wyth sesiwn ymchwil defnyddwyr mewnol i ddeall profiadau caffael cydweithwyr yn Chwaraeon Cymru. Yn y cyfamser, bu cyfarfodydd gyda sefydliadau allanol o gymorth i gasglu dysgu arfer gorau. Datblygodd ymchwil bwrdd gwaith a chyfranogiad yn labordy Caffael Infuse wybodaeth ehangach.

Mewn perthynas â chwestiwn dysgu dau, cyfarfu Chwaraeon Cymru â:

- Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
- Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol
- Rheolwyr labordy caffael rhaglen Infuse

Mae'r gwaith yn cysylltu'n uniongyrchol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mae'n cysylltu'n arbennig o dda â nodau 'Cymru Lewyrchus' a 'Cymru sy'n Gyfrifol yn Fyd-eang'.

## Sylw i:
# Arlwyo Chwaraeon Cymru yn ‘wynebu’r her amgylcheddol’


Mae arlwyo yn chwarae rhan allweddol wrth helpu i leihau ein hôl troed carbon.

Mae tua 90% o’n cyflenwyr yn lleol, sy’n golygu ein bod yn cefnogi cynhyrchwyr lleol bychain ac yn cadw ein hôl troed carbon i lawr. Rydym wedi cyflwyno cynllun cwpanau y mae posib eu hailddefnyddio i bawb, fel ein bod yn gallu lleihau nifer y cwpanau y mae posib eu compostio rydym yn eu defnyddio.

Rydym wedi creu cymhelliant fel rhan o hyn, felly mae’r cwsmer yn talu pris is wrth ddefnyddio ei gwpan ei hun hefyd.

Rydym wedi rhoi’r gorau i ddefnyddio bagiau bach untro, gan fynd yn ôl at boteli plastig y gellir eu hail-lenwi ar gyfer sawsiau ac ati, ac rydym yn defnyddio nwyddau untro y mae posib eu compostio i gyd ar gyfer bwyd tecawê. Mae ein holew gwastraff yn cael ei gludo i’w ailgylchu yn fiodiesel, a bydd unrhyw offer newydd rydym yn ei brynu yn cael ei wirio am ei berfformiad effeithlonrwydd ynni yn gyntaf.







## Sylw i:
# Ceir cronfa trydan

Er mwyn cyfrannu at sicrhau bod Cymru yn garbon niwtral erbyn 2030, fe wnaethom benderfynu newid dau o'n ceir cronfa hybrid am rai cwbl drydanol. Yn dilyn astudiaethau manwl o fwy na 200 o wahanol geir, y model a ddewiswyd oedd yr Hyundai Kona oherwydd yr angen am i'r car allu teithio'n bell rhwng gwefru.

Roedd rhaid iddo hefyd fod yn gyfforddus i'w yrru, nid yn rhy gymhleth, a bod yn werth da am arian. Mae hefyd yn 'edrych yn drydanol', felly mae'n arwydd clir o ymrwymiad Chwaraeon Cymru i'r amgylchedd.

Mae'r ddau Hyundai Kona newydd yn gwbl weithredol bellach fel ceir cronfa ar gyfer staff ac, yn ogystal, mae pum pwynt gwefru trydan wedi'u gosod ar y cyntedd y tu allan i'r Ganolfan Genedlaethol yng Nghaerdydd.



# BUDDSODDIADAU

## Cronfa Cymru Actif (BAWF)

Mae Cronfa Cymru Actif yn cynnig grantiau rhwng £300 a £50,000 ar gyfer prosiectau yng Nghymru sy'n bwriadu gwneud o leiaf un o'r canlynol:


- Lleihau anghydraddoldeb;
- Creu cynaliadwyedd **tymor hir**;
- Cyflwyno ffyrdd newydd neu wahanol o weithredu.

Mae'r ffrwd gyllido hon yn canolbwyntio ar sicrhau y gall chwaraeon cymunedol ddigwydd. Er enghraifft, gellid defnyddio cyllid i wneud y canlynol:

- Uwchsgilio gwirfoddolwyr lle mae gan glybiau fylchau mewn sgiliau neu brofiad;
- Prynu offer sy'n galluogi mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon;
- Datblygu ffyrdd newydd neu wahanol o gyflwyno gweithgarwch corfforol;
- Defnyddio technoleg i ymgysylltu â mwy o bobl;
- Cyrraedd pobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae cyfanswm o £4,330,967 wedi'i ddosbarthu drwy'r BAWF, gan gefnogi 595 o brosiectau ledled Cymru.

**Yr awdurdodau lleol a gafodd y lefel uchaf o gyllid drwy geisiadau i BAWF oedd:**




**Y chwaraeon a gafodd y lefel uchaf o gyllid drwy geisiadau i BAWF oedd:**

- Rygbi'r Undeb **£864,604**
- Pêl Droed **£745,222**
- Golff **£394,171**
- Tennis **£363,309**
- Criced **£349,330**

## Lle i Chwaraeon

Y gronfa 'Lle i Chwaraeon', a ddarperir mewn partneriaeth â Crowdfunder UK, yw ein cyfrwng ar gyfer buddsoddi yn yr holl feysydd nad ydynt yn darparu chwaraeon yn uniongyrchol ond sy'n cael effaith enfawr ar brofiad y rhai sy'n cymryd rhan. Gall hyn gynnwys diogelu neu wella offer neu gyfleusterau, neu wella gwasanaethau i wneud clybiau'n fwy cynaliadwy yn ariannol neu'n amgylcheddol.

Mae'r gronfa'n gweithio ar sail cyllid cyfatebol, felly mae pob cais llwyddiannus yn dangos bod ymrwymiad gwirioneddol gan y gymuned leol.

Unwaith y bydd Chwaraeon Cymru yn cefnogi unrhyw gais bydd yn addo rhwng 30% a 50% o gyfanswm costau'r prosiect, gyda'r symiau sy'n weddill yn dod gan gefnogwyr unigol. Mae pen uchaf yr addewid wedi'i dargedu'n benodol at ardaloedd o amddifadedd, fel y'i mesurir gan Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru, i sicrhau ein bod yn cefnogi'r cymunedau hynny sydd â'r angen mwyaf yn y ffordd orau.

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, mae cyfanswm o 14 o brosiectau wedi bod yn llwyddiannus yn eu hymgyrchoedd, gan sicrhau £72,425 gan Chwaraeon Cymru a £182,098 pellach mewn cyllid ychwanegol gan y cyhoedd. Mae cyfanswm y cyllid hwn o £254,523 ar gyfer clybiau cymunedol wedi arwain felly at gyfradd chwyddo o £3.51 am bob £1 o fuddsoddiad cyhoeddus.



## Sylw i:
# Clwb Bechgyn a Merched Tonyrefail

**Disgrifiad o'r Prosiect:**
Eisteddle newydd 100 sedd a dygowts newydd ar gyfer y ddau dîm.

**Cyfanswm Targed Cyffredinol y Prosiect:**
£30,000

**Addewid Chwaraeon Cymru:**
£9,000

**Cyfanswm yr Arian a Godwyd:**
£55,787

**Cyfanswm y Cefnogwyr Cymunedol:**
193

Mae CBM Tonyrefail wedi darparu pêl droed i'r gymuned leol ers 1992, gan redeg 15 tîm pêl droed, o lefel Dan 5 oed yr holl ffordd drwodd i'r timau Hŷn, a gyda mwy na 300 o chwaraewyr cofrestredig. Mae'r tîm Hŷn wedi sicrhau dyrchafiad i Uwch Gynghrair De Cymru yn ddiweddar.

Roedd y clwb eisiau prynu eisteddle 100 sedd newydd a dygowts newydd ar gyfer y timau cartref ac oddi cartref. Roedd caniatâd cynllunio wedi'i ddyfarnu eisoes, ond roedd angen rhywfaint o help i godi'r arian i wireddu'r freuddwyd. Yn haf 2022, pan edrychodd y clwb ar Chwaraeon Cymru a Crowdfunder, roedd eisoes wedi codi £20,000, ond roedd angen codi £30,000 arall.

Roedd uwchraddio'r cae yn golygu y gallai'r clwb gyflawni'r tri maen prawf angenrheidiol i gefnogi dyrchafiadau i'r tîm Hŷn yn y dyfodol. Fodd bynnag, teimlai'r clwb bod y prosiect yn golygu llawer mwy na hynny, gan mai'r eisteddle fydd y cyntaf erioed i ymddangos nesaf at gae Tyn-Y-Bryn, gan ddangos sut roedd wedi datblygu, a'r holl gefnogaeth roedd wedi'i chael gan y gymuned. Bydd yr eisteddle yn cefnogi datblygiad y clwb yn y **tymor hir** ac ar gyfer aelodau'r dyfodol.



# Sylw i:
# Clwb Bowlio Pentyrch

**Enw'r Clwb:**
Clwb Bowlio Pentyrch

**Disgrifiad o'r Prosiect:**
Newid cyfleusterau'r toiledau.

**Cyfanswm Targed Cyffredinol y Prosiect:**
£7,000

**Addewid Chwaraeon Cymru:**
£2,100

**Cyfanswm yr Arian a Godwyd:**
£8,140

**Cyfanswm y Cefnogwyr Cymunedol:**
83

Mae Clwb Bowlio Pentyrch (PBC) yn glwb bowlio lawnt ar lawr gwlad gyda'i ffocws ar y gymuned ac mae wedi bod yn gweithredu ers dros 30 mlynedd. Gydag aelodaeth o tua 60 o ddynion a merched, mae'r clwb yn chwarae gemau bowlio cynghrair a chyfeillgar yn ne Cymru ac yn cynnal nosweithiau clwb bowlio ar ddyddiau Llun i aelodau a'r gymuned ehangach. Mae hefyd yn cynnig digwyddiadau cymdeithasol amrywiol ar gyfer aelodau a'r rhai nad ydynt yn aelodau.

Mae'r clwb yn cael ei redeg gan grŵp o wirfoddolwyr ac mae'n darparu dull o wella iechyd a lles pobl o bob oed; mae'n ymdrechu i wella'r cyfleusterau sylfaenol ar gyfer aelodau, timau sy'n ymweld a'r gymuned ehangach.

Roedd angen cyllid ar y clwb i adnewyddu rhywfaint o'r seilwaith gwreiddiol a oedd mewn cyflwr gwael. Roedd angen rhoi sylw arbennig i'r bloc toiledau, ac nid oedd mynediad i'r anabl.

Heb gyfleusterau priodol, nid oedd y clwb yn gallu cynnal gemau bowlio cystadleuol na digwyddiadau cymdeithasol ar gyfer aelodau a'r gymuned ehangach.

Dros y pum mlynedd nesaf, nod y clwb yw uwchraddio ei gyfleusterau er mwyn denu mwy o bobl o Bentyrch a'r cymunedau cyfagos i gymryd rhan mewn gweithgareddau bowlio a gweithgareddau eraill, gan arwain at well iechyd corfforol a meddyliol, a mwy o gydlynu cymunedol.



# Cyllid Cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf mae Chwaraeon Cymru wedi dosbarthu £9,503,000 mewn cyllid cyfalaf i gefnogi seilwaith y sector.

Mae'r cyllid wedi'i ddarparu ar draws ystod o gynlluniau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Proses mynegi diddordeb ar gyfer ceisiadau drwy Awdurdodau Lleol, Cyrff Rheoli Cenedlaethol a Phartneriaid Cenedlaethol.
- Grŵp Cydweithredu ATP yn buddsoddi mewn cyfleusterau caeau 3G ac ATP.
- Prosiectau a Nodwyd gan Chwaraeon Perfformiad.
- Gwelliannau i Ganolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru yng Nghaerdydd a'r Ganolfan Awyr Agored Genedlaethol ym Mhlas Menai.
- Grŵp Cydweithredu Cyrtiau yn buddsoddi mewn cyfleusterau cyrtiau aml-chwaraeon.
- Peilot Ynni Gwyrdd gydag Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

## Astudiaeth Achos:
## Cydweithrediad Cyrtiau

Gan adeiladu ar lwyddiant Grŵp Cydweithredu ATP, lle mae Chwaraeon Cymru wedi gweithio'n draddodiadol gyda Hoci Cymru, Undeb Rygbi Cymru a'r Gymdeithas Bêl-droed yng Nghymru i fuddsoddi mewn meysydd chwarae, eleni lansiwyd grŵp Cydweithredu'r Cyrtiau gennym. Unwaith eto, roedd egwyddorion y cyllid hwn yn seiliedig ar ddod â gwahanol bartneriaid at ei gilydd i gydweithio ar gyfleoedd aml-chwaraeon. Mae cyfanswm o £339,542 wedi'i ymrwymo i brosiectau a nodwyd ac a gefnogir gan Bêl Fasged Cymru, Tennis Cymru a Phêl Rwyd Cymru, yn ogystal â phartneriaethau awdurdodau lleol unigol. Mae'r dull arloesol hwn o weithredu wedi sicrhau ehangu ar gyfleusterau newydd er budd y gymuned, gan ddatblygu'r chwaraeon hynny a chyflwyno cyfleoedd yn eu hardal i gynulleidfaoedd newydd.



## Sylw i:
# Partneriaeth Plas Menai

Daeth Parkwood Leisure, un o brif weithredwyr cyfleusterau hamdden y DU, yn ddarparwr rheolaeth newydd ar gyfer Plas Menai, Canolfan Awyr Agored Genedlaethol Cymru, ar 1 Chwefror 2023.

Mae Parkwood Leisure wedi ysgwyddo'r cyfrifoldeb am redeg y Ganolfan o ddydd i ddydd am gyfnod cychwynnol o ddeng mlynedd ar ôl derbyn y contract fel partner a gomisiynwyd. Bydd yr adeiladau a'r tir yn parhau i fod yn eiddo i Chwaraeon Cymru.

Un o ddisgwyliadau allweddol llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru yw i Chwaraeon Cymru ddarparu model gweithredu **tymor hir** cynaliadwy, newydd ar gyfer Plas Menai sy'n cynyddu ei gyfraniad at dwristiaeth ac effaith gymdeithasol ac economaidd ehangach gogledd Cymru. Fel rhan o'r cytundeb newydd, mae grŵp partneriaeth strategol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Chwaraeon Cymru, Parkwood Leisure a staff Plas Menai wedi'i sefydlu. Bydd y partneriaid hyn yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gwella'r gwasanaethau presennol, a hefyd i gefnogi'r staff gyda'r pontio.

Gyda mwy na 25 mlynedd o brofiad mewn datblygu a gweithredu cyfleusterau hamdden, mae Parkwood Leisure yn rhedeg mwy na 75 o safleoedd mewn dros 30 o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys canolfan gweithgareddau awyr agored Dolygaer sydd wedi'i lleoli ym Mannau Brycheiniog.

Mae Plas Menai eisoes yn ddarparwr byd-enwog ar weithgareddau awyr agored gyda staff balch ac angerddol. Bydd yr arbenigedd ychwanegol a ddaw gyda Parkwood Leisure yn arwain at fwy o bobl yn mwynhau popeth sydd gan Blas Menai i'w gynnig.



Bydd Parkwood yn cadw at werthoedd Chwaraeon Cymru - er enghraifft, i annog ffyrdd o fyw hapusach ac iachach. Mae'n ymroddedig i gynnal gwerthoedd fel annog ffyrdd o fyw hapusach ac iachach ac mae'n ymroddedig i gynnal y lefelau uchel o wasanaeth y mae Plas Menai yn adnabyddus amdanynt a darparu mwy o gyfleoedd i bobl fwynhau'r cyfleuster gwych.

Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Parkwood i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r safle yn y **tymor hir**, ac yn gyffrous am weld beth gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd yn ystod y degawd nesaf.



# GEMAU'R GYMANWLAD – BIRMINGHAM 2022

Yng Ngemau'r Gymanwlad XXII yn Birmingham cafwyd ymdrechion godidog gan nifer o'n hathletwyr o Gymru, gan ddod â chyfanswm o 28 medal adref: 8 aur, 6 arian ac 14 efydd. Bu 201 o athletwyr ar draws 15 o chwaraeon yn cystadlu a gwelwyd mwy o bara athletwyr nag erioed o'r blaen yn y gemau.

Roedd medal aur **Olivia Breen** yn rownd derfynol y 100m T37/8, gan drechu cystadleuydd o Loegr, Sophie Hahn, yn anhygoel ac enillodd wobr Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn BBC Cymru iddi. Daeth efydd **Lily Rice** yn y pwll fisoedd yn unig ar ôl dychwelyd i nofio cystadleuol ar ôl bod yn fflipiwr cefn ac yn bencampwr byd mewn croesfoduro cadair olwyn.

Trodd un arall o enillwyr medalau efydd Tîm Cymru ei law at ei gamp chwe blynedd yn ôl yn unig hefyd, ar ôl rhoi cynnig ar bêl droed, gymnasteg a chodi pwysau. Dechreuodd **Jake Dodd** ar y bagiau ergydio fel ffordd o gadw'n heini.



Roedd diwrnod olaf ond un y gemau, sef 7 Awst 2022, yn hollbwysig i Gymru wrth i **Charlotte Carey** ac **Anna Hursey** gipio'r efydd fel medal tennis bwrdd cyntaf merched Cymru yn y Gymanwlad, a'r un diwrnod enillodd **Josh Stacy** fedal aur yn senglau Tennis Bwrdd y Dynion C8-10 , ac enillodd y bocswyr **Rosie Eccles** ac **Ioan Croft** ddwy fedal aur arall. Roedd **Garan Croft**, efaill Ioan, newydd ennill efydd hefyd ym mhwysau canol ysgafn y dynion y diwrnod cynt.

Roedd Ras Gyfnewid Triathlon Cymysg **Dominic Coy, Iestyn Harrett, Olivia Mathias** a **Non Stanford** yn gamp anhygoel o ystyried cryfder y cystadleuwyr.

Mae mor anodd nodi un perfformiwr neu berfformiad o Gymru ymhlith cymaint, ond rhaid cyfeirio'n arbennig at **Jake Heyward** yn y 1500m yn yr athletau. Er iddo ddod yn bumed, mae'r safle'n cuddio perfformiad anhygoel o safon byd: torrodd ei amser record y Gemau a oedd yn bodoli ers 1974 a byddai felly wedi ennill pob un o bum cystadleuaeth ddiwethaf Gemau'r Gymanwlad. Yn ornest eithriadol glos, roedd y ras yn batrwm o'r mân wahaniaethau hynny mewn chwaraeon lefel elitaidd a hefyd pam y dylem fesur mwy na dim ond y medalau sy'n cael eu hennill mewn Gemau fel y rhain.



# EIN GWAITH NI FEL CORFF CYHOEDDUS

## Ein nodau llesiant

Yn dilyn yr adolygiad o gynnydd tuag at ein nodau llesiant a nodir isod, rydym wedi penderfynu bod yr amcanion presennol yn parhau i fod yn briodol. Nid yw ein Datganiad Llesiant wedi newid chwaith.

## Bod yn berson ganolog:

Anghenion a chymhellion yr unigolyn sy'n arwain y cyflwyno, wrth ddechrau arni, anelu at wneud cynnydd neu ymdrechu am ragoriaeth ar lwyfan y byd.

Mae cynnydd wedi parhau o ran gweithredu'r dull buddsoddi newydd. Mae hyn yn parhau i fod yn gonglfaen i'n gwaith, gan ei fod yn cysylltu dewisiadau cyfranogiad y grwpiau hynny sydd fwyaf difreintiedig oherwydd anghydraddoldeb â'n dyraniad o fuddsoddiad. Mae'r dull newydd sy'n cael ei sbarduno gan egwyddorion wedi'i ddatblygu'n llawn ar gyfer partneriaid nad ydynt yn cael eu llywio gan ddata gan ddefnyddio'r un sbardun i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

Seiliwyd yr Adolygiad Buddsoddi Cymunedol yn gadarn ar yr egwyddor o angen defnyddwyr wrth iddo geisio deall y rhwystrau i wneud cais am gyllid Chwaraeon Cymru. Defnyddiwyd ymchwil defnyddwyr i ddatblygu proses ymgeisio symlach a hawdd ei defnyddio.

Mae egwyddorion dylunio gwasanaethau ac anghenion defnyddwyr yn cael eu deall yn well ac yn cael eu defnyddio'n ehangach mewn amrywiaeth o brosiectau. Er ein bod yn ymgorffori'r dull hwn ymhellach, rhaid i ni hefyd ystyried sut rydym yn cefnogi partneriaid i ddeall anghenion eu defnyddwyr.

Mae angen gwneud cynnydd pellach gyda chreu cysylltiadau cadarnach gyda phobl o leiafrifoedd ethnig a datblygu mwy o ymddiriedaeth. Er bod cyflymder y newid wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd yn wreiddiol, mae cynnydd wedi'i wneud mewn nifer o feysydd, fel penodi Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI).

Enghraifft bellach o ymgysylltu yw'r prosiect Chwaraeon Ramadan llwyddiannus a gynhaliwyd yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru mewn partneriaeth â Foundation 4 Sports Coaching, sefydliad sy'n gweithio'n agos gyda phobl o leiafrifoedd ethnig yn Butetown a Grangetown, Caerdydd.

Dyma arwyddion cadarnhaol o'r nod hwn:

- Lolfa Athletwyr newydd i ddarparu lle i orffwys a gwella a gwell mynediad i flaen adeilad Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru i bobl ag anabledd.
- Rhyddhau canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn gyflymach i ysgolion eu defnyddio ac i gefnogi gweithredu newidiadau.
- Cefnogaeth seicoleg glinigol ar gyfer anghenion athletwyr unigol; arwain ar rôl chwaraeon mewn iechyd meddwl.

## Rhoi dechrau gwych i bob person ifanc:

### Mae gan bob person ifanc y sgiliau, yr hyder a'r cymhelliant i'w galluogi i fwynhau a gwneud cynnydd drwy chwaraeon; gan roi sylfeini iddynt fyw bywyd actif, iach a chyfoethog.

Y cyd-destun ar gyfer gwneud cynnydd gyda'r amcan hwn yw'r gostyngiad sylweddol iawn mewn cyfranogiad chwaraeon gan bobl ifanc a adroddwyd yn Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 (gostyngiad cyffredinol o 9%). Mae effaith pandemig Covid-19 ar gyfranogiad chwaraeon plant yn cael ei hadlewyrchu yn y ffigurau hyn am y tro cyntaf. Mae'r data hefyd yn dangos bod yr effeithiau wedi bod yn anghymesur uwch ar gyfer plant â lefelau uwch o amddifadedd ac mae'r argyfwng costau byw parhaus yn dangos y gallai anfantais o'r fath gynyddu ymhellach.

Gallai'r cwricwlwm ysgol newydd a dulliau newydd posibl o weithredu, fel y Cynnig Actif Dyddiol, ynghyd â'r hyn a ddysgwyd o'r Addysg Actif y Tu Hwnt i'r Diwrnod Ysgol diweddar, greu newidiadau sylweddol i chwaraeon a gweithgarwch corfforol mewn ysgolion. Bydd y newidiadau hyn yn cyflwyno cyfleoedd a heriau a bydd gan ein gwaith drwy Rwydweithiau Rhanbarthol rôl hanfodol i'w chwarae i ddeall effaith y newidiadau hyn a sut gallwn weithio gyda'r sector addysg i ymateb.

Arwyddion cadarnhaol o'r amcan hwn:

- Gwaith parhaus i ddeall ein rôl yng Nghynllun Gweithredu Cymru sy'n Falch o'r Mislif i gefnogi merched ac athrawon.
- Prosiect llwybrau yn defnyddio data am lwybrau cynnydd chwaraeon, gan sicrhau gwybodaeth gan ddisgyblion.
- Mae Actif North Wales yn adolygu adnoddau'r AYPP ar hyn o bryd, a'r ddarpariaeth ar draws y rhanbarth, er mwyn cefnogi Actif North Wales i gyflawni yn erbyn y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.



## Sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i fod yn actif drwy chwaraeon:

### Mae chwaraeon yn gynhwysol ac yn darparu profiad gwych i bawb.

Mae ystod eang o waith ar droed ac yn cael ei gynllunio i wella EDI ac ymdeimlad gwirioneddol ar draws y gweithlu mai dyma'r thema bwysicaf yn holl waith Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, er bod cynnydd yn cael ei wneud tuag at welliant mewn sawl agwedd ar y gwaith, mae ymdeimlad bod graddfa'r newid sydd ei angen yn fawr a bod angen adnoddau sylweddol. Yn yr ystyr hwn, mae nifer o brosiectau allweddol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl i ddechrau gwneud y gwahaniaeth maent yn ei geisio, ac mae gan Chwaraeon Cymru ragor o waith i'w wneud o hyd i feithrin perthnasoedd dibynadwy gyda gwahanol gymunedau.

Roedd y gostyngiad mewn cyfranogiad chwaraeon a ddangoswyd gan ddata Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 hefyd yn cyflwyno arwyddion clir bod gostyngiadau cymesur uwch ar gyfer y rhai sydd eisoes dan anfantais (Amddifadedd economaidd-gymdeithasol; pobl o leiafrifoedd ethnig; pobl ifanc ag anabledd; merched). Gan gydnabod bod y ffactorau sy'n achosi'r gostyngiadau hyn yn gymhleth ac y byddant yn ymwneud â'r tarfu enfawr yn sgil Covid-19, byddai'n anghywir peidio ag ailddatgan y dystiolaeth sobreiddiol hon ar gyfer yr amcan hwn. Mae'n cyflwyno dadl gref dros barhau ag EDI fel prif flaenoriaeth Chwaraeon Cymru.

Arwyddion cadarnhaol o'r amcan hwn:

- Gwella hygyrchedd: yn ddigidol, drwy waith helaeth ar ein prosesau cyfathrebu a digidol, gan gynnwys uwchsgilio ein staff a'r sector; ac yn gorfforol, gyda gwell mynediad i fynedfa Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru i bobl ag anabledd; am y tro cyntaf darparwyd dehongliad Iaith Arwyddion Prydain yn nigwyddiad Chwaraeon Cymru: Yr Uwchgynhadledd Chwaraeon.
- Mae EDI yn flaenoriaeth uchel mewn nifer o brosiectau a gwaith parhaus sy'n canolbwyntio ar weithlu'r sector chwaraeon, gan gynnwys Arwain Gweithredu Cadarnhaol (PAL) sy'n datblygu gallu i arwain.
- Cefnogwyd Bocsio Cymru i ddefnyddio data'r Arolwg Chwaraeon Ysgol i helpu i lunio'r gwaith a fydd yn cyfrannu at gyflawni ei strategaeth gymunedol a ffocws mwy bwriadol a phwrpasol ar gydlyniant cymdeithasol a gweithio gyda chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yng Nghymru. Dyma enghraifft o ddata'n cael eu defnyddio i gefnogi cyfeiriad strategol.
- Croesawodd Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru Ramadan Hanner Nos, gan gysylltu â Foundation 4 Sport Coaching, sefydliad lleol sy'n darparu cyfleoedd chwaraeon i gymuned Fwslimaidd Caerdydd.
- Buddsoddiad cyfalaf: lansiwyd cynllun Mynegi Diddordeb newydd, gan flaenoriaethu prosiectau a allai effeithio ar amddifadedd ac anghydraddoldeb, gyda £3m wedi'i ddyfarnu i 30 o brosiectau.

## Dod â phobl at ei gilydd ar gyfer y tymor hir:

### Mae sector chwaraeon **cydweithredol**, cynaliadwy a llwyddiannus, sy'n cael ei arwain gan ddirnadaeth a dysgu cyfunol.

Y llynedd fe wnaethom adrodd, er bod **cydweithredu** yn ddull o weithio sydd wedi'i ymgorffori, roedd yr **integreiddio** yn llai sefydledig. Mae'r cynnydd yn y maes hwn wedi bod yn gyfyngedig yn ystod y flwyddyn.

Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cryfhau cynaliadwyedd o fewn y sector gyda Chwaraeon Cymru yn cyhoeddi ei gynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol cyntaf erioed. Roedd y cynllun newydd yn cynnwys **cydweithredu** ac **ymwneud** â'r sector chwaraeon a Chynghorau Chwaraeon eraill yn y DU yn ogystal â sefydliadau sector cyhoeddus cenedlaethol a thrydydd sector ledled y DU.

Gwnaeth cynlluniau cyllid cyfalaf gynnydd pellach hefyd mewn perthynas â **chydweithredu** fel Cydweithrediad Cyrtiau yn **ymwneud** â phêl fasged, pêl rwyd a thennis. Mae Partneriaethau Chwaraeon wedi symud o gysyniad a chynllunio i realiti gydag Actif North Wales yn defnyddio ei ddata craff i gysylltu â phartneriaid newydd a phresennol. Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn parhau i gael ei sbarduno gan **gydweithredu** drwy adborth a darpariaeth Awdurdodau Lleol ac ysgolion, gan helpu i ddatblygu a gwella'r arolwg a'i ddefnydd yn barhaus. Yn ogystal, dylai'r gwaith sy'n mynd rhagddo i alluogi'r sector i gael mynediad uniongyrchol at ddadansoddiad mwy penodol o ddata'r arolwg gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail dirnadaeth.

Bu cynnydd hefyd yn erbyn yr amcan hwn drwy ein gwaith i ddod o hyd i Bartner Comisiynu newydd i redeg gweithrediadau Plas Menai, gan sicrhau dyfodol cynaliadwy, **tymor hir** ar gyfer yr ased pwysig hwn.

Cododd adolygu'r amcan hwn heriau y bydd angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwneud cynnydd pellach.

Mae gennym lawer o ddata da ac mae angen i ni ystyried sut rydym yn defnyddio'r data hynny i lunio cynlluniau a blaenoriaethau a thracio cynnydd. Er nad yw Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull sy'n cael ei sbarduno gan dargedau o weithredu gyda phartneriaid bellach, mae defnyddio data i ddysgu a gwella yn parhau i fod yn bwysig iawn a dylid cryfhau hyn.

Arwyddion cadarnhaol o'r amcan hwn:

- Arian cyfalaf: Sefydlodd Chwaraeon Cymru gynlluniau arloesol i gyllido prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd; gan gynnwys dull peilot newydd o weithio gyda phêl droed a rygbi ar gynaliadwyedd clybiau.
- Cafodd y broses gydweithredol i gytuno ar feysydd gwaith gyda phartneriaid ei datblygu ymhellach eleni drwy gynnwys ein tîm Dirnadaeth i gynyddu'r ffocws ar ddata'r arolwg a chanfyddiadau ymchwil.
- Mae cyfarfodydd rheolaidd ar y cyd â phartneriaid Chwaraeon Cymru mewn sefydliadau trydydd sector cenedlaethol, nid yn unig i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau'r dyfodol, ond hefyd maent yn ofod ar gyfer deialog ddidwyll gyda heriau ac atebion amgen a drafodir yn adeiladol.



## Arddangos manteision chwaraeon:

### Mae tystiolaeth o effaith chwaraeon, ac mae cyrhaeddiad chwaraeon yn cael ei ddeall yn llawn, ei werthfawrogi, ei arddangos a'i ddathlu ledled Cymru.

Ceir tystiolaeth o'r amcan hwn drwy ein gwaith yn cefnogi'r ymgyrch newid ymddygiad Pwysau Iach, Byw'n Iach a lansiwyd ym mis Ionawr mewn partneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru. Nod yr ymgyrch yw helpu oedolion ledled Cymru i fyw bywydau iachach, gyda gweithgarwch corfforol yn rhan allweddol o'r ymgyrch.

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â Chwarae Teg fel noddwr gwobr Merched mewn Chwaraeon yng ngwobrau Womenspire Chwarae Teg sy'n dathlu llwyddiant ysbrydoli merched yn ein sector.

Wrth arddangos campau Tîm Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2022, aethom ati i ddewis rhoi llawer o'n ffocws ar negeseuon allweddol am ddatblygu system chwaraeon gynhwysol ac nid dim ond medalau.

Mae hwn yn ymrwymiad allweddol yn y Llythyr Cylch Gwaith i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i arddangos Cymru i'r byd.

Mae darn allweddol o waith ar gyfer yr amcan hwn wedi'i gynllunio eleni gan ein bod wedi comisiynu Prifysgol Sheffield Hallam i ymchwilio i elw cymdeithasol ar fuddsoddiad. Bydd hwn yn adrodd yn 2023-24 a bydd yn rhoi asesiad gwrthrychol ac annibynnol o gyfraniad chwaraeon at iechyd, addysg, cydlyniant cymdeithasol a chyfiawnder troseddol.

Arwyddion cadarnhaol o'r amcan hwn:

- Buddsoddiad Cyfalaf: Ffocws clir ar fudd amgylcheddol. Sut gellir ehangu cynaliadwyedd drwy chwaraeon ac nad oes rhaid i gynaliadwyedd fod yn lle negyddol i chwaraeon.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Cronfa Chwaraeon Cyfiawnder Ieuenctid: Gwelsom y potensial ac fel rhan o'r grŵp llywio fe wnaethom helpu gyda chysylltiadau gan arwain at gyllid ychwanegol ar gyfer wyth prosiect yng Nghymru.
- Crowdfunder: Rydym yn cryfhau cyrhaeddiad chwaraeon mewn cymunedau. Y tu hwnt i'r cyllid, y manteision i glybiau yw'r cysylltiadau maent yn eu ffurfio. Llawer o enghreifftiau gwych o waith ymgysylltu â chlybiau. Maent yn dysgu a hefyd yn rhannu drwy rwydweithiau anffurfiol maent yn eu ffurfio eu hunain.

## Bod yn sefydliad hynod werthfawr:

### Mae Chwaraeon Cymru yn sefydliad uchel ei barch, sy'n ymdrechu i orgyflawni drwy ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf drwy ein staff gwerthfawr.

Mae Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru wedi ceisio asesiad annibynnol o ystod eang o'i gweithrediadau yn ystod y flwyddyn ac mae wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol, gwrthrychol. Ein sgoriau misol cyfartalog yn 2022-23 gan wasanaeth siopwyr dirgel Proinsight oedd 96% ar gyfer y llety a'r cyfleusterau chwaraeon. Ar yr ochr arlwyo, ein Sgôr Safonau Bwyd a arolygwyd yw 5 allan o 5 ac mae'r adran wedi cynnal y safon uchaf o Aur yn y gwobrau Opsiynau Iach.

Mae ein gwaith ar gynaliadwyedd wedi cynnwys sefydlu nifer o ffrydiau gwaith newydd sy'n ymdrin ag amrywiaeth o agweddau fel pwyntiau gwefru cerbydau trydan yng Nghaerdydd a symud i fflyd trydan i gyd; prosiect i wella cynaliadwyedd ym maes caffael; a pharatoadau a sefydlu'r cynlluniau cyllido cyntaf sydd wedi'u hanelu at gynaliadwyedd.

Roedd hefyd yn **ymwneud** â gosod y system pwmp gwres hynod arloesol ym Mhlas Menai, menter enfawr yn enwedig gan ei fod yn brosiect ôl-ffitio mewn adeilad cyhoeddus mawr iawn mewn ardal cadwraeth forol. Roedd hyn yn **ymwneud** â goresgyn llawer o wahanol broblemau (adeiladu cymhleth mawr mewn maes technoleg newydd; caffael; rheoli prosiectau).

Fel rhan o'r adolygiad hwn mae'r safbwyntiau a fynegwyd gan rai partneriaid wedi gofyn i Chwaraeon Cymru roi cynnig ar ddulliau newydd neu ailadrodd yn gyflymach.

Arwyddion cadarnhaol o'r amcan hwn:

- Cyflwyno cymwysterau a chefnogaeth barhaus i staff partner mewn Cryfder a Chyflyru.
- Datblygu arferion caffael mwy cynaliadwy a dod o hyd i fwyd o'r ffynonellau mwyaf cynaliadwy gan leihau milltiroedd bwyd ac ehangu'r economi gylchol.
- Gweithio gyda theuluoedd a phlant ifanc i ddeall eu hanghenion a lleihau'r risg o ordewdra ymhlith plant.



# AMCANION CYDRADDOLDEB

## Cynyddu amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau â'r cynnydd ers y flwyddyn flaenorol o ran arallgyfeirio ei weithlu. Mae gweithwyr o leiafrifoedd ethnig bellach yn cyfrif am 9% o'n gweithlu, sy'n sylweddol uwch na'r boblogaeth genedlaethol. Mae'r gyfran LGBTQ+ yn uwch hefyd na'r cyfartaledd poblogaeth cenedlaethol.

Rydym wedi dangos ein bod yn awyddus i gyflymu'r cynnydd hwn mewn amrywiaeth ymhellach yn ystod 2022/23, gyda newidiadau'n cael eu gwneud i brosesau recriwtio er mwyn parhau i gynyddu effaith. Mae'r rhain wedi cynnwys newid pellach i hyrwyddo recriwtio'n well i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol; gweithio gyda sefydliadau partner fel Prifysgol Fetropolitan Caerdydd i ddenu ymgeiswyr mwy amrywiol a newid prosesau recriwtio, fel cynnig sesiynau galw heibio a chynlluniau gwarantu cyfweliad.

Rydym yn gobeithio y bydd y newidiadau hyn yn parhau i hwyluso cynnydd wrth arallgyfeirio'r gweithlu ymhellach lle mae angen newid sylweddol pellach o hyd. Mae hyn yn arbennig o amlwg o ran anabledd, lle mae nifer y staff sy'n nodi eu bod yn anabl ymhell islaw'r cyfartaledd cenedlaethol o 21%.

Yn ogystal â'r effeithiau mwy uniongyrchol a nodir uchod, rydym hefyd wedi dechrau gwaith tymor hwy i hyrwyddo Chwaraeon Cymru fel cyflogwr o fewn cymunedau lleol.

Mae hyn wedi cynnwys gwaith gyda grwpiau amrywiol o ddisgyblion o ysgolion uwchradd lleol i roi cyfleoedd iddynt gwrdd â staff ac ymweld â Chwaraeon Cymru i gael blas ar sut beth yw gweithio yma. O ran amserlen fyrrach, rydym hefyd yn darparu mwy o gyfleoedd uniongyrchol drwy ein Hathrofa gan fod cynlluniau ar waith i gyllido cyrsiau gradd Meistr a darparu interniaethau â thâl. Roedd y fenter hon yn canolbwyntio ar ymgeiswyr yr oedd anfantais economaidd-gymdeithasol yn effeithio arnynt i ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth gyda Chwaraeon Cymru.

## Dileu bylchau cyflog

Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2023 oedd 7% (Canolrif) neu 9% (Cymedr). Mae hyn yn gynnydd o 0% (Canolrif) a 6.1% (Cymedr) ar 31 Mawrth 2023. Er eu bod yn amlwg yn siomedig, mae'r ffigurau hyn yn parhau i fod yn is na'r cyfartaleddau cenedlaethol. Mae'r ffigurau hyn wedi'u heffeithio gan gyfradd trosiant staff uwch na'r cyfartaledd o fewn y flwyddyn ac mae angen dadansoddiad pellach i ddeall sut mae hyn wedi effeithio ar wahanol feysydd o'r busnes.

Mae amrywiaeth ar lefel Arweinyddiaeth a Gweithredol yn is nag ar draws gweddill y sefydliad a'r cam nesaf pwysig yw ystyried sut gallwn gael effaith gadarnhaol ar y maes hwn drwy gynllunio olyniaeth a'n hymrwymiad parhaus i hyfforddi staff, ochr yn ochr ag arferion recriwtio mwy cynhwysol. Mae amrywiaeth ar lefel Bwrdd yn parhau i fod yn gadarnhaol.

Gyda gwelliant mewn amrywiaeth mewn nodweddion eraill, dylem ystyried yn y dyfodol ar ba bwynt y byddai gwybodaeth bwlch cyflog yn ymarferol yn ystadegol ac y dylid dechrau ei chasglu ar gyfer rhai o'r nodweddion gwarchodedig eraill.



## Ymgysylltu â'r gymuned

(Canlyniad **tymor hir**: Bydd cymunedau amrywiol ledled Cymru yn cymryd rhan weithredol yng ngwaith ein sefydliadau. Bydd strategaethau, polisïau a phenderfyniadau'n cael eu cydgynhyrchu ag unigolion amrywiol. Bydd profiadau a safbwyntiau pobl yn llywio ein sefydliadau).

Mae'r dull dylunio defnyddwyr yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio'n dda mewn agweddau ar ein gwaith a'n prosiectau, er enghraifft, yr adolygiad Buddsoddiad Cymunedol. Mae'r hyn a ddysgir o'r prosiect hwn hefyd yn cael ei rannu o fewn y sefydliad drwy sesiynau dangos a dweud rheolaidd. Cydnabuwyd wrth adolygu'r amcan hwn y gall gymryd cryn dipyn o amser i ymgorffori cysyniad fel dyluniad defnyddiwr yn yr holl waith. Felly, er ei fod yn sefydlu, nid yw wedi'i ymgorffori eto. Mae barn bwysig hefyd bod angen i ni wneud mwy o ymdrech i edrych ar yr hyn y mae partneriaid ei angen oherwydd mae eu defnydd o ddyluniad defnyddwyr yn bwysicach gan eu bod yn agosach at gyfranogwyr - mae angen i ni ddeall yr hyn sydd arnynt ei angen a'i ddarparu.

Mae'n gadarnhaol gweld y defnydd o dechnoleg (fel y dangosir gan yr adnodd UPSHOT sy'n cael ei ddefnyddio yn y rhaglen 60+) fel arloesedd i alluogi ymgysylltu gwell â defnyddwyr gwasanaethau a chymunedau. Mae prosesau ansoddol syml hefyd yn bwysig ac mae dyfnder y dysgu o'r rhain yn cyfiawnhau'r mwy o amser sydd arnynt ei angen yn aml.

Un o amcanion strategol allweddol ein partneriaeth gyda Parkwood i redeg gweithrediadau Plas Menai yw cynyddu'r ymgysylltu cymunedol. I ddechrau, mae hyn yn canolbwyntio ar gynyddu defnydd gan ddisgyblion ysgol ac mae Parkwood Leisure hefyd yn bwriadu cynnig cymorth i gymunedau Gogledd Cymru drwy fwrsarïau a phrentisiaethau.

Mae Covid-19 a'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar adnoddau lleol a rhanbarthol ledled Cymru, gan arwain at ostyngiad yng nghyfleusterau Awdurdodau Lleol a staff datblygu chwaraeon, sy'n chwarae rhan hanfodol wrth ymgysylltu â chymunedau. Bydd parhau i gyflwyno Partneriaethau Chwaraeon yn helpu i hwyluso gwell ymgysylltu cymunedol, gan roi angen lleol wrth galon y broses o wneud penderfyniadau mewn gwahanol ranbarthau ledled Cymru.

## Sicrhau bod cydraddoldeb wedi'i ymgorffori yn y broses gaffael / comisiynu ac yn cael ei reoli drwy gydol y darparu

Yn dilyn ein **hymwneud** â'r Rhaglen Infuse, rydym wedi sefydlu prosiect i ystyried sut gellir ymgorffori cynaliadwyedd ym maes caffael Chwaraeon Cymru, gan gynnwys anghenion mewn perthynas ag EDI. Mae cam darganfod wedi'i gwblhau a bydd cyfres o argymhellion yn cael eu cynnig yn awgrymu meysydd ffocws fel camau nesaf i'r prosiect.

Caffael partner a gomisiynwyd i redeg gweithrediadau Plas Menai oedd yr ymarfer caffael mwyaf a gynhaliwyd gennym y llynedd. Roedd EDI yn agwedd allweddol ar y broses asesu tendrau, o ran amrywiaeth y gweithlu a darparu gwasanaethau i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.



## Sicrhau bod darparu gwasanaethau yn adlewyrchu anghenion unigol

(Canlyniad **tymor hir**: Mae pobl ac arfer da a rennir yn dylanwadu'n weithredol ar y modd y darperir gwasanaethau i ddiwallu anghenion unigol)

Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd yn agos iawn â'r amcan llesiant 'person ganolog' sydd wrth wraidd ein strategaeth. Mae'n ddull sefydledig yn Chwaraeon Cymru, er enghraifft yn y dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr athletwr o Touch Base Space – argaeledd Seicolegydd Clinigol i athletwyr drafod pryderon ynghylch eu hiechyd meddwl neu les.

Yn y rhaglen Arwain Gweithredu Cadarnhaol, caiff anghenion unigol eu hystyried drwy ddefnyddio cylchoedd siarad i ddeall anghenion dysgu pob unigolyn ar y rhaglen ac i rannu'r rhain gyda'r grŵp er mwyn cefnogi ei gilydd. Bydd sefydlu Panel Athletwyr yn rhoi gwybodaeth hollbwysig ac yn defnyddio arfer gorau o amgylcheddau cyfranogiad presennol a blaenorol.

Mae cofnodion adlewyrchu wedi parhau i fod yn brif adnodd i symud y cynllun busnes yn ei flaen o fis i fis, gan sicrhau bod dysgu wrth galon y ddarpariaeth weithredol. Mae cofnodion adlewyrchu wedi'u cyflwyno hefyd i brosesau Cronfa Cymru Actif er mwyn i ymgeiswyr roi adborth ar yr hyn a ddysgwyd ganddynt. Darperir ystod eang o ddigwyddiadau gwybodaeth, dysgu a hyfforddi i staff Chwaraeon Cymru ac yn allanol i'r sector. Mae sesiynau Dysgu Mellt mewnol rheolaidd o wybodaeth gryno, ysgogiad ac arweinyddiaeth meddwl yn boblogaidd gyda'r staff.

Mae'r adnodd Citbag i athrawon wedi bod yn destun llawer o ymchwil defnyddwyr. Rydym wedi addasu a diweddaru ar sawl achlysur ac yn awyddus i barhau i wneud hyn. Bydd gwerthuso a gwelliant parhaus yn helpu athrawon i ddefnyddio'r adnoddau.

# ADRODD AR SAFONAU'R IAITH GYMRAEG

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i bennu dyletswyddau i bersonau gydymffurfio â safonau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg. Disodlodd y Safonau Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Ar ôl cyfnod o ymgynghori rhwng Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, daeth Safonau Cymraeg newydd i rym ar gyfer Chwaraeon Cymru ar 25ain Ionawr 2017.

Mae'r adran hon yn asesu ein perfformiad yn erbyn ein Safonau Cymraeg, ac yn rhoi manylion y gwaith partneriaeth rydym wedi'i gwblhau dros y 12 mis diwethaf. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn cyflawni'r dyletswyddau sy'n cael eu pennu i ni ac yn cydnabod y rôl bwysig y gall chwaraeon ei chwarae wrth gefnogi datblygiad yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

## Yr iaith Gymraeg mewn chwaraeon

Mae Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg wedi parhau â'u partneriaeth i gefnogi ac annog sefydliadau cenedlaethol yn y sector chwaraeon i ehangu eu darpariaeth Gymraeg.

Mae Chwaraeon Cymru yn gweld y gwaith hwn fel rhan bwysig o'n dyletswyddau iaith Gymraeg drwy annog datblygu a hyrwyddo mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae nifer o Gyrff Rheoli Cenedlaethol ar fin cwblhau eu cynlluniau gweithredu i ehangu eu gwasanaethau Cymraeg ac ennill gwobr Cynnig Cymraeg Comisiynydd y Gymraeg.



## Marchnata, cyfathrebu a digidol

Mae ein holl gynnwys e-gyfathrebu a chyfryngau cyhoeddus yn parhau i gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, gyda newidiadau diweddar yn eu gwneud yn fwy apelgar i gynulleidfa Gymreig, fel newidiadau fformatio i wneud i gynnwys Cymraeg fod yn amlwg ar amrywiaeth o ddyfeisiau. Cynhyrchir cylchlythyrau unrhyw bartner yn gwbl ddwyieithog hefyd.

Mae ein cyfrifon Twitter a Facebook Cymraeg wedi gweld cynnydd sylweddol mewn rhyngweithio ac ymgysylltu. Ar y cyfryngau cymdeithasol rydym hefyd yn **integreiddio** ymadroddion Cymraeg, fel 'Llongyfarchiadau' a 'Pob Lwc' yn ein cynnwys Saesneg er mwyn annog eraill i ddefnyddio'r iaith wrth ddathlu chwaraeon yng Nghymru.

Mae Dydd Gŵyl Dewi yn un enghraifft o sut rydym yn defnyddio dyddiau arwyddocaol ar y calendr Cymreig i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Cyhoeddwyd graffeg gwybodaeth a geiriau ac ymadroddion Cymraeg gennym y gellid eu defnyddio mewn cyd-destun chwaraeon, perfformiodd y cyfathrebu hwn yn dda iawn - gan gyrraedd bron i 15,000 o bobl gyda'r un trydariad hwn yn unig.

Enghraifft arall o'n gwaith cadarnhaol yn y maes hwn yw'r modd yr aethom ati i hyrwyddo Diwrnod Hawliau'r Iaith Gymraeg (WLRD). Rhoddodd Chwaraeon Cymru ffocws cadarn ar y cyfle hwn yn 2022 a oedd yn cynnwys:

- Cyfathrebu Mewnol i holl staff Chwaraeon Cymru yn yr wythnos flaenorol, yn egluro arwyddocâd y diwrnod, yn rhoi gwybodaeth am y Gymraeg ac yn gofyn am eu cefnogaeth i ehangu ei defnydd ac i hyrwyddo WLRD.
- Cyfathrebu Allanol ar bob sianel gymdeithasol yn gweithredu ymgyrch fer o'r elfennau canlynol:
  - Datblygiadau a gwasanaethau mewnol yn Chwaraeon Cymru.
  - Clip fideo yn y Gymraeg gan ein Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro yn sôn am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg i chwaraeon ac i Chwaraeon Cymru er mwyn annog mwy o ddefnydd ohoni.
  - Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg mewn clybiau chwaraeon.
  - Hyrwyddo ein grantiau i gefnogi cyfleoedd chwaraeon yn y Gymraeg.

Lansiwyd Citbag, hwb ar-lein dwyieithog o adnoddau gweithgarwch corfforol sydd wedi'u hanelu at athrawon. Roedd enw dwyieithog yr adnodd yn pwysleisio ein hymdrechion i ddefnyddio apêl y Gymraeg ar draws ein holl gynulleidfaoedd.

Wrth weithio gyda phartneriaid cenedlaethol / y DU gyfan, rydym yn parhau i sicrhau bod asedau a deunyddiau y gwahoddir ni i'w defnyddio i gefnogi ymgyrchoedd ar gael yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys ymgyrchoedd blynyddol y Loteri Genedlaethol ac ymgyrch flynyddol UK Coaching ar gyfer Wythnos Hyfforddi'r DU.

Cynhaliodd y tîm Cyfathrebu sesiwn dysgu mewnol i ystyried arferion Cymraeg cyfredol Chwaraeon Cymru. Roedd hyn yn seiliedig ar God Ymarfer drafft Comisiynydd y Gymraeg a ddosbarthwyd yn 2022 ac adborth diweddar siopwyr dirgel. Trafodwyd a chynlluniwyd gwelliannau mewn nifer o feysydd.

## Cyllid grant


Rydym yn gweithio'n rhagweithiol i ddatblygu chwaraeon i bobl yn ddwyieithog drwy ein cynlluniau buddsoddi.

Cronfa Cymru Actif

O'r 595 o ddyfarniadau o Gronfa Cymru Actif, roedd 22 i sefydliadau a ddywedodd eu bod yn darparu gweithgaredd chwaraeon yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, a dywedodd 145 o sefydliadau eu bod yn ei defnyddio'n rhannol.

Dangosir effaith gyfunol y 167 o ddyfarniadau ar y clybiau a oedd yn bwriadu naill ai dechrau neu gynyddu eu darpariaeth o gyfleoedd chwaraeon gan ddefnyddio'r Iaith Gymraeg yn y tabl isod:

### Gweithgarwch yn y Gymraeg mewn ceisiadau a ddyfarnwyd yn 2022-23




## Ein dyletswyddau

Mae'r effaith bosibl ar y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn cael ei hystyried a'i chrynhoi fel adran safonol o Asesiad Effaith Chwaraeon Cymru a thempledi papurau'r Bwrdd. Mae hyn yn golygu bod angen ystyried yr effeithiau hyn fel rhan o bob newid newydd, neu newid arwyddocaol, mewn polisi ac fel rhan o ysgrifennu pob papur bwrdd.

Mae Chwaraeon Cymru yn rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, sef grŵp o sefydliadau sector cyhoeddus (gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg) sydd wedi datblygu cyfres o amcanion cydraddoldeb ar y cyd y mae'r sefydliadau wedi cytuno i gydweithio i'w rhoi ar waith. I ni, bydd gweithredu'r amcanion hyn hefyd yn **ymwneud** â gweithredu cadarnhaol ar yr Iaith Gymraeg i gynyddu amrywiaeth, yn ogystal â'r naw nodwedd warchodedig.

## Cydymffurfio â safonau

At ddiben yr adroddiad hwn, byddwn yn darparu crynodeb o'r camau a gymerwyd i gadw at 'Ddosbarth o Safonau' fel Darparu Gwasanaethau, Llunio Polisïau a Gweithredol ac ati. Nid yw'r adroddiad hwn yn hollgynhwysfawr o gwbl ac nid yw'n darparu diweddariad am sut rydym yn cadw at bob safon sy'n berthnasol i ni ond ei nod yw rhoi cipolwg i'r cyhoedd a'r Comisiynydd ar y camau sydd wedi'u cymryd i gydymffurfio â'r safonau.

## Darparu gwasanaethau

Mae'r holl arwyddion yn ein dwy Ganolfan Genedlaethol ac yn ein digwyddiadau yn ddwyieithog. Mae arwyddion pwrpasol newydd wedi'u prynu i sicrhau y bydd y Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf. Rydym wedi ychwanegu arwyddion proffil uchel ar gyfer cyfleusterau chwaraeon unigol ac ar gyfer ein cerbydau trydan newydd yn 2022-23.

Rydym wedi datblygu proses i bob aelod o staff ar sut i weithredu ynghylch ymholiadau yn y Gymraeg a manylir ar y broses hon ar dudalennau Cymraeg ein mewnrwyd corfforaethol.

Rydym wedi darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd Cymraeg (ar-lein) ar gyfer rhaglen seminarau dysgu CLIP.

## Llunio polisïau

Mae'r tîm Dirnadaeth, Polisi a Materion Cyhoeddus yn sicrhau bod ein hymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau'r Llywodraeth a'r Senedd yn cael eu cyflwyno yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.

## Gweithredol

Yn ystod 2022-23, roedd gan bob swydd wag sgiliau dwyieithog / amlieithog wedi'u rhestru fel maen prawf dymunol ar ddisgrifiadau swydd. Ymunodd cyfanswm o 20 o staff newydd â Chwaraeon Cymru yn ystod 2022-23 ar gontractau parhaol neu dymor penodol. O blith y staff newydd hyn, mae pedwar naill ai'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu rannol, gan gynnwys rhai mewn swyddi cyhoeddus allweddol. Cynhyrchir yr holl wybodaeth recriwtio yn ddwyieithog, a rhoddir y dewis i ymgeiswyr gael cyfweliad naill ai yn y Gymraeg neu yn Saesneg.

Mae ein llawlyfr staff sy'n manylu ar ein polisïau corfforaethol sy'n ymwneud â phopeth o iechyd a diogelwch i reoli perfformiad a rheoli absenoldeb a buddion yn y gweithle yn ddwyieithog. Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r cyfle i gael Cymraeg fel eu dewis iaith i gyfathrebu yn y gweithle, gan gynnwys ein prosesau cwyno ac anfodlonrwydd.

Rhoddir cyfle i bob aelod o staff wella eu sgiliau Cymraeg drwy hyfforddiant iaith Gymraeg ffurfiol yn ystod oriau gwaith, a hyrwyddir yn rheolaidd gan ein tîm AD.


Yn ystod 2022-23, mae tri o bobl wedi mynychu cyrsiau Cymraeg lefel mynediad.

Rheolir pob llofnod e-bost yn ganolog gan ein hadran TGCh ac maent yn ddwyieithog.

## Cadw Cofnodion

Rydym yn cadw cofnod o nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn Chwaraeon Cymru. Yn 2022-23 cawsom y canlynol:

### Lefel y Gymraeg




Mae'r data uchod yn cynnwys cynnydd parhaus mewn datganiadau gan staff drwy waith ymgysylltu i wella'r system fonitro hon (cynnydd i 77% o 73% yn 2021-2022 a 36% yn 2019-20). Bu gostyngiad bychan yng nghyfran y siaradwyr Cymraeg o 33% yn 2021-2022 i 31% eleni ac roedd hyn yn bennaf oherwydd bod staff Plas Menai yng Nghaernarfon wedi gadael cyflogaeth Chwaraeon Cymru fel rhan o'r bartneriaeth a gomisiynwyd gyda Parkwood.

Rydym yn cadw cofnod bob blwyddyn o gwynion yn ymwneud â'n dull o gadw at Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod 2022-23 cawsom un gŵyn ffurfiol ynghylch ein safonau yng nghyswllt y Gymraeg  Roedd y gŵyn yn ymwneud â gweithredu Plas Menai ac â'r broses benderfynu a ddefnyddiodd Chwaraeon Cymru i ystyried llunio contract **tymor hir** gyda phartner a gomisiynwyd. Mae'r ymchwiliad i'r gŵyn hon yn parhau.

## Ategol – darparu gwasanaethau / llunio polisïau / gweithredol / cadw cofnodion

Mae ein 'Cynllun Iaith Gymraeg' yn cynnwys pob un o'n safonau Cymraeg ac i'w weld ar ein gwefan.

Mae manylion am sut byddem yn rheoli cwyn sy'n ymwneud â'r Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg a grybwyllir uchod.

Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu a hyrwyddo'r Gymraeg, mae llawer o feysydd rydym eisiau parhau i fwrw ymlaen â hwy. Byddwn yn gweithio'n rhagweithiol ar y rhain yn ein cynllunio ac yn adrodd ar gynnydd yn rheolaidd.

# Astudiaeth Achos:
# Yr Urdd

Mae'r testun isod yn tynnu sylw at rywfaint o'r gwaith rhagorol i ddarparu cyfleoedd chwaraeon Cymraeg a dwyieithog gan Urdd Gobaith Cymru mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru:

- Sefydlu swydd newydd Swyddog Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – a recriwtio Nooh Omar Ibrahim. Cydnabuwyd cyfraniad Nooh i chwaraeon yng Nghaerdydd drwy ei waith gwirfoddol a'i waith blaenorol gyda Chriced Cymru ac URC wrth iddo gael ei enwebu ar gyfer gwobr Arwr Tawel Personoliaeth Chwaraeon y Flwyddyn y BBC yn 2022. Mae wedi symud yn gyflym yn ei rôl newydd i ymgysylltu ag Ysgol Fwslimaidd Caerdydd ac i gysylltu â chymunedau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Mae darpariaeth chwaraeon yn yr iaith Gymraeg gyda phobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghaerdydd wedi dangos cynnydd da.
- Mae partneriaethau prentisiaeth newydd wedi'u sefydlu gydag Ymddiriedolaethau Hamdden ac Awdurdodau Lleol i wella hyfforddiant a sgiliau'r gweithlu mewn cyfleusterau chwaraeon a hamdden. Bydd nifer sylweddol o'r prentisiaethau hyn yn cael eu darparu yn yr iaith Gymraeg er mwyn sicrhau bod cyfleusterau'n hygyrch i bawb.
- Cynhaliodd yr Urdd y Gemau Trefol ym Mae Caerdydd yn 2022 ac mae cynlluniau ar waith ar gyfer 2023. Mae hyn yn ymwneud â darparu profiadau cyffrous ac ysbrydoledig sy'n wahanol i lawer o chwaraeon traddodiadol. Roedd y chwaraeon dan sylw yn cynnwys Pêl Fasged 3x3; Pêl Fasged Cadair Olwyn 3x3; BMX; Sgwteri; Sglefrfyrddio; Sglefrio Addasol WMXC.
- Mae'r prosiect #FelMerch wedi parhau i ysbrydoli, cefnogi a grymuso merched a genethod ifanc 14 i 25 oed i gymryd rhan mewn chwaraeon yn eu cymunedau, beth bynnag yw eu gallu neu brofiad. Yn 2022, cafodd pump o ferched y rhaglen gyfle i deithio i Qatar i hyfforddi ac i arddangos y cynnyrch #FelMerch. Roedd hyn fel rhan o dîm o 10 o staff yr Urdd a llysgenhadon ifanc a gynhaliodd sesiynau celfyddydau a chwaraeon mewn ysgolion yn Doha, Qatar a Dubai fel rhan o ddathlu Cymru yng Nghwpan Pêl Droed y Byd y Dynion. Drwy gyfrwng y sesiynau hyn, cyflwynwyd Cymru, ein hiaith, ein diwylliant a'n gwlad i gynulleidfa newydd am y tro cyntaf. Roedd y sesiynau'n cynnig cyfle i blant ddysgu a chwarae gyda'i gilydd.
- Mae staff yr Urdd yn edrych ar sut gall chwaraeon ysgol a chymunedol ymgysylltu'n well â chymunedau, gan fanteisio ar ddysgu o Norwy a Sweden. Mae hyn yn dilyn prif araith ysbrydoledig Per Tøien, uwch gynghorydd i Bwyllgor Olympaidd a Pharalympaidd a Chydffederasiwn Chwaraeon Norwy, yn yr Uwchgynhadledd Chwaraeon ym mis Rhagfyr 2022.




# DADANSODDI PERFFORMIAD

## Ystadegau cydraddoldeb cyfredol


Ar 31/3/23, roedd Chwaraeon Cymru yn cefnogi 151 o bobl mewn swyddi parhaol a thymor penodol.

### Mae'r ystadegau cydraddoldeb ar gyfer y staff hynny yn Ffigur 1:




*Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%


**Mae Ffigur 2 yn dangos nifer y dynion a'r merched a gyflogwyd yn ôl graddfa, oriau gwaith a math o gontract yn ystod 2022-23:**




Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2023 oedd 7% (Canolrif) neu 9% (Cymedr). Mae hyn yn gynnydd o 0% (Canolrif) a 6.1% (Cymedr) ar 31 Mawrth 2023.

# Ystadegau cydraddoldeb – bwrdd

**Mae Ffigur 3 yn dangos yr ystadegau cydraddoldeb ar gyfer ein haelodau bwrdd yn ystod 2022-23:**





*Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%

# Recriwtio

Yn 2022-2023 cawsom 567 o geisiadau am swyddi.

**Mae Ffigur 4 yn dangos yr wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer yr ymgeiswyr:**





*Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%

# Staff yn dechrau o'r newydd

Fe wnaeth 20 aelod o staff ddechrau o'r newydd (ar gontract tymor penodol neu barhaol) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023.

### Mae Ffigur 5 yn dangos yr wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y staff newydd:





*Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%

# Staff yn gadael

Fe wnaeth 54 aelod o staff adael (ar gontract tymor penodol, tymhorol neu barhaol) yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023.

**Mae Ffigur 6 yn dangos yr wybodaeth cydraddoldeb ar gyfer y staff wnaeth adael:**




*Nid oes labelau data wedi'u cynnwys ar gyfer ffigurau is na 5%

## Cwynion, Anfodlonrwydd, Disgyblaeth

Mae gennym bolisi Gwrth-fwlio, Aflonyddu, Gwahaniaethu ac Erlid sy'n nodi safonau ymddygiad yn glir, gan fanylu ar y rhai y mae'r sefydliad yn eu hystyried yn annerbyniol a'r canlyniadau tebygol os bydd sail i unrhyw achos o fynd yn groes i'r ymddygiadau hyn. Mae prosesau ar gael hefyd ar gyfer cwynion a wneir gan y cyhoedd. Yn ystod y flwyddyn adrodd ni chynhaliwyd unrhyw gwynion ond disgyblwyd ddwywaith.

## Hyfforddiant Cydraddoldeb Penodol

Mae pawb sy'n dechrau o'r newydd yn dilyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth ar-lein.

Darperir sesiwn sefydlu ar gyfer staff newydd ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a chynigiwyd rhaglen eang newydd o hyfforddiant a chymorth EDI i'r holl staff a'i chyflwyno yn 2022-23. Mae staff Chwaraeon Cymru wedi ymuno â nifer o raglenni hyfforddi fel cynrychiolwyr: Y Rhaglen Arweinyddiaeth Gynhwysol gan Chwarae Teg; Dod yn Arweinydd Cynhwysol a sefydlwyd gan Chwaraeon Cymru ar gyfer y sector chwaraeon yng Nghymru ac ystod eang o gynadleddau a seminarau.

## Adroddiad ar Gyfranogiad Chwaraeon

| Nodwedd | Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 | Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 | Nodiadau: |
|---|---|---|---|
| | Cymryd rhan mewn chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos[1]. | | Dim ond y lleoliadau hyn sydd wedi'u cynnwys yn y mesur plant – clwb allgyrsiol neu gymunedol a ddefnyddir |
| Cyffredinol (pawb) | **39.5%** | **33.6%** | |
| Merched a genethod | **36.4%** | **29.7%**<br>**-** | Rydym yn cadw data am blant nad ydynt yn uniaethu â rhyw 'bachgen' neu 'ferch'. |
| Rhywedd arall | **28.1%** | | |

1 Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 38

| Nodwedd | Arolwg Chwaraeon Ysgol 2022 | Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 | Nodiadau: |
|---|---|---|---|
| Cymunedau amrywiol yn ethnig | **35.9%** | **38%** | Mae'r gallu i archwilio ethnigrwydd yn dibynnu ar faint y sampl. Gallwn ddarparu llawer mwy o fanylion am blant oherwydd maint y sampl (tua 115,000 o bobl). Mae dadansoddiad pellach ar gyfer oedolion yn gyfyngedig oherwydd maint y sampl mwyaf y gellir ei sicrhau (12,000 o bobl). |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig | **30.1%** | **-** | |
| Grwpiau Ethnig Cymysg / Lluosog | **42.8%** | **-** | |
| Du / Du Cymreig / Du Prydeinig | **38.3%** | **-** | |
| Grŵp Ethnig Arall | **33.1%** | **-** | |
| Gwyn (Cymreig, Seisnig, Albanaidd, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Prydeinig) | **40.8%** | **33.4%** | |
| Gwyn Arall (yn cynnwys Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig, Gwyddelig, Roma, ac unrhyw gefndir Gwyn arall) | **36.0%** | **35.7%** | |
| Amddifadedd economaidd-gymdeithasol | **32.3%** | **-** | Ystyrir bod plant sy'n mynychu ysgolion sydd â'r lefelau cymhwysedd uchaf am brydau ysgol am ddim yn 'ddifreintiedig'; defnyddir mesur gwahanol ar gyfer oedolion a elwir yn amddifadedd materol. |
| Amddifadedd materol | **-** | **19.1%** | |
| Anabledd neu nam | **34.9%** | **25.0%** | Cwestiwn oedolyn: 'Oes gennych chi unrhyw gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol neu salwch sydd wedi para neu y disgwylir iddo bara am 12 mis neu fwy?' |
| Siaradwyr Cymraeg | **46.3%** | **40.2%** | |

# Adroddiad buddsoddi

Dyfarnwyd cyfanswm o 595 o ddyfarniadau o Gronfa Cymru Actif yn ystod 2022-23. Dyma nifer y dyfarniadau a wnaed a chyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd i bob un o feysydd blaenoriaeth y cynllun:

| Maes blaenoriaeth | Nifer y dyfarniadau | Cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd |
|---|---|---|
| Merched a genethod | 413 | £3,334,615 |
| Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig | 154 | £1,031,633 |
| Anabledd | 197 | £1,733,285 |
| Lesbian, hoyw a deurywiol | 82 | £568,372 |
| Trawsryweddol | 52 | £317,656 |
| Amddifadedd economaidd cymdeithasol | 350 | £2,666,744 |
| Yr iaith Gymraeg | 139 | £1,090,633 |
| Creu cynaliadwyedd tymor hir | 513 | £4,022,835 |
| **Cyfanswm ar gyfer yr holl feysydd blaenoriaeth** | **595** | **£4,330,967** |

Nododd yr ymgeiswyr destun i nodi pa flaenoriaethau yr oedd eu prosiectau'n mynd i'r afael â hwy. Nid oedd raid i brosiectau gyfeirio at un maes blaenoriaeth yn unig, felly ni fydd cyfanswm y ceisiadau ar gyfer pob maes yn cyfateb i gyfanswm nifer y dyfarniadau.

# Dadansoddi data

## Gweithlu:

Mae'r datganiad o nodweddion amrywiaeth ar draws yr holl staff wedi parhau i gynyddu.

Mae amrywiaeth y staff ar gyfer nodwedd warchodedig ethnigrwydd wedi cynyddu gyda'r holl grwpiau ethnig heb fod yn wyn yn cynrychioli 9% o'r gweithlu ar 31/3/23. Mae'r cynnydd hwn yn gadarnhaol gan fod Chwaraeon Cymru wedi cydnabod ein diffyg amrywiaeth o ran ethnigrwydd ac wedi gweithredu drwy newidiadau sylweddol i arferion recriwtio. Bu cynnydd yn yr amrywiaeth o ymgeiswyr, cyfweleion a phenodiadau llwyddiannus. Er bod y cynnydd hwn yn gadarnhaol, dylid cydnabod hefyd bod poblogaeth Caerdydd (lle mae'r mwyafrif o staff Chwaraeon Cymru wedi'u lleoli) o bobl nad ydynt yn wyn yn 20.8%, sy'n dangos bod angen gwneud cynnydd pellach.

Mae nifer y staff sy'n nodi eu bod yn anabl wedi lleihau ac mae bellach yn llawer is na'r cyfartaledd cenedlaethol o 21% (ffynhonnell ONS, Cyfrifiad 2021), roedd 6% o'r staff a adawodd yn anabl heb unrhyw staff newydd yn nodi eu bod yn anabl.

## Cyfranogiad chwaraeon:

Dangosodd ein Harolwg Chwaraeon Ysgol ostyngiad dychrynllyd yn ffigur cyffredinol y rhai sy'n cymryd rhan deirgwaith yr wythnos o leiaf - gostyngiad o 8.1 pwynt canran (pc) i 39.5% o bobl ifanc. Mae hyn yn debygol o gael ei effeithio'n fawr gan bandemig Covid-19. Roedd yr arolwg blaenorol yn 2018.

Mae'r grwpiau y mae eu data yn dangos y lefelau mwyaf o anfantais yn cynnwys:

- Grwpiau Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Asiaidd Prydeinig (9.4 pc yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.5 pc ar y data blaenorol yn 2018);
- Y rhai mewn amddifadedd economaidd-gymdeithasol (7.2 pc yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.9 pc o gymharu â 2018);
- Grwpiau ethnig eraill (6.4 pc yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 12.6 pc yn 2018);
- Y rhai ag anabledd neu nam (4.6 pc yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 11.7 pc o gymharu â 2018);
- Cyfranogiad merched (3.1 pc yn is na'r cyfartaledd cyffredinol a gostyngiad o 9.3 pc o gymharu â 2018).

Mae data am ddisgyblion Du / Du Cymreig / Du Prydeinig yn bryder gan ei fod wedi gostwng 12.2 pc, ymhell uwchlaw'r gostyngiad cyfartalog cyffredinol. Mae hyn wedi symud y grŵp o un a oedd yn flaenorol 2.9 pc yn uwch na'r cyfartaledd cyffredinol i fod nawr 1.2 pc yn is.

Cwblhaodd tua thraean o'r holl ddisgyblion yng Nghymru yr arolwg, ac felly gallai newidiadau bach ers 2018 gael eu hesbonio gan amrywiad ystadegol, gan nad oedd pob disgybl yng Nghymru wedi cymryd rhan. Fodd bynnag, mae newidiadau mwy yn debygol o adlewyrchu gwahaniaethau gwirioneddol yn ymddygiad y boblogaeth.

Arolwg Cenedlaethol Cymru: Oherwydd y gwahaniaethau yn y fethodoleg a ddefnyddiwyd, ni ddylid cymharu canlyniadau adran Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Actif Arolwg Cenedlaethol Cymru 2021-22 yn uniongyrchol â chanlyniadau fersiynau blaenorol o Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Roedd data'r arolwg blaenorol a adroddwyd yn Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru 2021-22 yn dyddio o 2019-20.

Roedd y data diweddaraf yn dangos bod y lefelau mwyaf o anfantais mewn amddifadedd economaidd-gymdeithasol (14.5 pc brawychus o dan y cyfartaledd cyffredinol); anabledd a nam (8.6 pc yn is na'r cyffredinol); mae'r ffigurau ar gyfer cyfranogiad merched hefyd yn bryder ar 3.9 pc yn is na'r cyfartaledd cyffredinol.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae siarad Cymraeg yn parhau i fod â chydberthynas gadarnhaol â chyfranogiad oedolion a phlant (AChY: 6.8 pc yn uwch na'r cyfartaledd ac ACC: 6.6 pc yn uwch na'r cyfartaledd).

# Nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

## Y camau mae'r awdurdod wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Rydym bob amser wedi ymrwymo i ddefnyddio ymchwil o ansawdd uchel fel sail i bolisi a strategaeth ac i gynghori'r sector chwaraeon a'i bartneriaid a rhanddeiliaid yn Llywodraeth Cymru, y Loteri Genedlaethol ac yn y sector cyhoeddus.

## Arolwg Chwaraeon Ysgol (AChY):

Mae cylch adolygu helaeth ac ymgynghori eang yn rhan o'r AChY i geisio barn a gweithio gyda nifer o randdeiliaid allweddol. Ni ellir gwneud pob newid o fewn pob cylch arolygu, ond rydym yn gwneud newidiadau graddol i'w gweithredu dros y **tymor hir**. Mae'r AChY wedi'i wella fel arolwg hawdd ei ddarllen, fel enghraifft o newid cadarnhaol. Mae datblygiad yr AChY wedi cynnwys proses ymgynghori ffurfiol a threialu'r arolwg i ddeall yr wybodaeth y mae angen i ni ei chasglu, ac ym mha ffyrdd.

Yn dilyn y bartneriaeth lwyddiannus gyda'r Ganolfan ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol (CDPS) yn ystod 2021-22, mae nifer o argymhellion a wnaed gan y CDPS wedi'u rhoi ar waith. Y newid mwyaf a wnaed yw caffael system fuddsoddi newydd. Bydd y system newydd hon yn ein helpu i gasglu ac arddangos ein data buddsoddi cymunedol yn well, gan ein galluogi i wneud mwy o fuddsoddiadau a sbardunir gan ddirnadaeth yn y dyfodol.

Ers mis Mai 2020, rydym wedi cynnal saith rownd o 'Draciwr Gweithgarwch Cymru', sef arolwg cenedlaethol cynrychioliadol o boblogaeth oedolion o 1,000 o oedolion yng Nghymru mewn partneriaeth â Savanta ComRes. Mae'r data a gasglwyd yn cynnwys newidynnau sy'n ymwneud â rhyw, oedran, anabledd, ethnigrwydd a statws economaidd-gymdeithasol.

Mae'r arolwg wedi ein galluogi i dracio tueddiadau cenedlaethol ac anghydraddoldebau mewn agweddau ac ymddygiadau oedolion ar draws y nodweddion gwarchodedig hyn drwy gydol pandemig Covid-19.

Gydag Arolwg Cenedlaethol Cymru, sef arolwg o aelwydydd 12,000 o oedolion yng Nghymru sy'n cwmpasu cyfranogiad oedolion mewn chwaraeon a hamdden corfforol, mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am unrhyw nodweddion nad ydynt yn benodol i sector a nodir yn yr arolwg. Ar hyn o bryd mae'r nodweddion yn cynnwys daearyddiaeth fesul rhanbarth o Gymru; trefol / gwledig; rhyw; ethnigrwydd; salwch, anabledd neu freguster; amddifadedd materol; defnydd o'r iaith Gymraeg.

Mae canlyniadau ar gael ar gyfer pob awdurdod lleol yng Nghymru. Defnyddir yr arolwg fel sail i Ddangosydd 38 Cenedlaethau'r Dyfodol – 'Canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos'.

## Unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol

Mae angen samplu a phwysoli'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn seiliedig ar ffynonellau data cenedlaethol fel y rhai am niferoedd disgyblion ac ysgolion. Nid yw pob nodwedd wedi'i chynnwys yn y ffynonellau data eilaidd hyn felly efallai nad ydynt yn gwbl gynrychioliadol. Mae angen dylunio rhai cwestiynau'n ofalus i sicrhau eu bod yn gweithio i bob plentyn ac mae angen amser gyda chwestiynau newydd, i ymgynghori, profi a threialu.

## Datganiad ar effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol

Fel sefydliad, rydym yn casglu gwybodaeth ddemograffig hanfodol ar gyfer meysydd cydraddoldeb allweddol gyda ffocws penodol ar rywedd, anabledd, oedran, ethnigrwydd ac amddifadedd. Mae'r data hyn yn cael eu casglu'n bennaf drwy ein hofferynnau arolygu cenedlaethol (Arolwg Chwaraeon Ysgol; Arolwg Cenedlaethol Cymru; Traciwr Gweithgarwch Cymru) sydd i gyd yn weithredol yn achlysurol. Mae'r adnoddau casglu data hyn yn rhoi data pwysig i ni ar gyfer monitro tueddiadau cyfranogiad ac agwedd a, gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu trigolion Cymru sy'n saith oed a hŷn. Os nad yw meintiau sampl arolwg yn ddigonol, mae'r sefydliad yn cynnal ymchwil ansoddol gyda grwpiau penodol i gael dirnadaeth bellach.

Mae'r sefydliad yn casglu ac yn cadw llai o ddata o gymharu ar gyfer y canlynol: priodas neu bartneriaeth sifil (nodwedd warchodedig mewn cyflogaeth yn unig); beichiogrwydd a mamolaeth; crefydd neu gred; cyfeiriadedd rhywiol. Ni fyddai'n briodol casglu rhywfaint o'r wybodaeth sensitif hon drwy ein harolygon poblogaeth presennol, er enghraifft, gyda phlant ifanc.

Rydym yn gyfyngedig mewn rhai ffyrdd i waith Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill. Er enghraifft, y ffynonellau tystiolaeth i greu fframiau sampl ar gyfer arolygon a'r gallu i newid cwestiynau mewn arolygon aml-randdeiliaid.

Rydym yn casglu ystod eang o wybodaeth drwy arolygon a rhai adroddiadau pwrpasol.

Fodd bynnag, mae lefel y manylder y gellir ei ddarparu yn dibynnu ar faint y sampl (sydd yn ei dro yn dibynnu ar y gyllideb) neu'n canolbwyntio ar faterion thematig penodol yn fanwl, gan wneud rhai canlyniadau'n archwiliadol yn hytrach na chynrychioliadol.

Mae lwfans ansicrwydd o fewn dulliau sy'n seiliedig ar arolygon yn ei gwneud yn anodd cymharu yn aml, ac mae angen dadbacio data ar gyfer dimensiynau lluosog. Gall hyn gyfyngu ar ddadansoddiad ar sail thema a chroestoriad pellach y themâu hyn. Gall dadansoddi is-genedlaethol fod yn anodd gyda daearyddiaeth lai hefyd.

Nid oes unrhyw ffordd strwythuredig a chydlynol o sicrhau bod cwestiynau arolwg yn cael eu seilio ar yr ymchwil diweddaraf ledled Cymru. Mae hyn yn arwain at gwestiynau tebyg a ofynnir mewn sawl ffordd ar draws arolygon lluosog. Mae angen safonau data cyffredin ar draws y sector cyhoeddus, o leiaf.

Efallai na fydd rhai dulliau yn gynaliadwy, e.e. defnyddio hawlwyr prydau ysgol am ddim cymwys (fel procsi o amddifadedd economaidd-gymdeithasol) oherwydd cyflwyno prydau ysgol am ddim cyffredinol i bob plentyn mewn ysgolion cynradd erbyn 2024.

Rydym yn ymdrechu i ailadrodd a gwella ein dulliau gweithredu lle bynnag y bo modd. Ceir tystiolaeth o hyn drwy'r broses ymgynghori a'r trafod parhaus gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer yr Arolwg Chwaraeon Ysgol. Hefyd, drwy ein gwaith i ehangu cyrhaeddiad ac effaith ein grantiau cymunedol drwy bartneriaeth gyda'r CDPS. Mae aelodau tîm Dirnadaeth Chwaraeon Cymru hefyd yn mynychu Pwyllgor Cyswllt Ystadegol Cymru (PCYC) a drefnir gan Lywodraeth Cymru yn rheolaidd.

Mae hyn yn helpu i hyrwyddo cyswllt ac ymgynghori ar ddata a materion ystadegol rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Cynhelir sawl cyfarfod y flwyddyn ac mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau o bob rhan o'r sector cyhoeddus. Yn ogystal, rydym hefyd yn rhan o'r Grŵp Cynhyrchwyr Ystadegau Swyddogol yng Nghymru.

Ar hyn o bryd nid ydym yn dod â'n holl ddirnadaeth at ei gilydd i greu crynodeb clir o'r data rydym yn eu casglu o safbwynt cydraddoldeb (h.y. nid ydym yn cadw ein holl ddata o arolygon ac o lefydd eraill mewn un ddogfen i greu'r darlun cyffredinol hwnnw). Mae'r Tîm Dirnadaeth yn treialu dull dangosfwrdd o weithredu ar hyn o bryd a fyddai'n helpu i ddarparu'r math yma o drosolwg gan ddefnyddio meddalwedd Power BI.

# CANLYNIADAU ARIANNOL AR GYFER Y FLWYDDYN

Roedd cyfanswm gwariant cynhwysfawr Chwaraeon Cymru ar ôl trethiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 yn £33,543,000 (2021/22 £40,329,000). Roedd y symudiad net ar y gronfa gyffredinol ar gyfer y flwyddyn (tudalen 132), ar ôl y cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru, yn £1,633,000 (2021/22 (£259,000)). Sicrhawyd y cynnydd o £1,633,000 ar ôl codi dibrisiant o £634,000 (2021/22 £607,000) a chynnwys yr ased hawl i ddefnydd prydles sy'n werth £1,898,000 sy'n ofynnol ar ôl gweithredu IFRS16.

Mae canlyniadau'r Ymddiriedolaeth wedi'u cyfuno yn y datganiadau ariannol hyn.

## Cynaliadwyedd (yn cynnwys yr Adroddiad Bioamrywiaeth)

Mae Chwaraeon Cymru wedi gosod cynaliadwyedd wrth galon ei flaenoriaethau yn 2022/23 gan ei fod am y tro cyntaf yn cael ei gynnwys fel un o chwe blaenoriaeth y cynllun busnes. Er mwyn rhoi'r flaenoriaeth hon ar waith, mae tîm amlswyddogaethol o staff o bob rhan o'r sefydliad wedi cael ei sefydlu, gyda chamau gweithredu i gyflawni a monitro meysydd allweddol sy'n cael eu trafod yn rheolaidd yn y tîm Arweinyddiaeth a'u hadrodd i'r Weithrediaeth a'r Bwrdd.

Un o ofynion allweddol blaenoriaeth y cynllun busnes oedd cynhyrchu dogfen arweiniol strategol gyntaf Chwaraeon Cymru ar gynaliadwyedd. Cyflawnwyd hyn ym mis Chwefror 2023 pan gyhoeddwyd Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol Chwaraeon Cymru. Roedd hwn yn nodi ymrwymiad Chwaraeon Cymru i chwarae ein rhan i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur a gwireddu uchelgais Llywodraeth Cymru ar gyfer sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030. Cynhyrchwyd y cynllun mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Garbon. Roedd cydweithredu arall yn hanfodol hefyd i ddatblygiad y cynllun gyda Chwaraeon Cymru yn defnyddio ei aelodaeth o'r Gynghrair Chwaraeon a Hinsawdd yr Amgylchedd (SECC), casgliad o sefydliadau chwaraeon yn y DU, ac yn ymgysylltu â'r sector chwaraeon yng Nghymru i ddeall y darlun cyfredol a phennu uchelgeisiau ar gyfer y dyfodol.

Mae'r cynllun yn pennu'r uchelgeisiau a ganlyn:

- Cyflawni sero net erbyn 2030.
- Bod yn sefydliad cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at yr amgylchedd a bioamrywiaeth.
- Darparu arweiniad a chefnogaeth i'r sector chwaraeon, gan ymestyn ein heffaith amgylcheddol y tu hwnt i'n ffin ni ein hunain fel sefydliad.

Wedyn mae'n datgan camau gweithredu manylach ar draws pum thema allweddol – Pobl; Partneriaid; Caffael; Llefydd; Prosesau.

Mae cynaliadwyedd wedi bod yn thema bwysig ar draws ein buddsoddiadau yn 2022/23. Mae Cronfa Cymru Actif a'n proses o fuddsoddiadau cyfalaf wedi cefnogi ystod eang o glybiau a safleoedd i ddatgarboneiddio a gwella eu heffeithlonrwydd ynni, gan leihau eu costau yn y tymor byr a'r tymor hir hefyd. Roedd y prosiectau a gefnogwyd yn cynnwys clybiau a chyfleusterau hamdden gyda gosodiadau paneli solar, goleuadau LED, ac ymrwymiad sylweddol i lifoleuadau ynni-effeithlon. Sefydlwyd dwy gronfa beilot hefyd gydag Undeb Rygbi Cymru a Chymdeithas Bêl-droed Cymru drwy

Sefydliad Pêl-droed Cymru, i fynd i'r afael â chynaliadwyedd yn unig. Llwyddodd pedwar deg un o glybiau i wella eu cynaliadwyedd a'u cyfleusterau cymunedol gyda'r cyllid hwn.

Yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru (CGChC) parhaodd y rhaglen newid goleuadau drwy osod goleuadau LED ynni isel yn lle'r goleuadau presennol yn y brif arena, ar y cae hoci ac ar y cyrtiau tennis.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i ddefnyddio fideo-gynadledda i gyfarfod yn rhithwir ac yn parhau i ddefnyddio gwahanol adnoddau meddalwedd i wella'r profiad i gyfranogwyr yn ystod cyfarfodydd ar-lein neu gyfarfodydd cyfunol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn parhau i gynnig Cynllun Beicio i'r Gwaith i gyflogeion, er mwyn lleihau'r defnydd o geir. Gall cyflogeion hawlio lwfans milltiredd o 20c y filltir ar gyfer pob siwrnai fusnes a wneir ar feic.

## Cynaliadwyedd amgylcheddol

Mae'r tablau canlynol yn cynnwys data holl swyddfeydd Chwaraeon Cymru a'r costau cysylltiedig.


| Gwastraff | | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn ariannol (tunelli) | Cyfanswm KG | 44,370 | 21,800 | 15,955 |

| Nwy Tŷ Gwydr | | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| $CO_2$ | Cyfanswm allyriadau crynswth ($CO_2$) | 439,439 | 613,428 | 585,565 |
| | Cyfanswm allyriadau net ($CO_2$) | 439,439 | 613,428 | 585,565 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 1 (uniongyrchol) | 191,753 | 367,960 | 389,429 |
| | Allyriadau crynswth, sgôp 2 | 247,686 | 245,468 | 196,136 |
| Defnydd o Ynni kWh | Trydan (heb fod yn adnewyddadwy) | 1,280,826 | 1,156,067 | 841,282 |
| | Trydan (adnewyddadwy) | 79,450 | 0 | 0 |
| | Nwy | 965,688 | 1,024,685 | 961,142 |
| | Olew Nwy | 64,800 | 707,389 | 840,100 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant – ynni | 253,118 | 261,933 | 241,796 |


| Adnoddau y mae pen draw iddynt | Dŵr | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| Heb fod yn ariannol ($M^3$) | Cyflenwyd | 13,514 | 7,081 | 4,362 |
| | Tynnwyd | 1,981 | 3,591 | 1,321 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Costau cyflenwi dŵr | 40,221 | 17,908 | 11,350 |

| Teithio | | 2022/23 | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|---|---|
| $CO_2$ | Rheilffordd | 2,235 | 777 | 0 |
| | Awyr | 8,304 | 251 | 0 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi/Bws ac ati) | 123 | 12 | 2 |
| | Defnydd o Gar Personol | 12,575 | 5,235 | 1,182 |
| | **Cyfanswm** | **23,237** | **6,275** | **1,184** |
| Cost | Rheilffordd | 15,004 | 4,960 | 0 |
| | Awyr | 3,488 | 119 | 0 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi/Bws ac ati) | 568 | 116 | 33 |
| | Defnydd o Gar Personol | 21,735 | 8,820 | 1,693 |
| | **Cyfanswm** | **40,795** | **14,015** | **1,726** |
| Milltiroedd | Rheilffordd | 39,361 | 13,683 | 0 |
| | Awyr | 30,881 | 638 | 0 |
| | Cwch | 0 | 0 | 0 |
| | Car (Tacsi/Bws ac ati) | 641 | 50 | 14 |
| | Defnydd o Gar Personol | 47,702 | 19,451 | 3,763 |
| | **Cyfanswm** | **118,585** | **33,822** | **3,777** |

## Allyriadau $Co_2$




## Dangosyddion Ariannol



## Adroddiad Bioamrywiaeth

Mae'r ymrwymiadau a'r uchelgais yn y Cynllun Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar fioamrywiaeth yn codi proffil ein dyletswydd bioamrywiaeth. Mae'r cynllun yn datgan ein nod o wella bioamrywiaeth a chefnogi'r sector chwaraeon yng Nghymru i wneud gwelliannau mewn bioamrywiaeth. Mae'r camau gweithredu cychwynnol yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth, addysg a hyfforddiant ein staff ein hunain a thrwy weithio gyda'n partneriaid, nodi, hwyluso neu gyfeirio cyfleoedd dysgu i'r sector ehangach. Wrth i'r ymwybyddiaeth yma ddatblygu, bydd angen i ni sicrhau bod gan y sector fynediad at yr wybodaeth a'r adnoddau i roi cyngor clir a syml i glybiau a chyfleusterau ar sut gallant gynnal a gwella bioamrywiaeth.

Mae'r cynllun yn ymrwymo Chwaraeon Cymru i wella bioamrywiaeth ym mhob un o'n safleoedd gan ymestyn ardaloedd ar gyfer pryfed peillio; cynnal coed a chynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt i ddenu rhywogaethau brodorol; parhau i leihau'r defnydd o chwynladdwyr a chemegau ar safleoedd a chynnal ansawdd dŵr.

Drwy bartneriaeth gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru, cyllidodd y prosiect cynaliadwyedd ddau glwb pêl-droed i ganolbwyntio ar fioamrywiaeth. Mae'r prosiectau ar gyfer plannu dôl blodau gwyllt a phlannu coed ar eu tiroedd.

Mae Golff Cymru wedi parhau i chwarae rhan flaenllaw yn natblygiad bioamrywiaeth yn y sector chwaraeon gyda'i bartneriaid yng nghlybiau golff Cymru, ac arbenigedd sefydliadau golff sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd. Arweiniodd y buddsoddiad a dderbyniwyd at saith ar hugain o glybiau'n cyflwyno prosiectau cynaliadwyedd yn ystod y flwyddyn. O blith y rhain, roedd pymtheg o brosiectau'n canolbwyntio ar y thema Meithrin Natur i wella bioamrywiaeth. Roedd y prosiectau'n cynnwys clybiau'n ymrwymo ardaloedd sylweddol i flodau gwyllt neu i ailwylltio; gwelliannau i gynefinoedd ar dir gwarchodedig neu i rywogaethau a warchodir, a chlybiau'n cydweithio ag ymddiriedolaethau natur a sefydliadau bywyd gwyllt.

Nod Chwaraeon Cymru yw gwneud gwaith dilynol ar brosiectau bioamrywiaeth yn y sector chwaraeon i ddeall yr hyn a ddysgwyd a sut gwnaeth y prosiectau gynnydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol gan mai megis dechrau mae'r buddsoddiad mewn prosiectau bioamrywiaeth.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
**B Davies**
19 Hydref 2023

# ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

## ADRODDIAD LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## ADRODDIAD Y CYFARWYDDWYR

### Y BWRDD

Yn ystod 2022/23, roedd Chwaraeon Cymru yn cynnwys yr aelodau bwrdd canlynol;

- **Lawrence Conway**** (Cadeirydd Ailbenodwyd 01.09.2021 - 03.07.2022)
- **Y Farwnes Tanni Grey Thompson DBE DL**** (Cadeirydd Penodwyd 04.07.2022)
- **Pippa Britton**/***** (Is Gadeirydd Ailbenodwyd 01.10.2020)
- **Ashok Ahir*/***** (Ailbenodwyd 01.10.2020)
- **Ian Bancroft** (Ailbenodwyd 01.10.2020)
- **Alison Thorne*/***** (Ailbenodwyd 01.10.2020)
- **Judi Rhys MBE***** (Ailbenodwyd 01.09.2021)
- **Yr Athro Leigh Robinson***** (Ailbenodwyd 01.09.2021)
- **Phil Tilley** (Ailbenodwyd 01.09.2021)
- **Martin Veale YH */**/***** (Ailbenodwyd 01.09.2021)
- **Rajma Begum***** (Ailbenodwyd 01.09.2022)
- **Hannah Bruce (Murphy gynt)** (Ailbenodwyd 01.09.2022)
- **Delyth Evans** (Ailbenodwyd 01.09.2022)
- **Nicola Mead-Batten*** (Ailbenodwyd 01.09.2022)
- **Dafydd Trystan Davies** (Ailbenodwyd 01.09.2022)

- **Prif Weithredwr Dros Dro B Davies OBE** (Gweithredol 01.04.2022 i 26.03.2023)
- **Prif Weithredwr B Davies OBE** (Gweithredol o 27.03.2023)

* Aelod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

** Aelod o'r Pwyllgor Tâl

*** Aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Penodir holl aelodau'r Bwrdd am gyfnod cychwynnol o dair blynedd a gallant wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

## Datgan buddiannau

Mae holl Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru wedi llenwi ffurflen datgan buddiannau gynhwysfawr, yn manylu ar unrhyw fuddiannau sydd ganddynt mewn sefydliadau sy'n darparu, neu'n ceisio darparu, gwasanaethau masnachol i Chwaraeon Cymru ar gyfer 2022/23. Mae'r wybodaeth a ddarperir, sy'n galw am ddatgeliad yn unol â Safon Gyfrifo Ryngwladol 24 ('Datgeliadau Partïon Cysylltiedig') yn cael ei datgelu yn Nodyn 20 y datganiadau ariannol hyn.

## Digwyddiadau cysylltiedig â data personol

Mae gan Chwaraeon Cymru fesurau rheoli a pholisïau yn eu lle i sicrhau integriti'r data. Mae'r systemau Technoleg Gwybodaeth yn sicrhau mesurau llym o ran rheoli diogelwch ffisegol data. Cyn belled ag y gwyddom ni, ni chollwyd unrhyw ddata yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu.

## Canfod a rheoli risg

Ceir manylion am Reoli Risg yn adran Rheoli Risg y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar dudalen 110.

## Polisi talu cyflenwyr a'r perfformiad a gyflawnwyd

O dan Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog) 1998 ac yn unol â'r Cod Ymarfer Talu Gwell (sydd ar gael yn www.payontime.co.uk), mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru dalu anfonebau cyflenwyr nad oes anghydfod yn eu cylch o fewn 30 diwrnod i dderbyn y nwyddau neu'r gwasanaethau neu anfoneb ddilys, pa un bynnag yw'r hwyraf.

Nod Chwaraeon Cymru yw talu pob un o'i anfonebau, gan gynnwys yr anfonebau y mae anghydfod yn eu cylch, unwaith y mae'r anghydfod wedi cael ei setlo, yn unol â'r telerau hyn. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023, talodd Chwaraeon Cymru 100% (2021/22 100%) o'i holl anfonebau gan gadw at delerau ei bolisi talu. Ni chodwyd unrhyw log yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i daliadau hwyr. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn anelu at dalu i gyflenwyr, pan fo modd, o fewn 10 diwrnod yn unol â'r canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016. Yn ystod 2022/23, talwyd 95% (2021/22 93%) o'r trafodion o fewn yr amserlen hon.

## Offerynnau ariannol

Ceir manylion yr offerynnau ariannol yn nodyn 1.12 y datganiadau ariannol.

## Tâl archwilwyr

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn goruchwylio natur a maint y gwaith heb fod yn archwilio a wneir gan Archwilio Cymru a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ein harchwilwyr allanol. Yn ystod 2022/23, ni wnaed unrhyw waith heb fod yn waith archwilio gan ein harchwilwyr. Datgelir y ffi archwilio yn nodyn 7 yn y datganiadau ariannol.

Datganiad ar Ddatgelu Gwybodaeth Archwilio Berthnasol

1. Cyn belled ag y gŵyr y Swyddog Cyfrifo, nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, ac
2. Mae'r Swyddog Cyfrifo wedi cymryd pob cam angenrheidiol er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio ac er mwyn sefydlu bod yr archwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr

O dan y Siarter Brenhinol, dyddiedig 4 Chwefror 1974, mae'n ofynnol i Gyngor Chwaraeon Cymru (Chwaraeon Cymru) baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar ffurf ac ar sail a benderfynir gan Lywodraeth Cymru, gyda chaniatâd y Trysorlys. Paratoir y cyfrifon ar sail gronnol ac mae'n rhaid iddynt gyflwyno darlun cywir a theg o faterion Chwaraeon Cymru ar ddiwedd y flwyddyn, gan gynnwys ei wariant net, y newidiadau mewn ecwiti a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth Trysorlys EM ac, yn arbennig, cyflawni'r canlynol:

- Cadw at y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru a'r Adran ar gyfer Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas ar sail gyson;
- Gwneud penderfyniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- Datgan a gadwyd at safonau cyfrifo priodol, a datgelu ac egluro unrhyw wyro sylfaenol yn y datganiadau ariannol;
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol rhagdybio y bydd yr endid yn parhau i weithredu; a
- Sicrhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifo ar gyfer Gweinidogion Cymru wedi penodi'r Prif Weithredwr fel Swyddog Cyfrifo Chwaraeon Cymru. Mae'r cyfrifoldebau fel Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys y cyfrifoldeb am briodolrwydd a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol ac am ddiogelu asedau Chwaraeon Cymru, wedi'u datgan ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifo a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
**B Davies**
19 Hydref 2023

# DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2022/23

## Cyflwyniad

Mae'r Datganiad Llywodraethu'n dwyn at ei gilydd i un lle bob datgeliad am faterion perthnasol i lywodraethu sefydliad, risg a rheolaeth. Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf i'n bersonol gyfrifol am y Datganiad Llywodraethu sy'n amlinellu sut rwyf wedi defnyddio fy nghyfrifoldeb i reoli adnoddau Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn.

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi adolygu'r Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer Da 2017 ac yn credu bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio'n llawn ag elfennau perthnasol y cod mewn perthynas â'i swyddogaethau Trysorlys a Loteri.

# LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

## Y Bwrdd

Llywodraethu Corfforaethol yw'r system ar gyfer cyfarwyddo a rheoli sefydliadau. Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn gyfrifol am lywodraethu Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Rôl y Bwrdd yw ei fodloni ei hun bod strwythur llywodraethu priodol yn ei le a chraffu ar berfformiad y pwyllgor gweithredol a gwaith y sefydliad yn cyflawni Strategaeth Chwaraeon Cymru.

Mae Bwrdd Chwaraeon Cymru yn cynnwys Cadeirydd, Is Gadeirydd a hyd at ddeuddeg aelod arall ac fe'u penodir i gyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cynnwys cynrychiolaeth o ystod eang o wahanol broffesiynau ac aelodau sydd ag arbenigedd a phrofiad perthnasol i chwaraeon cymunedol ac elitaidd, yn ogystal â'r gyfres ehangach o sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer rôl o'r natur hon. Cedwir matrics sgiliau'r Bwrdd i sicrhau bod gan y Bwrdd y cyfuniad cywir o sgiliau a phrofiad.

Dechreuodd y Farwnes Tanni Grey Thompson ar ei chyfnod fel Cadeirydd o 4 Gorffennaf 2022. Hoffai Chwaraeon Cymru gofnodi ei fod yn diolch i'r Cadeirydd yn gadael, Lawrence Conway, am ei wasanaeth ymroddedig yn helpu i siapio a sbarduno'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon a strategaeth Chwaraeon Cymru, gan ddarparu seiliau cadarn ar gyfer y dyfodol. Ni phenodwyd unrhyw aelod arall o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn.

Yn dilyn proses recriwtio gystadleuol a thrylwyr o dan arweiniad ymgynghorwyr annibynnol, penodwyd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro cyfredol, Brian Davies, yn llwyddiannus i rôl y Prif Swyddog Gweithredol o fis Mawrth 2023 ymlaen.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i gydraddoldeb ac amrywiaeth ei Fwrdd, sydd bellach yn cynnwys cynrychiolaeth o 64% o ferched, 14% o bobl ethnig amrywiol ac mae 14% yn ystyried eu hunain fel unigolion ag anabledd.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau a chael y sicrwydd sy'n ofynnol bod arferion llywodraethu da yn eu lle, mae tri phwyllgor parhaol wedi'u sefydlu; Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, y Pwyllgor Tâl a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

Dangosir y presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd a'i bwyllgorau parhaol yn y tabl isod.

| **Aelod Bwrdd** | **Cyfarfod Bwrdd** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 5) | **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 4) | **Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 3) | **Pwyllgor Tâl** (Nifer y cyfarfodydd a fynychwyd allan o 1) |
|---|---|---|---|---|
| Lawrence Conway (Cadeirydd) | 1 / 1 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson, DBE, DL (Cadeirydd) | 4 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol | 1/1 |
| Pippa Britton (Is Gadeirydd) | 5 / 5 | Amherthnasol | 2/3 | 0/1 |
| Ashok Ahir | 4 / 5 | 3 / 4 | 2/3 | Amherthnasol |
| Ian Bancroft | 4 / 5 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Alison Thorne | 4 / 5 | 3 / 4 | 1/3 | Amherthnasol |
| Judi Rhys MBE | 5 / 5 | Amherthnasol | 1/3 | Amherthnasol |
| Yr Athro Leigh Robinson | 4 / 5 | Amherthnasol | 3/3 | Amherthnasol |
| Phil Tilley | 5 / 5 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Martin Veale YH | 5 / 5 | 4 / 4 | 3/3 | 1/1 |
| Rajma Begum | 4 / 5 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Dafydd Trystan Davies | 5 / 5 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Hannah Bruce | 5 / 5 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Delyth Evans | 4 / 5 | Amherthnasol | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Nicola Mead-Batten | 5 / 5 | 3 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **(Aelodau annibynnol – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn unig)** | | | | |
| Robert Williams | Amherthnasol | 3 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Hywel Tudor | Amherthnasol | 3 / 4 | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Canran Gyffredinol y Gyfradd Bresenoldeb** | **91%** | **79%** | **67%** | **67%** |

## Polisi Chwythu'r Chwiban

Mae gan Chwaraeon Cymru Bolisi Chwythu'r Chwiban sydd wedi'i sefydlu a'i gymeradwyo gan y Bwrdd. Tynnir sylw at y Polisi hwn wrth groesawu staff ac aelodau i'r sefydliad ac mae'r manylion i'w gweld yn Llawlyfr y Staff. Yn ystod 2022/23, ni roddwyd gwybod am unrhyw ddigwyddiadau. Rydym yn credu bod y polisi'n effeithiol ac mae gan y staff fynediad llawn iddo, os oes angen. Mae'r polisi'n cael ei adolygu'n achlysurol, gyda Llawlyfr y Staff. Ymdrinnir â chwythu'r chwiban allanol drwy ein Polisi Cwynion, sydd ar gael ar ein gwefan. Ni adroddwyd am unrhyw ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i'w gefnogi yn benodol gyda chyflawni ei gyfrifoldebau ym maes risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu, drwy gyfrwng y canlynol:

- Adolygu pa mor gynhwysfawr yw'r prosesau, y mesurau rheoli a'r mesurau eraill cyfredol o ran diwallu anghenion sicrwydd y Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo;
- Adolygu dibynadwyedd ac integriti'r sicrwydd a ddarperir gan y weithrediaeth a'r archwilwyr mewnol ac allanol;
- Cyflwyno barn ar ba mor dda mae'r Bwrdd a'r Swyddog Cyfrifo'n cael eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau a chyflawni eu rhwymedigaethau atebolrwydd (yn enwedig o ran Cofnodion Ariannol); a
- Sicrhau bod y risgiau y tynnir sylw atynt yn cael eu neilltuo i aelodau'r Tîm Arweinyddiaeth ac y manylir ar gamau gweithredu priodol i liniaru ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn cynnwys hyd at saith aelod, gyda dau'n gallu bod yn annibynnol, ac mae angen o leiaf un aelod annibynnol. Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn, roedd meysydd ffocws y Pwyllgor yn cynnwys (ond nid oeddent yn gyfyngedig i) y canlynol:

- Gweithredu ac effeithiolrwydd y rheoli risg;
- Adroddiadau archwilio mewnol yn rhoi sylw i feysydd busnes penodol ac adroddiad yr archwiliad mewnol blynyddol;
- Yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol a'u fformat;
- Arsylwadau a wnaed gan archwiliad allanol, yn enwedig y llythyr rheoli blynyddol;
- Cydymffurfiaeth â'r Ddogfen Fframwaith a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chydymffurfiaeth â Datganiad y Loteri o Ofynion Ariannol a gyhoeddwyd gan DCMS;
- Cydymffurfiaeth reoleiddio;
- Adolygu cyllid grant;
- Adolygu systemau ariannol craidd;
- Adolygu costau aelodau'r Bwrdd;
- Adolygu'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch;
- Cytuno ar Gynllun Archwilio Mewnol y flwyddyn; a
- Monitro perfformiad archwilio mewnol ac allanol.

Derbyniodd y Bwrdd gofnodion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ym mhob cyfarfod ac mae'n cael cyngor Cadeirydd y Pwyllgor mewn perthynas ag unrhyw faterion arwyddocaol. Hefyd mae'r Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad blynyddol ffurfiol ar waith y Pwyllgor i'r Bwrdd. Mae'r systemau TG yn sicrhau bod diogelwch ffisegol data yn cael ei reoli.

Yn 2022/23, nid oedd unrhyw faterion risg gwybodaeth, gwendidau rheoli arwyddocaol na thwyll wedi'u canfod ac roedd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn fodlon bod lefel y risg yn dderbyniol ac yn cael ei rheoli mewn ffordd briodol.

## Y Pwyllgor Tâl

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cyfarfod i adolygu ac argymell ar gyfer cymeradwyaeth i Lywodraeth Cymru gyflog y Prif Weithredwr a'r dyfarniad tâl blynyddol ar gyfer y staff i gyd drwy gyfrwng proses cylch gwaith tâl Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o fanylion ar gael yn yr Adroddiad Tâl a Staff ar dudalen 114. Cyfarfu'r pwyllgor un waith yn ystod y flwyddyn.

## Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Sefydlwyd y Pwyllgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i herio, cefnogi a goruchwylio gwaith Chwaraeon Cymru wrth gyflawni ei Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb yn fewnol ac o ran ei gefnogaeth i'r sector. Cyfarfu'r pwyllgor dair gwaith.

## Yr Uwch Dîm Rheoli Gweithredol

Mae'r Weithrediaeth, o dan arweiniad y Prif Weithredwr, yn atebol i'r Bwrdd am ddatblygu a gweithredu strategaethau a pholisïau ac adrodd yn ôl arnynt.

Roedd trefniadau dros dro o'r flwyddyn flaenorol yn parhau yn eu lle gyda Brian Davies yn rôl y Prif Weithredwr Dros Dro ac Owen Lewis a Joanne Nicholas yn ymuno â'r Weithrediaeth fel rhan o'r trefniadau hyn. Mae Emma Wilkins a Graham Williams yn parhau'n aelodau o'r Weithrediaeth.

Yn dilyn proses recriwtio gystadleuol a thrylwyr o dan arweiniad ymgynghorwyr annibynnol, penodwyd y Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro cyfredol, Brian Davies, yn llwyddiannus i rôl y Prif Swyddog Gweithredol o fis Mawrth 2023 ymlaen. Mae Owen Lewis a Joanne Nicholas yn parhau'n aelodau o'r Weithrediaeth nes bod rôl y Cyfarwyddwr: System Chwaraeon wedi'i llenwi yn barhaol.

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos fel rheol, i drafod a chytuno ar faterion corfforaethol. Mae'r cynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes yn cael ei adrodd a'i fonitro drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau

Yn dilyn cytundeb yn 2021/22, parhawyd i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd mewn dull hybrid. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd yn rheolaidd adlewyrchu ar sut gellid gwella strwythur y cyfarfodydd hyn a chafodd newidiadau ymarferol eu hymgorffori i ganiatáu i gyfarfodydd gael eu cynnal yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn cael ei adolygu yn achlysurol fel rhan o Amserlen Fusnes y Bwrdd.

Cynhaliwyd adolygiad effeithiolrwydd yn ystod y flwyddyn ac, o ganlyniad, cyflwynwyd nifer o newidiadau ymarferol o ran datblygu'r Bwrdd a datblygiad personol aelodau'r Bwrdd. Wedi'i gynnwys yn hyn roedd cynllunio olyniaeth ar gyfer rôl Cadeiryddion yr is-grŵpiau ac ymgysylltu'n anffurfiol â staff ar draws Chwaraeon Cymru yn dilyn cyfarfodydd Bwrdd.

Hefyd, cynhaliwyd nifer o sesiynau datblygu Bwrdd yn ystod y flwyddyn ar bynciau'n amrywio o Gynaliadwyedd a Datgarboneiddio i wella cyrhaeddiad ac effaith ein Buddsoddiadau Cymunedol.

Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gefnogi'r Tîm Gweithredol a phenderfynodd yn ystod y flwyddyn enwebu aelodau unigol o'r Bwrdd i weithio'n agos gydag aelodau o'r Weithrediaeth ar bob prosiect mawr, drwy sefydlu a / neu barhad nifer o Grwpiau Gorchwyl a Gorffen.

Caiff penderfyniadau a wneir gan y Bwrdd a'r is-bwyllgorau eu seilio ar gyngor a ddarperir gan staff Chwaraeon Cymru. Disgwylir i bapurau ac adroddiadau a gynhyrchir gan swyddogion ddangos yn glir yr holl wybodaeth berthnasol sydd ei hangen er mwyn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus. Dosberthir papurau cyn pob cyfarfod o'r Cyngor a'r Pwyllgorau; dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y derbynnir eitemau a gyflwynir ac adroddiadau llafar. Roedd y Bwrdd yn fodlon yn ystod y flwyddyn gydag amseroldeb ac ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer ei ddefnydd.

# RHEOLI RISG

## Pwrpas y system o reolaeth fewnol

Pwrpas y system o reolaeth fewnol yw rheoli a chyfyngu ar risg ond ni all fyth ei dileu. Felly, dim ond sicrwydd rhesymol, ac nid absoliwt, y mae'n gallu ei ddarparu. Seilir y system o reolaeth fewnol ar broses barhaus o ganfod a rhoi blaenoriaeth i'r risgiau o ran cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru, gwerthuso'r tebygolrwydd i'r risgiau hyn gael eu gwireddu, a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn economaidd.

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn Chwaraeon Cymru drwy gydol y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Yn olaf, mae'r system o reolaeth fewnol yn darparu sicrwydd rhesymol bod Chwaraeon Cymru wedi cydymffurfio â chyfarwyddiadau ariannol y Loteri Genedlaethol a bod prosesau digonol yn eu lle ar gyfer canfod gwrthdaro rhwng buddiannau a lleihau colledion o ran grantiau Loteri.

## Y Gallu i Ddelio â Risg

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn bersonol gyfrifol am sicrhau bod gan Chwaraeon Cymru broses rheoli risg effeithiol yn ei lle. Goruchwylir y broses hon gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Fel sefydliad, rydym yn monitro pob risg allweddol drwy ddefnydd priodol o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol. Rydym wedi cofnodi Polisi a Strategaeth Rheoli Risg sy'n cynnwys diffiniadau perthnasol i reoli risg a hefyd mae'r polisi'n datgan sut dylid canfod, cofnodi, dadansoddi a rheoli risg.

Mae risgiau corfforaethol, a'r mesurau rheoli a weithredir i'w lliniaru, yn cael eu neilltuo i reolwr priodol neu aelod priodol o'r Weithrediaeth a'u rheoli ganddo, neu, mewn rhai achosion, gan y Swyddog Cyfrifo. Mae risgiau gweithredu yn gyfrifoldeb y penaethiaid adran perthnasol ac efallai y bydd y gwaith o reoli risg o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i'r staff maent yn eu rheoli.

Canfyddir risgiau newydd gan swyddogion Chwaraeon Cymru, adran graffu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg neu'r Bwrdd ei hun. Ar ôl canfod risg newydd, mae'n cael ei gosod ar y Gofrestr Risg briodol, ei hasesu, ei sgorio a'i neilltuo i sylw aelod o'r tîm Gweithredol a / neu reolwr priodol.

## Y Fframwaith Risg a Rheoli

Mae rheoli risg wedi'i ymgorffori yn strwythurau rheoli Chwaraeon Cymru. Mae mwyafrif y risgiau a nodir yn deillio o nodau sefydliadol ac o broses cynllunio busnes Chwaraeon Cymru.

Mae'r Gofrestr Risg yn ateb electronig sydd ar gael i holl gyflogeion Chwaraeon Cymru drwy gyfrwng porthol ar-lein, gyda'r hawliau golygu wedi'u cyfyngu i reolwyr perthnasol. Mae'r Gofrestr Risg yn cofnodi risgiau corfforaethol sylweddol, gan gynnwys risgiau i wybodaeth, asesiad cyffredinol o effaith debygol a thebygolrwydd, mesurau rheoli a, lle bo angen, rhestr o fesurau gweithredu yn y dyfodol. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn rheolaidd gan yr Uwch Reolwyr, y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Hefyd mae'r rheolwyr yn rhoi cyflwyniad yn eu tro i'r Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg ar eu meysydd risg penodol a sut maent yn rheoli neu'n lliniaru'r risgiau hynny.

Mae trefniadau rheoli risg Chwaraeon Cymru yn cael eu harchwilio'n fewnol yn flynyddol a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

## Risgiau Allweddol

Mae risgiau i weithgareddau strategol a gweithredol allweddol yn cael eu datgan, eu gwerthuso a'u hystyried gan y Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg, a gweithredir i'w lliniaru. Adolygir y Risgiau Corfforaethol a'r camau gweithredu i'w lliniaru yn rheolaidd. Dylanwedir ar y rhaglen archwilio fewnol gan y risgiau a gofnodir ar y Gofrestr Risg ac, os yw hynny'n briodol, mae'r archwilwyr yn cyflwyno argymhellion i roi sylw i unrhyw risg neu ganfod rhai newydd. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn adolygu'r argymhellion hyn ym mhob cyfarfod pwyllgor ac yn trafod ac yn rhoi adborth i'r Weithrediaeth.

Ar y dyddiad adrodd, mae nifer o risgiau allweddol wedi cael eu datgan a'u cynnwys ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Mae risg sylweddol y gallai costau byw cynyddol effeithio'n niweidiol ar gyflawni strategaeth Chwaraeon Cymru, oherwydd gallai'r sector ymateb drwy leihau gweithgareddau, cwtogi ar oriau agor neu gynyddu costau. Mae hyn yn debygol o gael mwy o effaith ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan leihau hygyrchedd i chwaraeon.

Ar thema debyg, er bod Chwaraeon Cymru yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am gyllideb uwch ar gyfer 2023/24, mae'r costau sy'n gysylltiedig â chostau byw uwch yn parhau i fod yn her i gyflawni amcanion Chwaraeon Cymru yn effeithiol. Gall costau byw cynyddol gael effaith niweidiol ar staff Chwaraeon Cymru hefyd, yn enwedig cyflogeion ar gyflogau is.

Mae'r tebygolrwydd o farwolaeth neu anaf difrifol ar safle a weithredir gan Chwaraeon Cymru wedi lleihau o ganlyniad i'r bartneriaeth a gomisiynwyd gyda Parkwood i redeg gweithrediadau Plas Menai. Mae Rheoli Risg, gan gynnwys pob agwedd ar iechyd a diogelwch, yn gyfrifoldeb cytundebol i Parkwood Leisure bellach, sydd ag Atebolrwydd Cyhoeddus ar waith i liniaru effaith ariannol bosibl y risg hon. O ystyried natur ein partneriaeth strategol gyda Parkwood Leisure, mae risg i enw da Chwaraeon Cymru o hyd pe bai marwolaeth neu anaf difrifol yn digwydd ym Mhlas Menai.

Mae'r risgiau eraill ar y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys methiant i gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth, colli gwybodaeth sensitif neu ddigwyddiad seibr, a diffyg ymgysylltu ymhlith staff wrth i ni ddatblygu strategaeth hirdymor ar gyfer gweithio hybrid.

Mae gan Chwaraeon Cymru agwedd ddoeth a deallus at gymryd risg yn gyffredinol, er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Y Bwrdd sy'n rheoli'r dyhead risg a chaiff ei adolygu'n flynyddol. Os oes risg sylweddol yn codi, bydd Chwaraeon Cymru yn gweithredu'n effeithiol i'w lleihau ac yn rheoli'r risgiau hyn i lefel briodol. Mae'r Weithrediaeth a'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen am arloesi ymhellach ac yn gyflymach yn y dyfodol ac, i'r diben hwn, mae'n edrych ar wahanol fecanweithiau a phartneriaid cyflawni. Bydd hyn yn creu risgiau newydd a gwahanol ac yn gallu cynyddu lefel y risg y mae Chwaraeon Cymru yn ei chymryd. Felly, efallai y bydd dyhead risg Chwaraeon Cymru yn codi, ond dim ond oddi mewn i amgylchedd risg doeth ac wedi'i reoli.

Mae'r Archwilwyr Mewnol wedi rhoi "sicrwydd sylweddol" cyffredinol i Chwaraeon Cymru fel gradd ar gyfer y flwyddyn. Hefyd maent wedi rhoi'r categori gradd uchaf i drefniadau llywodraethu corfforaethol a rheoli risg Chwaraeon Cymru.

Mae'n galonogol nodi nad oedd unrhyw ganfyddiadau a gafodd eu dosbarthu fel risg "uchel" yn codi o'r gwaith archwilio mewnol. Gwnaed cyfanswm o 14 o argymhellion ac o blith y rhain cafodd 5 eu dosbarthu fel "blaenoriaeth ganolig" a'r 9 yn weddill eu dosbarthu fel "blaenoriaeth isel", ynghyd â 6 phwynt gweithredu o adroddiadau cynghori.

O ran gweithredu dilynol, roedd 5 allan o'r 7 argymhelliad blaenorol a wnaed wedi cael eu gweithredu adeg yr archwiliad. Ailaseswyd amserlen yr argymhellion oedd yn weddill gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ac maent ar darged i gael eu cwblhau yn unol â'r disgwyliadau hynny.

Mae'r holl argymhellion a wneir gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol yn cael eu monitro gan ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu'n amserol.

## Monitro Grantiau

Mae mwyafrif cyllid Chwaraeon Cymru yn cael ei wario drwy ddyfarnu grantiau. Dyfernir grantiau ar sail meini prawf buddsoddi clir ar gyfer allbynnau a chanlyniadau chwaraeon allweddol ac mae Model Buddsoddi ar gyfer sut rydym yn dosbarthu cyllid i bartneriaid sy'n cael eu sbarduno gan ddata wedi cael ei weithredu'n llawn bellach. Mae Chwaraeon Cymru yn cymryd camau priodol i fonitro'r defnydd o ddyfarniadau o'r fath drwy ofyn am adroddiadau ffurfiol gan y rhai sy'n eu derbyn, yn ogystal â thrafod yn barhaus â phartneriaid allweddol er mwyn casglu gwybodaeth anffurfiol. Hefyd, ceir meini prawf cysoni penodol ac os yw'r gwariant yn amrywio o lefel y grant sydd wedi'i ddyfarnu, mae Chwaraeon Cymru yn ymarfer ei hawl i ofyn am symiau o'r fath yn eu hôl.

Caiff prosesau dyfarnu a monitro grantiau eu hadolygu'n flynyddol gan ein harchwilwyr mewnol. Mae Archwilio Cymru hefyd yn archwilio ein gweithgareddau dyfarnu grantiau bob blwyddyn.

## Rheolaeth Fewnol

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawni polisïau, amcanion a nodau Chwaraeon Cymru. Hefyd, mae gennyf gyfrifoldeb personol am ddiogelu elw'r Loteri Genedlaethol a ddosberthir i Chwaraeon Cymru ac asedau Chwaraeon Cymru, yn unol â'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo i mi wrth Reoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Goruchwylir hyn gan y Bwrdd, drwy gyfrwng y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. Yn sail i'm hadolygiad mae gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol a'r cyflwyniadau staff i Grŵp Rheoli a Sicrwydd Risg Chwaraeon Cymru, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheoli mewnol. Rwyf yn bwriadu rhoi sylw i wendidau a sicrhau gwelliant parhaus y systemau hyn.

Darparwyd gwasanaeth archwilio mewnol Chwaraeon Cymru yn ystod 2022/23 gan Deloitte LLP, a weithredodd yn unol â'r safonau a ddiffinnir yn y Safonau Archwilio Mewnol ar gyfer y Sector Cyhoeddus. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd fel rhan o archwiliadau mewnol, i ddarparu barn flynyddol annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd systemau rheolaeth fewnol a rheoli risg Chwaraeon Cymru, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn llunio Adroddiad Blynyddol ar ei waith i Fwrdd Chwaraeon Cymru.

## Datblygiadau Parhaus

Er bod y system gyfredol o reolaeth fewnol yn un gadarn, nid ydym yn gorffwys ar ein rhwyfau, ac fel rhan o'n hethos o welliant parhaus, rydym yn adolygu'r meysydd rydym yn credu y gallem eu gwella ac yn cymryd camau i greu newid.

Gan adeiladu ar waith y llynedd, eleni gwelwyd ffocws pellach ar ddiogelwch gwybodaeth a seibr, gan gynnwys gweithredu meddalwedd seibrddiogelwch, sy'n cyfuno dysgu am beiriannau a chefnogaeth barhaus i wella ein gwytnwch.

Rydym hefyd wedi rhoi system gyllid newydd ar waith i gryfhau ymhellach amgylchedd rheoli system graidd. Mae'r system newydd hon yn seiliedig ar y cwmwl ac felly'n lleihau ein dibyniaeth ar weinyddion etifeddol o fewn y sefydliad, un o'r prif rwystrau i ni sicrhau achrediad Cyber Essentials Plus.

Rydym hefyd wedi parhau â chymorth seibrddiogelwch a llywodraethu ychwanegol i'r sector yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gryfhau'r mesurau rheoli sydd ar waith i reoli'r risg sy'n gynhenid wrth fuddsoddi cyllid cyhoeddus mewn sefydliadau trydydd parti, gan hefyd gynyddu eu hatebolrwydd.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
**B Davies**
19 Hydref 2023

# ADRODDIAD TÂL A STAFF

Mae gan Chwaraeon Cymru ystod helaeth o bolisïau sy'n adlewyrchu'r ddeddfwriaeth gyfredol ac mae'n anelu at sicrhau cadw a chymell. Adolygir y polisïau hyn yn rheolaidd gan gynnwys y staff drwy gytundeb cydnabod gyda'n Hundeb Llafur cydnabyddedig, Undeb y Gwasanaethau Cyhoeddus a Masnachol (PCS). Cynhelir asesiad llawn o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi fel rhan o'r broses hon. Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i bolisi cyfle cyfartal yn ei arferion cyflogaeth. Yn benodol, mae Chwaraeon Cymru yn ceisio sicrhau nad oes unrhyw ddarpar gyflogai neu gyflogai presennol yn cael ei drin yn llai ffafriol ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, rhywedd, statws priodasol neu fel rhiant, cenedligrwydd, cred wleidyddol, hil, crefydd neu gyfeiriadedd rhywiol. Rydym yn Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd ar Lefel 2 ac rydym hefyd wedi llofnodi Siarter Hil yn y Gwaith Busnes yn y Gymuned.

Ar ôl gweithredu'r strwythur tâl a graddfa newydd yn llwyddiannus o fis Medi 2019 ymlaen, mae gan y cyflogeion ddewis i naill ai aros gyda'r telerau cyfredol neu optio i mewn i'r strwythur newydd a chael mynediad at fanteision hyblyg uwch.

Gwnaethom barhau i fod yn gyflogwr Cyflog Byw gyda chyflog cychwynnol o £11.51 yr awr o leiaf. Dyfarnwyd dyfarniad tâl o 4% i'r holl staff yn ystod y flwyddyn i helpu gyda'r cynnydd mewn costau byw.

Yn ogystal â hyn, rhoddodd Chwaraeon Cymru broses cydraddoldeb cyflog ar waith yn ystod y flwyddyn a oedd yn sicrhau bod ein holl staff yn derbyn "yr isafswm cyflog o leiaf ar gyfer graddfa gyfatebol Llywodraeth Cymru". Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar gyflogau 30 o staff, gyda 77% o'r rhai a effeithiwyd yn dod o fewn ein 3 band cyflog isaf.

Roedd trosiant y staff ar gyfer 2022/23 yn 34.96% (2021/22 14.05%). Disgwyliwyd y cynnydd mawr hwn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd trosglwyddiad TUPE staff i Legacy Leisure fel rhan o bartneriaeth a gomisiynwyd gan Blas Menai. Roedd y trosiant heb gynnwys y trosglwyddiad TUPE yn 20.63%. Nid oedd unrhyw ddiswyddiadau yn ystod y flwyddyn.

## Data Absenoldeb Salwch

Mae data salwch cyflogeion y sefydliad cyfan ar gyfer 2022/23 (2021/2022) fel a ganlyn:

| Cyfanswm y Dyddiau a Gollwyd | Cyfanswm y Cyflogeion (Cyfwerth ag Amser Llawn) | Cyfanswm y Dyddiau o Salwch a Gollwyd y Pen |
|---|---|---|
| 768.00 (715.31) | 159.62 (169.93) | 4.81 (4.21) |

Y gyfradd absenoldeb gyffredinol ar gyfer 2022/23 yw 2.3%. Mae hwn yn gynnydd bychan ar gyfradd 2021/2022 o 1.9%, ond yn parhau'n sylweddol is na'r gyfradd a adroddwyd gan yr ONS o 3.6% ar gyfer gweithwyr y sector cyhoeddus.

O blith y 2.3%, cafodd 1.3% eu dosbarthu fel tymor hir a 1.0% fel tymor byr. Yn ystod 2022/23, buom yn gweithio ar y cyd â'r PCS i gytuno ar newidiadau i'n Polisi Rheoli Salwch i sicrhau bod ein cyflogeion yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau bosibl. Bydd y polisi wedi'i ddiweddaru yn cael ei gyfathrebu i'r staff drwy gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu yn gynnar yn 2023/24.

Mae Chwaraeon Cymru wedi parhau i roi blaenoriaeth uchel i iechyd meddwl a lles ei gyflogeion ac wedi cynnal nifer o fentrau i gefnogi'r gweithlu yn y cyswllt hwn.

## Cynllun Pensiwn

Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu dau gynllun pensiwn ar gyfer ei staff. Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r Gronfa'n gynllun pendant sy'n darparu buddiannau'n seiliedig ar Enillion Ailbrisio Cyfartalog Gyrfaol (CARE). Mae asedau'r Gronfa'n cael eu cadw ar wahân i rai Chwaraeon Cymru. Bydd unrhyw bensiwn a gronnwyd cyn mis Ebrill 2008 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/80fed gyda chyfandaliad o deirgwaith y pensiwn. Yn unol â rheoliadau LGPS, caiff pensiwn sydd wedi cronni o 1 Ebrill 2008 ymlaen ei gyfrif ar gyfradd o 1/60ain a cheir opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae pensiwn sydd wedi cronni ers 1 Ebrill 2014 yn cael ei gyfrif ar gyfradd o 1/49ain gydag opsiwn i gymryd cyfandaliad ychwanegol yn gyfnewid am bensiwn. Mae cyfraniadau'r cyflogeion rhwng 5.5% a 10.5% yn seiliedig ar raddfa cyflog neu rhwng 2.75% a 5.25% os bydd y cyflogai'n dewis y cynllun pensiwn 50/50. Mae manylion pellach i'w gweld yn nodyn 1.7 a nodyn 18 y datganiadau ariannol. Hefyd mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu cynllun pensiwn Cyfraniad Pendant gyda Scottish Widows, gyda Chwaraeon Cymru yn cyfrannu 6.5% a'r cyflogeion yn cyfrannu 1.5%.

## Polisi Tâl

Yn unol â Phennod 5 y Llawlyfr Cofnodion Ariannol, mae'n ofynnol i Chwaraeon Cymru ddatgelu'r canlynol mewn perthynas â thâl yn ystod y flwyddyn am Aelodau'r Cyngor a'r uwch staff sydd â chyfrifoldebau am redeg adrannau llunio polisïau. Mae canllawiau'r Trysorlys yn datgan ei bod yn ofynnol i'r datganiadau ariannol ddatgelu gwerth trosglwyddo cyfatebol i arian parod y pensiynau ar gyfer Aelodau ac uwch staff Chwaraeon Cymru.

Telir i'r Cadeirydd, yr Is Gadeirydd ac Aelodau Chwaraeon Cymru yn unol â pholisi "Tâl a chostau Cadeiryddion ac Aelodau Cyrff Rheoli a Noddir gan Senedd Cymru a Chyrff y GIG" Llywodraeth Cymru.

Mae'r Pwyllgor Tâl, sy'n cynnwys Cadeirydd Chwaraeon Cymru, yr Is Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, a gefnogir gan gyflogeion Chwaraeon Cymru, yn cyfarfod i gytuno ar ddyfarniad tâl ar gyfer y staff i gyd, drwy gyfrwng proses cylch cyflog Llywodraeth Cymru. Cymeradwyir yr holl newidiadau i gyflog y Prif Swyddog Gweithredol gan y Pwyllgor Tâl, ac yn yr un modd rhaid i unrhyw gynnydd mewn tâl i staff gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## Contractau Gwasanaeth

Cyflogir uwch staff Chwaraeon Cymru ar delerau ac amodau sy'n eithaf tebyg i delerau ac amodau Llywodraeth Cymru.

Penodir Aelodau Chwaraeon Cymru gan Weinidogion Cymru ar gontract tair blynedd ac efallai y byddant yn cael eu hailbenodi am gyfnod o dair blynedd arall. Mae gan y Cadeirydd hawl i gyfradd ddyddiol o £337 ac mae'n cael contract i weithio tua deuddydd yr wythnos. Telir cyfradd ddyddiol o £311 i'r Is Gadeirydd ac mae'n cael contract i weithio tua tridiau y mis.

## Cyfnod Rhybudd

Mae gan y Prif Weithredwr hawl i rybudd o bedwar mis gan Chwaraeon Cymru os terfynir y contract ac mae gan weddill yr uwch staff hawl i rybudd o ddeuddeg wythnos o derfynu'r contract.

## Amser Cyfleuster yr Undeb Llafur

Mae Chwaraeon Cymru yn caniatáu i aelodau Pwyllgor Gweithredol Cangen undeb y PCS weithio ar faterion yr undeb, pan mae angen, yn ystod oriau gwaith a bydd y cyflogeion yn parhau i dderbyn eu hawl i gyflog llawn.

# Cyflog y Prif Swyddog Gweithredol

## Tâl

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog crynswth, lwfansau a bonws perfformiad, os yw hynny'n berthnasol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Prif Weithredwr interim gyflog crynswth o £108,000 (2021/22 £104,000). Nid oes unrhyw aelod o staff yn gymwys i gael taliad bonws.

Mae cyfran o gostau cyflog yr Uwch Reolwyr yn cael ei neilltuo i'r loteri.

## Manteision mewn Nwyddau neu Gynnyrch

Nid oes unrhyw fanteision mewn nwyddau neu gynnyrch.

## Hawliadau Cyflog a Phensiwn

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno manylion am gyflog a phensiwn uwch reolwyr Chwaraeon Cymru. Gwelir manylion am y dyddiadau dechrau/gadael yn y tabl Buddiannau Pensiwn ar dudalen 119. Mae'r wybodaeth hon wedi'i harchwilio.

## Costau Staff (yn amodol ar archwiliad)

| | 2022/2023 £'000 | 2021/2022 £'000 |
|---|---|---|
| **Parhaol:** | | |
| Cyflogau a thâl | 6,190 | 6,113 |
| Ffyrlo a dderbyniwyd* | - | (107) |
| Darpariaeth ar gyfer diswyddiadau a straen ar bensiwn | - | 54 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 688 | 656 |
| Costau Pensiwn eraill | 2,241 | 3,007 |
| Staff ar secondiad | - | (41) |
| | **9,119** | **9,682** |
| Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo | 411 | 428 |
| | **9,530** | **10,110** |
| Addasiadau IAS19 | 880 | (870) |
| | **10,410** | **9,240** |
| Llai: Dyraniad i SPORTLOT | (3,428) | (3,274) |
| | **6,982** | **5,966** |

## TÂL (yn amodol ar archwiliad)

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri | Cyflog £000 | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2022/23 (2021/22) | 2022/23 (2021/22) | 2022/23 (2021/22) | 2022/23 (2021/22) |
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL[1] | Cadeirydd | 50% - | 25 - 30 - | - - | 25 - 30 - |
| Mr Lawrence Conway[2] | Cadeirydd | 50% (50%) | 5 - 10 (35 - 40) | - - | 5 - 10 (35 - 40) |
| Ms Pippa Britton | Is Gadeirydd | 50% (50%) | 10 - 15 (10 - 15) | - - | 10 - 15 (10 - 15) |
| Mr Brian Davies OBE[3] | Prif Swyddog Gweithredol (Dros Dro) | 25% (25%) | 105 - 110 (85 - 90) | (5,000) (56,000) | 100 - 105 (140 - 145) |
| Ms Emma Wilkins[4] | Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Busnes | 25% (25%) | 70 - 75 (45 - 50) | 28,000 (14,000) | 100 - 105 (60 - 65) |
| Mr Graham Williams | Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau | 25% (25%) | 80 - 85 (75 - 80) | 81,000 (52,000) | 160 - 165 (125 - 130) |
| Mr Steven Morgan[5] | Pennaeth Gweithrediadau – Plas Menai | 0% (0%) | 45 - 50 (55 - 60) | 16,000 (15,000) | 65 - 70 (70 - 75) |
| Mr Craig Nowell[6] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf | 0% (0%) | 60 - 65 (60 - 65) | 352,000 (19,000) | 415 - 420 (80 - 85) |
| Mr Owen Lewis[7] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth a Gwasanaethau'r System Chwaraeon | 100% (100%) | 65 - 70 (60 - 65) | 51,000 (26,000) | 115 - 120 (90 - 95) |

[1] Penodwyd 4ydd Gorffennaf 2022. Band cyflog cyfwerth ag amser llawn £35k - £40k
[2] Tymor wedi dod i ben ar 3ydd Gorffennaf 2022
[3] Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro tan 26ain Mawrth 2023, wedyn Prif Swyddog Gweithredol o 27ain Mawrth 2023 ymlaen
[4] Penodwyd 9fed Awst 2021. Band cyflog cyfwerth ag amser llawn 70k – 75k
[5] TUPE i Parkwood / Legacy Leisure ar 1af Chwefror 2023
[6] Trosglwyddo o fewn cronfa o bensiwn LGPS
[7] Gweithredu ar lefel uwch fel rhan o'r tîm Gweithredol ers 18fed Medi 2021

| Enw | Teitl | % a Neilltuwyd i'r Loteri | Cyflog £000 | Budd Pensiwn i'r £1,000 agosaf | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2022/23 (2021/22) | 2022/23 (2021/22) | 2022/23 (2021/22) | 2022/23 (2021/22) |
| Mrs Joanne Nicholas[8] | Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Darpariaeth y System Chwaraeon a Pherthnasoedd | 50% (50%) | 65 - 70 (60 - 65) | 32,000 (18,000) | 95 - 100 (80 - 85) |
| Mr Ashok Ahir | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Mr Ian Bancroft | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Alison Thorne | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Judi Rhys MBE | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Prof Leigh Robinson | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Mr Phil Tilley | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Mr Martin Veale JP | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Rajma Begum | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Mr Dafydd T Davies | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Delyth Evans | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Nicola Mead-Batten | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |
| Ms Hannah Bruce | Aelod o'r Cyngor | 50% (50%) | 5 - 10 (5 - 10) | - - | 5 - 10 (5 - 10) |

[8] Gweithredu ar lefel uwch fel rhan o'r tîm Gweithredol ers 18fed Medi 2021

Mae'r Adroddiad Tâl yn datgan yn awr bod rhaid i Ffigur Cyfanswm Sengl ar gyfer Tâl gael ei ddangos. Mae'r tabl uchod yn debyg i'r un a ddefnyddid yn flaenorol ac mae'n dal i ddangos y cyflog a delir mewn bandiau. Caiff y ffigur budd pensiwn sy'n cyfrannu at y ffigur cyfanswm sengl ei gyfrif mewn ffordd newydd, fel a ganlyn:

(gwir gynnydd mewn pensiwn* x 20) + (gwir gynnydd mewn cyfandaliad*) – (cyfraniadau gan y cyflogai)

*ac eithrio cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd/gostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn

Nid yw'r ffigur budd pensiwn yn swm sydd wedi cael ei dalu i'r cyflogai gan Chwaraeon Cymru yn ystod y flwyddyn. Mae'n fudd yn y dyfodol i'r cyflogai a dylanwedir arno gan sawl ffactor gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, newidiadau mewn cyflog ac unrhyw gyfraniadau ychwanegol a wneir gan y cyflogai.

## Buddiannau Pensiwn yr Uwch Reolwyr (yn amodol ar archwiliad)

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2022/23 | Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2023 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2023 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| Mr Brian Davies OBE Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro | 0.0 – 2.5 (-10 – 12.5) | 30 – 35 (20 – 25) | 624 | 439 | 174 |
| Mr Graham Williams Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau | 2.5 - 5.0 (2.5 - 5.0) | 35 – 40 (45 – 50) | 747 | 567 | 171 |
| Ms Emma Wilkins Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cyllid a Busnes[9] | 0.0 - 2.5 (0.0 - 2.5) | 5 – 10 (0 – 5) | 95 | 51 | 37 |
| Mr Steven Morgan Pennaeth Gweithrediadau – Plas Menai10[10] | 0.0 - 2.5 (0.0 - 2.5) | 10 - 15 (0 - 5) | 215 | 151 | 60 |
| Mr Craig Nowell Cyfarwyddwr Cynorthwyol – Cyfleusterau Chwaraeon Cenedlaethol, Seilwaith a Chyfalaf[11] | 15.0 – 17.5 (7.5 – 10.0) | 15 – 20 (5 – 10) | 288 | 21 | 261 |

[9] Penodwyd 9fed Awst 2021
[10] TUPE i Parkwood 1af Chwefror 2023
[11] Trosglwyddo o fewn cronfa o bensiwn LGPS

| Enw | Gwir gynnydd mewn Pensiwn (a chyfandaliad) yn 65 oed ar gyfer 2022/23 | Cyfanswm y pensiwn wedi cronni yn 65 oed ar 31 Mawrth 2023 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2023 | Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31 Mawrth 2022 | Gwir Gynnydd/ (Gostyngiad) Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yn y Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Mr Owen Lewis Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Strategaeth a Gwasanaethau'r System Chwaraeon | 2.5 – 5.0 (0.0 – 2.5) | 20 – 25 (10 - 15) | 339 | 234 | 99 |
| Mrs Joanne Nicholas Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Darpariaeth y System Chwaraeon a Pherthnasoedd | 0.0 - 2.5 (0.0 - 2.5) | 0 - 5 (0 - 5) | 55 | 25 | 24 |

Y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau'r gronfa bensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol ac a aseswyd yn actwaraidd. Y buddiannau a brisir yw'r buddiannau sydd wedi'u cronni gan yr aelodau ac unrhyw bensiwn wrth gefn i gymar sy'n daladwy o'r cynllun. Mae'r Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn sicrhau buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan mae aelodau'n gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau sydd wedi cronni yn eu cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn berthnasol i'r buddiannau sydd wedi cronni gan yr unigolyn o ganlyniad i aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond eu gwasanaeth mewn swydd uwch, y mae datgeliad yn berthnasol iddi.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol sydd wedi cronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei gost ei hun. Cyfrifir Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod oddi mewn i'r canllawiau a'r fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a'r Fframwaith Actwarïau ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosib mewn buddiannau o ganlyniad i Dreth Lwfans Oes Gyfan, a all fod yn ddyledus pan dynnir buddiannau pensiwn o'r cynllun.

## Gwir Gynnydd mewn Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd yn y Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a gyllidir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd yn y pensiwn sydd wedi cronni oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a delir gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredinol ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

## Staff (yn amodol ar archwiliad)

Roedd nifer y cyflogeion parhaol ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn, ar sail cyfwerth ag amser llawn, yn cynnwys y canlynol:

| | 2022/2023 Nifer | 2021/2022 Nifer |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 159.62 | 169.93 |

O 1af Chwefror 2023 ymlaen, cafodd holl gyflogeion Plas Menai eu TUPE i Parkwood / Legacy Leisure ac nid ydynt yn rhan o gyfrifiad staff Chwaraeon Cymru. Mae cyfansoddiad staff presennol y cyfarwyddwyr corfforaethol yn 60% yn ddynion a 40% yn fenywod. O blith y cyflogeion parhaol sy'n weddill, mae 43% yn ddynion a 57% yn fenywod.

## Polisi Treth ar gyfer y rhai a Benodir Oddi Ar y Gyflogres

Ar 31 Mawrth 2023, roedd 8 trefniant a oedd wedi bodoli (2021/22, 8 trefniant) ac yn eu lle am 4 blynedd neu fwy. Mae pob trefniant wedi cael eu hasesu ac wedi cael eu dosbarthu fel rhai'n gweithredu y tu allan i IR35. Mae Chwaraeon Cymru yn fodlon bod sicrwydd wedi'i geisio i gadarnhau bod unigolion wedi gwneud trefniadau priodol i dalu treth. Nid oes yr un unigolyn yn aelod o'r Bwrdd nac yn uwch swyddog gyda chyfrifoldeb ariannol sylweddol.

## Cynlluniau Iawndal – Pecynnau ymadael (yn amodol ar archwiliad)

| | Nifer y diswyddiadau | |
|---|---|---|
| **Band cost y pecyn ymadael** | **2022/23** | **2021/22** |
| < £10,000 | 0 | 0 |
| £10,000 - £25,000 | 0 | 0 |
| £25,000 - £50,000 | 0 | 1 |
| £50,000 - £100,000 | 0 | 0 |
| £100,000 - £150,000 | 0 | 0 |
| Cyfanswm y pecynnau ymadael | 0 | 1 |
| **Cyfanswm costau adnoddau (£)** | **0** | **54,000** |

Telir taliadau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil. Cyfrifir am y costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Os yw Chwaraeon Cymru wedi cytuno i ymddeoliad cynnar, telir y costau ychwanegol gan Chwaraeon Cymru.

## Datgeliadau Cyflog Teg (yn amodol ar archwiliad)

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd yn ôl ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl mwyaf yn eu sefydliad a thâl 25ain canradd, canolrifol a 75ain canradd gweithlu'r sefydliad.

| | 2022/23 | 2022/23 | 2022/23 | 2021/22 | 2021/22 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymhareb Tâl Canradd | Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £000 | Cyflogai £000 | Cymhareb | Prif Weithredwr (Cyfarwyddwr â'r Cyflog Uchaf) £000 Restated | Cyflogai £000 | Cymhareb |
| 25ain | 107.5 | 28.9 | 3.7 | 102.5 | 25.6 | 4.0 (Restated) |
| Canolrifol | 107.5 | 33.4 | 3.2 | 102.5 | 33.6 | 3.1 |
| 75ain | 107.5 | 43.3 | 2.5 | 102.5 | 44.6 | 2.3 |

Employees don't receive benefits in kind or performance pay.

Cafodd y gymhareb ei chyfrif gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau canlynol:

1. Dim ond cyflogau'r staff a delir drwy'r gyflogres a staff asiantaeth sydd wedi cael eu defnyddio.
2. Nid yw'r ffigurau wedi cael eu haddasu i adlewyrchu unrhyw gyfran i gyfrifon Dosbarthu'r Loteri h.y. mae'r costau'n adlewyrchu'r holl staff a gyflogir gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac a brosesir drwy'r gyflogres.

Mae cyfanswm y tâl yn cynnwys cyflog a lwfansau ond yn eithrio taliadau diswyddo. Nid yw'n cynnwys cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerth trosglwyddo cyfwerth ag arian parod y pensiynau.

Amrywiodd y tâl o £22,150 i £107,732 (amrywiodd tâl 2021/22 o £20,193 i £103,588). Mae'r symudiadau bychain yn y cymarebau i'w priodoli i newid yn y cymysgedd o staff yn ystod y flwyddyn gyda chyflogeion Plas Menai wedi cael TUPE i Parkwood ar 1af Chwefror, yn ogystal â defnyddio mwy o staff asiantaeth y mae eu tâl cyfwerth ag amser llawn o fewn y chwartel 25%.

Mae'r gymhareb cyflog canolrifol yn gyson â'r polisïau tâl a dyfarnu ar gyfer cyflogeion Chwaraeon Cymru fel un cyfan.

Y newid canrannol o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf oedd 4%. Y newid canrannol cyfartalog o'r flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd oedd 4%.

**SWYDDOG CYFRIFO:**
**B Davies**
19 Hydref 2023

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Yr wyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 o dan baragraff 18(3) Atodlen 8 Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian, y Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifo arwyddocaol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol a safonau cyfrifo rhyngwladol sydd wedi'u mabwysiadu gan y DU fel y'u dehonglwyd a'u haddasu gan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol, ym mhob cyswllt sylfaenol:

- Yn cyflwyno darlun cywir a theg o gyflwr materion Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2023 ac o'i wariant net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifo rhyngwladol y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM; ac
- Wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob cyswllt sylfaenol, mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail y farn

Rwyf wedi cynnal fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Archwilio yn y DU (ISAs (y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yn yr adran cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol yn fy adroddiad.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar y corff yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad ar y datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adroddiadau Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rwyf yn credu bod y dystiolaeth archwilio rwyf wedi'i sicrhau'n ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail ar gyfer fy marn.

## Casgliadau perthnasol i fusnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, deuthum i'r casgliad bod y defnydd o'r sail busnes gweithredol ar gyfer cyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd sylfaenol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu'r sail cyfrifo busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg yr awdurdodir y datganiadau ariannol i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifo mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol y dystysgrif hon.

Mabwysiadir y sail cyfrifo busnes gweithredol ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru wrth ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail cyfrifo busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol wrth ragweld y bydd y gwasanaethau maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth Arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, ond nid yw'n cynnwys y datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilio i ar y rheiny. Y Swyddog Cyfrifo sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol. Nid yw fy marn i ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw ffurf ar gasgliad sicrwydd mewn perthynas â hi.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall a, thrwy wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn sylfaenol anghyson â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad neu'n ymddangos wedi'i chamddatgan fel arall. Os byddaf yn canfod anghysondebau sylfaenol o'r fath neu gamddatganiadau sylfaenol ymddangosiadol, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad sylfaenol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os dof i'r casgliad, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud, bod unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn gysylltiedig â'r wybodaeth arall hon, mae'n ofynnol i mi roi gwybod am hynny.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd yn ôl yn y cyswllt hwn.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad Tâl a Staff sydd i gael ei harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol, yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud yn ystod fy archwiliad:

- Mae'r rhannau o'r Adroddiad Blynyddol sy'n destun archwiliad wedi'u paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Gweinidogion Cymru a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- Mae'r wybodaeth sydd yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a sicrhawyd fel rhan o'r archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau sylfaenol yn yr Adroddiad Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd arno yng nghyswllt y materion canlynol, yr wyf yn adrodd arnynt i chi os yw'r canlynol, yn fy marn i, yn wir:

- Nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad.
- Nid oes cofnodion cyfrifo digonol wedi cael eu cadw ac nid oes ffurflenni digonol ar gyfer fy archwiliad wedi cael eu derbyn o ganghennau na fu fy nhîm yn ymweld â hwy;
- Nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad Tâl sydd wedi cael ei harchwilio'n cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo;
- Nid yw gwybodaeth a nodir gan Weinidogion Cymru ynghylch tâl a thrafodion eraill wedi'i datgelu;
- Nid yw rhai datgeliadau am dâl a nodir gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EM wedi'u gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Tâl a Staff i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifo; neu
- Nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

## Cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo am y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Prif Weithredwr, mae'r Swyddog Cyfrifo'n gyfrifol am y canlynol:

- Cadw cofnodion cyfrifo priodol;
- Paratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg;
- Sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- Sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol
- Mesurau rheoli mewnol fel y mae'r Swyddog Cyfrifo yn penderfynu sy'n angenrheidiol i alluogi paratoi datganiadau ariannol i fod yn rhydd o gamddatganiadau sylfaenol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; ac
- Asesu gallu'r corff i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion yn ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifo busnes gweithredol oni bai fod y Swyddog Cyfrifo'n rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan y corff yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion i yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw gamddatganiad sylfaenol, boed yn cael ei achosi gan dwyll neu gamgymeriad, a chyflwyno adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol ag ISAs (y DU) bob amser yn canfod camddatganiad sylfaenol pan mae'n bodoli. Gall camddatganiadau godi o dwyll neu gamgymeriad a chânt eu hystyried yn sylfaenol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o fethu cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau sylfaenol mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau yn cynnwys y canlynol:

- Ymchwilio i reolwyr, archwiliad mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys sicrhau ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n ymwneud â:
  - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i risgiau twyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, amheus neu honedig; ac
  - y mesurau rheoli mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Fel rhan o'r drafodaeth hon, nodais botensial am dwyll yn y meysydd a ganlyn: cydnabod refeniw, cydnabod gwariant a phostio cyfnodolion anarferol;
- Sicrhau dealltwriaeth o fframwaith awdurdod Cyngor Chwaraeon Cymru yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae'n gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Chwaraeon Cymru.
- Sicrhau dealltwriaeth o berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- Adolygu datgeliadau datganiadau ariannol a phrofi dogfennau ategol i asesu cydymffurfiaeth â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol a drafodwyd uchod;
- Holi rheolwyr am ymgyfreitha a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- Darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r Bwrdd;
- Wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll drwy reolwyr yn diystyru mesurau rheoli, profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth wneud amcangyfrifon cyfrifo'n arwydd o ragfarn bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Hefyd, cyfathrebais am ddeddfau a rheoliadau perthnasol a risgiau twyll posib i holl aelodau'r tîm archwilio a pharhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau drwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd mesurau rheoli Cyngor Chwaraeon Cymru, a natur, amseriad a graddfa'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar i ba raddau mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adroddiadau Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad fel archwilydd.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwyf yn sicrhau digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol wedi cael eu defnyddio at y pwrpas y'u bwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol sydd wedi'u cofnodi yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwyf yn cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad ac unrhyw ganfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol y dof ar eu traws yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU:**
**Adrian Crompton**
27 Hydref 2023

1 Capital Quarter
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

## Datganiad Cyfnerthedig o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** |
| **GWARIANT** | | | |
| Gwariant Grant | 5 | 24,125 | 31,540 |
| Costau Staff | 6 | 6,982 | 5,966 |
| Gwariant Arall | 7 | 4,165 | 3,695 |
| Dibrisiant | 9 | 629 | 607 |
| Dibrisiant ROU | | | - |
| | | **35,906** | **41,808** |
| **INCWM** | | | |
| Incwm o Weithgareddau | 3 | (2,434) | (1,735) |
| Incwm Arall | 3 | (95) | (46) |
| | | **(2,529)** | **(1,781)** |
| | | | |
| **Gwariant Net** | | **33,377** | **40,027** |
| | | | |
| Cost Cyllid Pensiwn | | 185 | 311 |
| (Gwarged) ar Waredu Eiddo, Peiriannau ac Offer | 8 | (3) | (8) |
| Llog Derbyniadwy | | (20) | (1) |
| | | **162** | **302** |
| | | | |
| **Gwariant Net ar ôl llog a chyn trethiant** | | **33,539** | **40,329** |
| | | | |
| Trethiant Taladwy | | 4 | - |
| **Gwariant Net ar ôl Trethiant** | | **33,543** | **40,329** |
| | | | |
| **Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | |
| (Enillion) / Colled net ar ailbrisio Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9b | (769) | 2,267 |
| (Enillion) actwaraidd ar bensiwn | 18 | (6,867) | (7,711) |
| **Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben** | | **25,907** | **34,885** |

## Gweithrediadau Sy’n Parhau

Ni sefydlwyd unrhyw weithgareddau newydd yn ystod y flwyddyn gyfredol na’r flwyddyn flaenorol na dod ag unrhyw weithgareddau i ben.

Roedd y Gwariant Net ar ôl Trethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol ac y gellid ei briodoli i weithgareddau Chwaraeon Cymru yn £33,543,000 (2021/2022 £40,329,000).

Mae’r nodiadau ar dudalennau 136 i 166 yn rhan o’r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2023

| | | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9(a) | 614 | 512 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **614** | **512** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 3,016 | 3,884 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 540 | 555 |
| | | **3,556** | **4,439** |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | **4,170** | **4,951** |
| | | | |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (564) | (1,300) |
| Croniadau grant | 13 | (27) | (44) |
| Darpariaethau | 19 | (20) | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | | **(611)** | **(1,344)** |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | **3,559** | **3,607** |
| | | | |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn | 12 | (26) | (31) |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (1,523) | (7,554) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | | **(1,549)** | **(7,585)** |
| **Asedau llai cyfrifoldebau** | | **2,010** | **(3,978)** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 3,533 | 3,576 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | (1,523) | (7,554) |
| **Cronfa ailbrisio wrth gefn** | | **2,010** | **(3,978)** |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 136 i 166 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 19eg Hydref 2023 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

**SWYDDOG CYFRIFO:**
**B Davies**
19 Hydref 2023

## Datganiad Cyfnerthedig o Sefyllfa Ariannol Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar 31 Mawrth 2023

| | | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 9(b) | 20,325 | 18,239 |
| Ased Prydles Hawl i Ddefnydd | 10 | 1,898 | - |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | | **22,223** | **18,239** |
| | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 3,016 | 3,884 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 15 | 544 | 559 |
| | | **3,560** | **4,443** |
| **Cyfanswm yr Asedau** | | **25,783** | **22,682** |
| | | | |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | 12 | (569) | (1,300) |
| Croniadau grant | 13 | (27) | (44) |
| Darpariaethau | 19 | (20) | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | | **(616)** | **(1,344)** |
| | | | |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | | **25,167** | **21,338** |
| | | | |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn | 12 | (120) | (31) |
| Atebolrwydd Pensiwn | 18 | (1,523) | (7,554) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | | **(1,643)** | **(7,585)** |
| **Asedau llai cyfrifoldebau** | | **23,524** | **13,753** |
| | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 19,841 | 18,208 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | | (1,523) | (7,554) |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | | 5,206 | 3,099 |
| | | **23,524** | **13,753** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 19eg Hydref 2023 a chawsant eu llofnodi ar ei ran gan;

**SWYDDOG CYFRIFO:**
**B Davies**
19 Hydref 2023

## Datganiad Cyfnerthedig o Lif Arian Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | Nodyn | £'000 | £'000 |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | |
| | | | |
| Gwariant net ar ôl trethiant | | (33,543) | (40,329) |
| (Gwarged) ar waredu eiddo, peiriannau ac offer | 8 | (3) | (8) |
| Dibrisiant eiddo, peiriannau ac offer | 9(b) | 629 | 607 |
| Dibrisiant ased Hawl i Ddefnydd | 10 | 5 | - |
| Gostyngiad mewn masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 11 | 867 | 2,085 |
| (Gostyngiad) / Cynnydd mewn elfennau taladwy masnach | 12 | (741) | 366 |
| (Gostyngiad) mewn croniadau grant | 13 | (17) | (45) |
| Llog a dderbyniwyd | 14 | (20) | (1) |
| Llog ROU | 10 | 1 | - |
| Atebolrwydd Prydles Cyfalaf | 10 | (6) | - |
| Costau pensiwn | 18 | 836 | (333) |
| Cynnydd yn y ddarpariaeth | 19 | 20 | (75) |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu** | | **(31,972)** | **(37,733)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | | |
| | | | |
| Prynu eiddo, peiriannau ac offer | 9(b) | (1,947) | (1,947) |
| Elw o werthu eiddo, peiriannau ac offer | 8 | 4 | 14 |
| Llog a dderbyniwyd | 14 | 20 | 1 |
| **All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,923)** | **(1,932)** |
| | | | |
| **Llif arian o weithgareddau cyllido** | | | |
| | | | |
| Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru | 4 | 33,880 | 39,994 |
| **(Gostyngiad) / cynnydd net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod** | | **(15)** | **329** |
| | | | |
| **Gostyngiad net mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod yn ystod y cyfnod** | | | |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddechrau'r cyfnod | 15 | 559 | 230 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod | 15 | 544 | 559 |
| | | **(15)** | **329** |

* Ac eithrio atebolrwydd prydles Hawl i Ddefnydd

Mae'r nodiadau ar dudalennau 136 i 166 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | Cronfa Gyffredinol | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2022** | **3,099** | **18,208** | **(7,554)** | **13,753** |
| Addasiad ar gyfer gweithredu IFRS 16 | 1,811 | - | - | 1,811 |
| **Balans wedi'i addasu ar 1 Ebrill 2022** | **4,910** | **18,208** | **(7,554)** | **15,564** |
| Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth | - | (33,543) | - | (33,543) |
| Ailbrisio asedau Hawl i Ddefnydd | (13) | - | - | (13) |
| Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4) | - | 33,880 | - | 33,880 |
| Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | 769 | - | - | 769 |
| Costau pensiwn | - | 836 | (836) | - |
| Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol | (460) | 460 | - | - |
| Colled actwaraidd | - | - | 6,867 | 6,867 |
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2023** | **5,206** | **19,841** | **(1,523)** | **23,524** |

Y cyllid yng nghyfrifon anghyfnerthedig Chwaraeon Cymru ei hun ar 31 Mawrth 2023 oedd (£2,010,000), (31 Mawrth 2022 ((£3,978,000)) gydag £19,715,000 (2021/22 £17,731,000) yn cael ei briodoli i Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 136 i 166 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Cyfnerthedig o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr ar Gyfer Cyngor Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru ar gyfer y Flwyddyn a Ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Cronfa Ailbrisio Wrth Gefn | Cronfa Gyffredinol | Cronfa Bensiwn Wrth Gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Balans ar 1 Ebrill 2021 | 5,775 | 18,467 | (15,598) | 8,644 |
| Gwariant Net ar ôl llog a chyn treth | - | (40,329) | - | (40,329) |
| Cyllid a dderbyniwyd (Nodyn 4) | - | 39,994 | - | 39,994 |
| Ailbrisio asedau sefydlog diriaethol | (2,267) | - | - | (2,267) |
| Costau pensiwn | - | (333) | 333 | - |
| Trosglwyddo i'r gronfa gyffredinol | (409) | 409 | - | - |
| Colled actwaraidd | - | - | 7,711 | 7,711 |
| **Cyllid ar 31 Mawrth 2022** | 3,099 | 18,208 | (7,554) | 13,753 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 136 i 166 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# CYNGOR CHWARAEON CYMRU AC YMDDIRIEDOLAETH CYNGOR CHWARAEON CYMRU – NODIADAU AR Y CYFRIFON AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN AR 31 MAWRTH 2023

## 1. DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFO

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Cofnodion Ariannol y Llywodraeth 2022/23 (Llawlyfr seiliedig ar IFRS) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisïau cyfrifo yn y Llawlyfr yn defnyddio'r Safonau Cofnodion Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel yr addaswyd neu a ddehonglwyd ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Os yw'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sydd fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Chwaraeon Cymru at bwrpas cyflwyno darlun cywir a theg wedi cael ei ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi'u mabwysiadu gan Chwaraeon Cymru isod. Mae'r rhain wedi cael eu defnyddio'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn sylfaenol i'r cyfrifon. Paratowyd cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru er mwyn cadw at y Datganiad o Arfer a Argymhellir (SORP) a gyhoeddwyd gan Gomisiynwyr Elusennau Cymru a Lloegr yn 2015.

### 1.1 Sail y cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, a addaswyd i gyfrif am ailbrisio tir ac adeiladau.

### 1.2 Cyllid

Mae Chwaraeon Cymru yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyllido'i wariant cyfalaf a refeniw sy'n ychwanegol at ei incwm. Credydir y cyllid yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol.

Mae'r incwm gweithredu arall yn cynnwys incwm o ffioedd, nawdd a rhai gweithgareddau masnachu sy'n codi.

Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, yn derbyn grantiau gan Chwaraeon Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf ar eiddo, peiriannau ac offer perthnasol i dir ac adeiladau. Hefyd, mae gan yr Ymddiriedolaeth offer a cherbydau a brynwyd cyn mis Ebrill 2006. Ers mis Ebrill 2006, dim ond yng nghyfrifon Chwaraeon Cymru mae'r gwariant cyfalaf ar offer a cherbydau wedi'i gynnwys. Mae'r elw wrth i'r Ymddiriedolaeth werthu eiddo, peiriannau ac offer yn cael ei ildio i Chwaraeon Cymru.

### 1.3 Eiddo, Peiriannau ac Offer

Mae tir rhydd-ddaliadaeth wedi'i gynnwys yn y datganiad o'r sefyllfa ariannol ar sail gwerth y farchnad agored, a'r adeiladau ar gost cyfnewid wedi dibrisio, i adlewyrchu natur arbenigol yr adeiladau. Sicrheir prisiad proffesiynol bob blwyddyn. Nid yw'r tir prydles o dan y brydles weithredu wedi'i gynnwys yn natganiad o sefyllfa ariannol Chwaraeon Cymru.

Mae offer a cherbydau'n gynwysedig yn y datganiad o sefyllfa ariannol ar sail cost hanesyddol llai darpariaeth ar gyfer dibrisiant. Ym marn Chwaraeon Cymru, nid oes unrhyw wahaniaeth sylfaenol rhwng gwerthoedd llyfr net cost hanesyddol a chyfredol yr asedau hyn. Y trothwy ar gyfer cyfalafu asedau yw £5,000 ar gyfer Chwaraeon Cymru a £5,000 ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

### 1.4 Dibrisiant

Darperir dibrisiant ar sail llinell syth ar yr holl eiddo, peiriannau ac offer, gan ystyried amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol a'r gwerthoedd gweddillol a ragdybir. Mae oes yr ased at y pwrpas hwn fel a ganlyn ar gyfartaledd:

- Eiddo rhydd-ddaliadaeth **35 mlynedd**
- Eiddo prydles **35 i 50 mlynedd**
- Offer - cyfrifiaduron **3 blynedd**
- Arall **3 i 10 mlynedd**
- Cerbydau **5 mlynedd**

Polisi Chwaraeon Cymru yw dibrisio asedau o'r mis ar ôl eu prynu.

### 1.5 Prydlesau

Ar gyfer unrhyw gontractau newydd yr ymrwymir iddynt ar neu ar ôl 1 Ebrill 2022, mae Chwaraeon Cymru yn ystyried a yw contract yn, neu'n cynnwys, prydles. Diffinnir prydles fel 'contract, neu ran o gontract, sy'n cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased (yr ased sylfaenol) am gyfnod o amser yn gyfnewid am ystyriaeth'. I gymhwyso'r diffiniad hwn mae Chwaraeon Cymru yn asesu a yw'r contract yn bodloni tri maen prawf allweddol:

- Mae'r contract yn cynnwys ased a nodwyd, sydd naill ai wedi'i nodi'n benodol yn y contract neu wedi'i nodi'n ymhlyg drwy gael ei nodi ar yr adeg pan wneir yr ased ar gael i Chwaraeon Cymru;
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gael yr holl fuddion economaidd sylweddol o ddefnyddio'r ased a nodwyd drwy gydol y cyfnod defnyddio, gan ystyried ei hawliau o fewn cwmpas penodol y contract; a
- Mae gan Chwaraeon Cymru yr hawl i gyfarwyddo'r defnydd o'r ased a nodwyd trwy gydol y cyfnod defnydd.

#### Mesur a chydnabod

Ar ddyddiad cychwyn y brydles, mae Chwaraeon Cymru yn cydnabod ased hawl i ddefnydd ac atebolrwydd prydles ar y fantolen. Mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur ar gost, sy'n cynnwys y mesur cychwynnol o atebolrwydd y brydles, unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol i Chwaraeon Cymru, amcangyfrif o unrhyw gostau i ddatgymalu a thynnu'r ased ar ddiwedd y brydles, ac unrhyw daliadau prydles a wnaed ymlaen llaw cyn dyddiad cychwyn y brydles (net o unrhyw gymhellion a dderbyniwyd).

Mae Chwaraeon Cymru yn dibrisio'r asedau hawl i ddefnydd ar sail llinell syth o ddyddiad cychwyn y brydles hyd at ddiwedd oes ddefnyddiol yr ased hawl i ddefnydd neu ddiwedd cyfnod y brydles, pa un bynnag sydd gynharach. Mae Chwaraeon Cymru hefyd yn asesu'r ased hawl i ddefnydd ar gyfer gwall pan fo dangosyddion o'r fath yn bodoli.

Lle mae'r rhent yn cael ei ystyried yn rhent rhad, mae'r ased hawl i ddefnydd yn cael ei fesur yn ôl ei werth presennol o ran defnydd presennol neu werth teg.

Mae gwerth presennol y defnydd presennol yn cael ei gyfrifo drwy gyfalafu gwerth rhent cyfredol y farchnad y gellid ei gyflawni ar gyfer defnydd presennol yr ased hawl i ddefnydd dros weddill tymor y brydles. Mae Chwaraeon Cymru yn cael prisiad arbenigol trydydd parti ar gyfer yr holl brydlesau rhad.

Ar ddyddiad cychwyn y brydles, mae Chwaraeon Cymru yn mesur atebolrwydd y brydes ar werth presennol y taliadau prydles sydd heb eu talu ar y dyddiad hwnnw, gyda gostyngiad gan ddefnyddio'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles os yw'r gyfradd honno ar gael yn rhwydd neu gyfradd fenthyca gynyddol Trysorlys EM.

Mae'r taliadau prydles sydd wedi'u cynnwys wrth fesur atebolrwydd y brydles yn cynnwys taliadau sefydlog (gan gynnwys mewn sylwedd sefydlog), taliadau amrywiol yn seiliedig ar fynegai neu gyfradd, symiau y disgwylir iddynt fod yn daladwy o dan warant gwerth gweddilliol a thaliadau sy'n codi o opsiynau sy'n rhesymol sicr i gael eu hymarfer.

Yn dilyn y mesur cychwynnol, bydd yr atebolrwydd yn cael ei leihau ar gyfer taliadau a wneir a'u cynyddu ar gyfer llog. Caiff ei ailfesur i adlewyrchu unrhyw ailasesiad neu addasiad, neu os oes newidiadau mewn taliadau sylwedd sefydlog.

Pan fydd atebolrwydd y brydles yn cael ei ailfesur, adlewyrchir yr addasiad cyfatebol yn yr ased hawl i ddefnydd, neu'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, os yw'r ased hawl i ddefnydd wedi'i ostwng i sero eisoes.

Ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, mae asedau hawl i ddefnydd wedi'u dangos ar wahân ac mae atebolrwydd prydles wedi'i gyflwyno mewn symiau Masnach a symiau taladwy eraill.

**1.6 Stocrestri**

Mae gan Chwaraeon Cymru stocrestr ar gyfer dyrannu fel rhan o'i weithgareddau grant ac adlewyrchwyd y costau cysylltiedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae ganddo stocrestr ar gyfer ailwerthu, nad ystyrir yn sylfaenol. Nid yw'r stocrestr ar gyfer ailwerthu wedi cael ei chydnabod fel ased yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol: mae costau'r asedau hyn wedi cael eu cydnabod fel Gwariant Arall yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

**1.7 Pensiynau**

Daw'r cyfraniadau i gynlluniau pensiwn Chwaraeon Cymru o'r Cyfrif Gwariant Net er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes waith y cyflogeion gyda Chwaraeon Cymru. Yn unol ag IAS 19, cyfrifir y ffi i'r Cyfrif Gwariant Net ar sail costau gwasanaeth a chyllid pensiwn a gyfrifir gan yr actwari. Adlewyrchir cyfran Chwaraeon Cymru o asedau ac atebolrwydd y gronfa bensiwn fel atebolrwydd pensiwn net ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

Rhennir unrhyw atebolrwydd pensiwn neu asedau rhwng Chwaraeon Cymru a Chyfrif Dosbarthu'r Loteri ar sail y gyfradd neilltuo hanesyddol o gostau staff, yn unol â'r amser mae'r staff yn ei dreulio'n rhoi gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri ar waith.

**1.8 Trethiant**

Codir Treth Ar Werth anadferadwy ar gyfrifon Chwaraeon Cymru mewn perthynas â gwariant trethadwy ar weithgareddau anfasnachol. Cyfrifir Treth Gorfforaeth y DU ar gyfradd o 19% (19% 2020/21) o'r llog sy'n cronni ar incwm buddsoddi Chwaraeon Cymru, ond nid ar log yr Ymddiriedolaeth.

### 1.9 Grantiau taladwy

Gellir rhoi cymorth ariannol ar ffurf grantiau i hyrwyddo amcanion Chwaraeon Cymru. Cydnabyddir cynigion grant fel gwariant, ac os na chânt eu talu, fel atebolrwydd os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli. Er mwyn i rwymedigaeth adeiladol fodoli, rhaid cyfathrebu ymrwymiad y dyfarniad yn uniongyrchol i dderbynnydd y dyfarniad ac mae'n rhaid i'r cyllid cymorth grant priodol i fodloni'r ymrwymiad fod wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Os oes rhwymedigaeth adeiladol yn bodoli ond amodau grant yn weddill ar ddiwedd y flwyddyn, mae'r grantiau'n cael eu datgelu fel atebolrwydd wrth gefn.

### 1.10 Cyfuno

Mae cyfrifon Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru, corff elusennol sy'n eiddo i Chwaraeon Cymru yn llwyr, wedi cael eu cyfuno yn y cyfrifon hyn. Mae Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru yn paratoi cyfrifon yn unol â'r Datganiad o Arfer a Argymhellir: Cyfrifon ac Adroddiadau gan y Comisiwn Elusennau 2019. Mae hyn yn cymhwyso Safon Adrodd Ariannol 102 sy'n gymwys yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon. Er mwyn cydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth 2022/23 ('y FREM'), mae'r polisïau cyfrifo wedi cael eu halinio ar ôl eu cyfuno. Y prif reswm dros yr addasiad yw gweithredu IFRS 16 (Prydlesau) o fewn y FREM. Mae hyn wedi arwain at yr addasiadau canlynol:

| | Mantolen Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru | Alinio polisïau cyfrifo | Sefyllfa wedi'i haddasu cyn cyfuno |
|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Asedau anghyfredol** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 19,711 | - | 19,711 |
| Ased prydles hawl i ddefnydd | - | 1,898 | 1,898 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | **19,711** | **1,898** | **21,609** |
| **Asedau cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | - | - | - |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 4 | - | 4 |
| **Cyfanswm yr asedau** | **4** | **-** | **4** |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | - | 5 | 5 |
| Croniadau grant | - | - | - |
| Darpariaethau | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | **-** | **5** | **5** |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | **19,715** | **1,893** | **21,608** |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill mewn mwy na blwyddyn | - | 94 | 94 |
| Atebolrwydd Pensiwn | - | - | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | **-** | **94** | **94** |
| **Asedau llai cyfrifoldebau** | **19,715** | **1,799** | **21,514** |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | |
| Cronfa gyffredinol | 16,305 | 3 | 16,308 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | - | - | - |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 3,410 | 1,796 | 5,206 |
| | **19,715** | **1,799** | **21,514** |

Adroddir ar weithgareddau Dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru o dan Ddeddf y Loteri Genedlaethol 1993, fel y'i diwygiwyd, mewn cyfrif ar wahân nad yw wedi'i gyfuno â'r cyfrifon hyn.

### 1.11 Defnydd o amcangyfrifon a phenderfyniadau

Mae paratoi'r datganiadau ariannol yn golygu bod rhaid i Chwaraeon Cymru wneud amcangyfrifon a rhagdybiaethau sy'n effeithio ar y defnydd o bolisïau a'r symiau yr adroddir amdanynt. Adolygir amcangyfrifon a phenderfyniadau'n barhaus. Cydnabyddir y diwygiadau i'r amcangyfrifon cyfrifo yn ystod y cyfnod pryd diwygir yr amcangyfrif ac mewn unrhyw gyfnod a effeithir yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth am feysydd amcangyfrif a phenderfyniadau allweddol arwyddocaol wrth ddefnyddio polisïau cyfrifo sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol yn y nodiadau canlynol hyn:-

**Nodyn 6** – Mae costau'r staff yn cael eu neilltuo i'r Loteri yn unol â'r amser maent yn ei dreulio'n cyflawni gweithgareddau'r Loteri. Os yw'r staff yn cael eu datgan fel staff sy'n cael eu cyflogi 100% at bwrpas y Loteri, mae eu costau'n cael eu neilltuo'n llawn.

**Nodyn 9(b)** – Mae tir yn cael ei brisio yn unol â gwerth y farchnad ac adeiladau ar sail cost cyfnewid wedi dibrisio. Gwneir y prisiadau hyn gan briswyr allanol, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig. Gwneir nifer o ragdybiaethau allweddol yn ystod y broses hon.

**Nodyn 10** – Mae cymhwyso IFRS 16 yn ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n effeithio ar y prisiad o atebolrwydd prydles a gwerth asedau hawl i ddefnydd, gan gynnwys pennu a yw'r contract yn dod o fewn cwmpas IFRS 16 ac ystyried y gyfradd llog a ddefnyddir ar gyfer gostyngiad i lifau arian yn y dyfodol.

Mae cyfnod y brydles a bennir gan Chwaraeon Cymru yn cynnwys cyfnod y contractau prydles na ellir ei ganslo.

O ystyried natur y prydlesau a sut maent yn gysylltiedig â'r busnes, lle mae cymal terfynu ar gael i Chwaraeon Cymru, daethpwyd i'r casgliad na fyddai hyn yn cael ei arfer.

Mae gwerth presennol y taliadau prydles sy'n berthnasol i bortffolio Chwaraeon Cymru wedi cael ei bennu gan ddefnyddio cyfradd fenthyca Trysorlys EM i ostyngiad.

**Nodyn 13** – Cyfrifir croniadau a rhagdaliadau grant ar sail dyddiadau dechrau a gorffen y prosiect, fel y nodir yn nodyn 1.8.

**Nodyn 18** – Mae'r mesur o gyfraniadau budd pendant yn dibynnu ar ddewis rhagdybiaethau penodol sy'n cynnwys y gyfradd ostyngiad, y gyfradd chwyddiant, twf cyflog, cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gohiriedig a'r adenillion disgwyliedig ar asedau cynlluniau.

### 1.12 Offerynnau Ariannol

Gan fod gofynion ariannol Chwaraeon Cymru yn cael eu bodloni'n bennaf drwy Gymorth Grant a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae offerynnau ariannol yn chwarae rôl fwy cyfyngedig mewn creu a rheoli risg na fyddai'n berthnasol i gorff heb fod yn y sector cyhoeddus. Mae mwyafrif yr offerynnau ariannol yn ymwneud â chontractau i brynu nwyddau ac eitemau gwasanaeth yn unol â gofynion prynu a defnydd disgwyliedig Chwaraeon Cymru, ac felly nid yw Chwaraeon Cymru yn wynebu llawer o risg o ran credyd, hylifedd na marchnad.

### 1.13 Nam

Adolygir gwerth asedau Chwaraeon Cymru ar bob dyddiad adrodd yn ôl, i weld a oes unrhyw arwydd o nam. Os ceir arwydd o'r fath, amcangyfrifir swm adferadwy'r asedau. Swm adferadwy ased yw swm uchaf ei bris gwerthu net a'i werth mewn defnydd.

### 1.14 Darpariaethau

Gwneir darpariaeth i ddarparu ar gyfer atebolrwydd sy'n debygol o ddigwydd oherwydd digwyddiad neu benderfyniad a wneir yn ystod blwyddyn ariannol, ond bod ansicrwydd ynghylch y swm a/neu'r dyddiad pryd bydd yn codi. Dangosir newid i'r ddarpariaeth ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Pan fydd yr atebolrwydd gwirioneddol yn digwydd, mae'n cael ei roi yn erbyn y ddarpariaeth a wnaed yn flaenorol.

### 1.15 Gweithredu Safonau Cyfrifo Sydd Wedi'u Cyhoeddi o'r Newydd

Ac eithrio'r newidiadau isod, mae Chwaraeon Cymru wedi cymhwyso'r polisïau cyfrifo yn gyson i bob cyfnod a gyflwynir yn y datganiadau ariannol hyn.

**Prydlesau IFRS 16**

Mae 'Prydlesau' IFRS 16 yn mynd i'r afael â'r diffiniad o brydles, yn cydnabod ac yn mesur prydlesau ac yn sefydlu egwyddorion ar gyfer adrodd ar wybodaeth ddefnyddiol i ddefnyddwyr datganiadau ariannol am weithgareddau prydlesu prydleseion a phrydleswyr. Un newid allweddol sy'n deillio o IFRS 16 yw y bydd y rhan fwyaf o'r prydlesau gweithredu yn cael eu cyfrif ar y fantolen i lesddeiliaid. Mae IFRS 16 'Prydlesau' yn disodli IAS 17 'Prydlesau' ynghyd â thri Dehongliad (IFRIC 4 'Penderfynu a yw Trefniant yn cynnwys Prydles', SIC 15 'Gweithredu Prydlesau - Cymhellion' a SIC 27 'Gwerthuso Sylwedd Trafodion sy'n Ymwneud â Ffurf Gyfreithiol Prydles').

Ar hyn o bryd mae Chwaraeon Cymru yn prydlesu nifer o asedau gan gynnwys tir, cyrtiau tennis a chyfleuster storio yn rhinwedd ei swydd fel unig Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Cyngor Chwaraeon Cymru. Mae Chwaraeon Cymru wedi gweithredu gofynion IFRS 16 'Prydlesau' ers 1 Ebrill 2022 yn unol â'r lwfansau a wnaed gan Drysorlys EM ar gyfer mabwysiadu'r safon yn y sector cyhoeddus.

Mae Chwaraeon Cymru wedi defnyddio'r dull ôl-weithredol wedi'i addasu, lle mae effaith gronnol y cais cychwynnol yn cael ei chydnabod ar 1 Ebrill 2022 ac wedi cymhwyso'r manteision ymarferol a ganlyn a ganiateir gan IFRS 16 ac yn seiliedig ar ganllawiau cais gan Drysorlys EM:

- Dim ond y contractau hynny sydd eisoes wedi'u nodi fel prydlesau ar 31 Mawrth 2022 sydd wedi'u hystyried yn y cyfrifo mabwysiadu cychwynnol;
- Cymerwyd nad oedd eithriad mesur ar gyfer prydlesau tymor byr (IFRS16 para 6 i 8) yn ddewisol gan arwain at drin unrhyw brydlesau gwerth isel yn aros yn gyson o dan IFRS 16 o gymharu ag IAS 17;
- Dim addasiad ar gyfer prydlesau sydd â thymor llai na 12 mis o'r dyddiad mabwysiadu cychwynnol;
- Defnyddio ôl-ddoethineb wrth gymhwyso'r safon newydd i bennu cyfnod y brydles lle mae contractau prydles yn cynnwys opsiynau i ymestyn neu derfynu'r brydles; a
- Lle nad oedd yn hawdd pennu'r gyfradd llog sydd ymhlyg yn y brydles, mae cyfradd gostyngiad Trysorlys EM wedi'i chymhwyso. Y gyfradd gostyngiad a ddefnyddir yw'r gyfradd ar y dyddiad mabwysiadu cychwynnol, nid y gyfradd sydd ar gael ar ddechrau tymor y brydles.

**Mae'r canlynol yn cysoni eitemau llinell y datganiadau ariannol o IAS 17 i IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022 (Datganiad o Sefyllfa Ariannol Gyfnerthedig Chwaraeon Cymru):**

| | Ar 31 Mawrth 2022 £'000 | Ased Hawl i Ddefnydd | Atebolrwydd Prydles | Addasiad Arian Wrth Gefn | Ar 1 Ebrill 2022 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer | 18,239 | | | | 18,239 |
| Ased Prydles Hawl i Ddefnydd | - | 1,916 | | | 1,916 |
| **Cyfanswm yr asedau anghyfredol** | **18,239** | **1,916** | **-** | **-** | **20,155** |
| | | | | | |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau derbyniadwy eraill | 3,884 | | | | 3,884 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | 559 | | | | 559 |
| | 4,443 | | | | 4,443 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **22,682** | **1,916** | **-** | **-** | **24,598** |
| | | | | | |
| **Atebolrwydd cyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill | (1,300) | | (5) | | (1,305) |
| Croniadau grant | (44) | | | | (44) |
| Darpariaethau | - | | | | - |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd cyfredol** | **(1,344)** | **-** | **(5)** | **-** | **(1,349)** |
| | | | | | |
| **Asedau anghyfredol ac asedau cyfredol net** | **21,338** | **1,916** | **(5)** | **-** | **23,249** |
| | | | | | |
| **Atebolrwydd anghyfredol** | | | | | |
| Masnach ac elfennau taladwy eraill sy'n ddyledus mewn mwy na blwyddyn | (31) | | (100) | | (131) |
| Atebolrwydd Pensiwn | (7,554) | | | | (7,554) |
| **Cyfanswm yr atebolrwydd anghyfredol** | **(7,585)** | **-** | **(100)** | **-** | **(7,685)** |
| **Asedau llai atebolrwydd** | **13,753** | **1,916** | **(105)** | **-** | **15,564** |
| | | | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | 18,208 | | | | 18,208 |
| Cronfa bensiwn wrth gefn | (7,554) | | | | (7,554) |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 3,099 | | | 1,811 | 4,910 |
| | **13,753** | **-** | **-** | **1,811** | **15,564** |

Mae'r canlynol yn cysoni cyfanswm yr ymrwymiadau prydlesau gweithredol ar 31 Mawrth 2022 (fel y datgelwyd yn y datganiadau ariannol i 31 Mawrth 2022) i'r atebolrwydd prydles a gydnabuwyd ar 1 Ebrill 2022:

| | 2022 |
|---|---|
| | £000 |
| Ymrwymiadau prydles gweithredu ar 31 Mawrth 2022 fel y datgelwyd o dan IAS 17 yn natganiadau ariannol Chwaraeon Cymru | **76** |
| Gostyngiad gan ddefnyddio cyfradd fenthyca gynnyddrannol | **105** |
| Atebolrwydd prydles a gydnabuwyd ar 1 Ebrill 2022 | **105** |

**1.16 Safonau Cyfrifo Wedi'u Cyhoeddi O'r Newydd Heb Fod Yn Weithredol Eto**

Llywodraethir y defnydd o unrhyw safonau IFRS newydd neu ddiwygiedig drwy eu mabwysiadu gan yr FreM. Mae Chwaraeon Cymru yn gweithredu newidiadau i safonau pan ddônt yn weithredol. Nid oes unrhyw effeithiau sylfaenol hysbys yn sgil newidiadau IFRS sydd wedi'u cyhoeddi ond nad ydynt yn weithredol eto ar y datganiadau ariannol yn ystod y cyfnod o ddefnydd cychwynnol.


Cyhoeddwyd IFRS 17 ym mis Mai 2017 a disgwylir iddo ddisodli'r safon adrodd ariannol gyfredol ar gyfer yswiriant (IFRS 4) o 1 Ionawr 2023 ymlaen. Gan nad oes gan y cyfrifon hyn rwymedigaethau contract yswiriant, nid oes unrhyw effaith ar y cyfrifon.

## 2. Dadansoddiad o'r gwariant net cynhwysfawr


Mae IFRS 8 yn dweud ei bod yn ofynnol datgan segmentau gweithredu ar sail adroddiadau mewnol ar yr elfennau yn Chwaraeon Cymru a adolygir yn rheolaidd gan y Bwrdd er mwyn neilltuo adnoddau i'r segment ac asesu ei berfformiad.

| | | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **£'000** | **£'000** |
| **Y Canolfannau Cenedlaethol** | | | |
| Refeniw | 3 | (2,430) | (1,733) |
| Gwariant Arall | 7 | 1,558 | 1,241 |
| (Cyfraniad) / Colled Gweithredu Net | | (872) | (492) |
| | | | |
| **Grantiau** | | | |
| Incwm Grantiau Datblygu Chwaraeon | 3 | (4) | (2) |
| Gwariant Grant | 5 | 24,125 | 31,540 |
| Cost Gweithredu Net | | 24,121 | 31,538 |
| | | | |
| **Datblygu Chwaraeon a Chorfforaethol** | | | |
| Incwm Arall | 3 | (95) | (46) |
| Gwariant Arall | 7 | 2,587 | 2,453 |
| Cost Gweithredu Net | | 2,492 | 2,407 |
| | | | |
| Costau Staff | 6 | 6,982 | 5,966 |
| | | | |
| **Gwariant Net Cynhwysfawr cyn y Costau Eraill** | | **32,723** | **39,419** |
| | | | |
| **Costau Eraill** | | | |
| Eiddo, Peiriannau ac Offer a Phensiynau | | (6,816) | (4,534) |
| Cost Gweithredu Net | | (6,816) | (4,534) |
| **Cyfanswm y Gwariant Net Cynhwysfawr** | | **25,907** | **34,885** |

## Gwariant Net Cynhwysfawr Cyn Costau Eraill




## Gwariant Grant



## 3. Incwm

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Incwm o weithgareddau:** | | |
| Grantiau Datblygu Chwaraeon: | | |
| Arall | 4 | 2 |
| | **4** | **2** |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | | |
| Arlwyo | 345 | 180 |
| Defnydd o Gyfleusterau Cyrff Rheoli | 546 | 562 |
| Defnydd o Gyfleusterau Cyffredinol | 263 | 193 |
| Llety | 391 | 306 |
| Aelodaeth o Ganolfan Ffitrwydd | 162 | 111 |
| Archebion Cwrs | 723 | 381 |
| | **2,430** | **1,733** |
| | | |
| | **2,434** | **1,735** |
| | | |
| **Incwm gweithredu arall:** | | |
| Adfer grantiau | 93 | 36 |
| Incwm arall | 2 | 10 |
| | 95 | 46 |
| **Cyfanswm arall** | **2,529** | **1,781** |

## 4. Grantiau a dderbyniwyd gan y llywodraeth

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Cyllid Cyfalaf | 7,622 | 11,548 |
| Cyllid Refeniw – Iach ac Actif | 980 | 1,332 |
| Cyllid Refeniw – Pwysau Iach Cymru Iach Hamdden Actif 60+ | 500 | 500 |
| Cyllid Refeniw – Cronfa Adfer Chwaraeon a Hamdden | - | 1,935 |
| Refeniw a Chyllid Cyfalaf a Mewnol | 24,377 | 24,679 |
| Cyllid Refeniw – Haf o Hwyl | 380 | - |
| Cyllid Refeniw – Cynllun Gweithredu Gwrth Hiliaeth Cymru | 21 | - |
| **Trosglwyddwyd i'r gronfa gyffredinol** | **33,880** | **39,994** |

## 5. Gwariant grant

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyrff Rheoli / Partneriaid Allanol | 14,340 | 19,988 |
| Awdurdodau Lleol | 9,785 | 11,552 |
| | 24,125 | 31,540 |

Mae'r ffigur uchod yn cynnwys £1,647,781 o wariant uniongyrchol ar ran derbynyddion grantiau (£1,122,031 yn 2021/22)

## 6. Costau staff

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| **Parhaol:** | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau a thâl | 6,190 | 6,113 |
| Ffyrlo a dderbyniwyd | - | (107) |
| Darpariaeth ar gyfer diswyddiadau a straen ar bensiwn | - | 54 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 688 | 656 |
| Costau Pensiwn eraill | 2,241 | 3,007 |
| Staff ar secondiad | - | (41) |
| | 9,119 | 9,682 |
| Staff Asiantaeth a Chyfarwyddo | 411 | 428 |
| | 9,530 | 10,110 |
| Addasiadau IAS19 | 880 | (870) |
| | 10,410 | 9,240 |
| Llai: Neilltuwyd i SPORTLOT | (3,428) | (3,274) |
| | **6,982** | **5,966** |

Mae'r costau Pensiwn eraill yn cynnwys cyfraniad cyfandaliad o £575,000 tuag at yr atebolrwydd pensiwn net (2021/22 £1,517,000). Neilltuir y cyfraniad cyfandaliad 74% Chwaraeon Cymru a 26% Loteri. Mae'r dyraniad yn rhan o'r llinell 'Neilltuwyd i SPORTLOT'.

Mae IAS19 Buddiannau Cyflogeion yn datgan ei bod yn ofynnol i ffigur a gyfrifir yn actwaraidd (cost gwasanaeth cyfredol, gorffennol a setliad) gael ei nodi yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE). Ar gyfer 2022/23, y gost oedd £2,970,000 (2021/22 £2,000,000) ac mae'n cymryd lle costau pensiwn y cyflogwr yn y SoCNE. Roedd cyfraniad y cyflogwr yn £2,090,000 (2021/22 £2,870,000), felly roedd yr effaith net yn £880,000 (2021/22 £870,000) i gostau staff. Gan fod cost cyfredol y gwasanaeth yn nodyn syniadol, mae hwn yn cael ei newid yn ôl yn y Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr fel mai dim ond cost cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a dynnir o falans y Gronfa Gyffredinol.

Cyfrifir y rhwymedigaeth net mewn perthynas â'r cynlluniau pensiynau budd pendant hyn drwy amcangyfrif faint o fudd mae cyflogeion wedi'i ennill yn y dyfodol am eu gwasanaeth yn y cyfnodau cyfredol a blaenorol. Gostyngir y budd i bennu ei werth presennol, a didynnir gwerthoedd teg asedau'r cynllun. Cydnabyddir enillion a cholledion actwaraidd sy'n codi yn y cyfnod maent yn digwydd drwy Wariant Net Cynhwysfawr Arall.

## 7. Gwariant arall

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ffioedd Archwilydd - Gwasanaethau Archwilio | 27 | 24 |
| - Cyfrifon yr Ymddiriedolaeth | 4 | 3 |
| **Costau teithio, cynhaliaeth a lletygarwch y canlynol:** | | |
| Aelodau | 7 | 2 |
| Staff y pencadlys | 22 | 12 |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | 3 | 2 |
| Datblygu Chwaraeon | 76 | 27 |
| **Gwariant Arall:** | | |
| Gwasanaethau Cefnogi Canolog | 647 | 660 |
| Cyfathrebu a Digidol | 703 | 723 |
| Dirnadaeth a Pholisi | 373 | 456 |
| Llog Taladwy i Lywodraeth Cymru | 16 | 1 |
| Canolfannau Chwaraeon Cenedlaethol | 1,555 | 1,239 |
| Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon | 728 | 545 |
| Symudiad yn y Ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus | 4 | 1 |
| | **4,165** | **3,695** |

**Gellir dadansoddi'r gwariant hwn ymhellach fel a ganlyn:**

| | 2022/23 | 2021/22 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Canolfannau Chwaraeon | 1,558 | 1,241 |
| Gwybodaeth Chwaraeon / Systemau Chwaraeon | 804 | 572 |
| Corfforaethol | 1,803 | 1,882 |
| | **4,165** | **3,695** |

## 8. Gwaredu Eiddo, Peiriannau ac Offer

| | 2022/2023 | 2022/2023 | 2021/2022 | 2021/2022 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Elw o werthu | | 4 | | 14 |
| Gwerth llyfr crynswth | 38 | | 245 | |
| Dibrisiant cronnol | (37) | | (239) | |
| Gwerth llyfr net | | 1 | | 6 |
| **Gwarged ar waredu** | | **3** | | **8** |

## 9. Eiddo, Peiriannau ac Offer

### a) Y Cyngor:

| | Offer | Cerbydau | TGCh | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cost ar 1 Ebrill 2022 | 1,007 | 172 | 323 | 1,502 |
| Ychwanegiadau | 96 | 93 | 83 | 272 |
| Gwaredu | (19) | (6) | (7) | (32) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **1,084** | **259** | **399** | **1,742** |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2022 | (708) | (102) | (180) | (990) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (70) | (27) | (72) | (169) |
| Gwaredu | 19 | 5 | 7 | 31 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(759)** | **(124)** | **(245)** | **(1,128)** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023** | **325** | **135** | **154** | **614** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022** | **299** | **70** | **143** | **512** |

| | Offer | Cerbydau | TGCh | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cost ar 1 Ebrill 2021 | 1,022 | 220 | 370 | 1,612 |
| Ychwanegiadau | 13 | - | 19 | 32 |
| Gwaredu | (28) | (48) | (66) | (142) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **1,007** | **172** | **323** | **1,502** |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2021 | (646) | (120) | (162) | (928) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (88) | (26) | (84) | (198) |
| Gwaredu | 26 | 44 | 66 | 136 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **(708)** | **(102)** | **(180)** | **(990)** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022** | **299** | **70** | **143** | **512** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2021** | **376** | **100** | **208** | **684** |

## b) Cyfnerthedig:

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai | Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | Offer | Cerby-dau | TGCh | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2022 | 6,162 | 11,565 | 1,450 | 174 | 323 | 19,674 |
| Ychwanegiadau | 1,035 | 640 | 96 | 93 | 83 | 1,947 |
| Gwaredu | - | - | (25) | (6) | (7) | (38) |
| Ailbrisio | (59) | 368 | - | - | - | 309 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **7,138** | **12,573** | **1,521** | **261** | **399** | **21,892** |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2022 | - | - | (1,151) | (104) | (180) | (1,435) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (199) | (261) | (70) | (27) | (72) | (629) |
| Gwaredu | - | - | 25 | 5 | 7 | 37 |
| Ailbrisio | 199 | 261 | - | - | - | 460 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **-** | **-** | **(1,196)** | **(126)** | **(245)** | **(1,567)** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2023** | **7,138** | **12,573** | **325** | **135** | **154** | **20,325** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2022** | **6,162** | **11,565** | **299** | **70** | **143** | **18,239** |

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai | Adeiladau Canolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru | Offer | Cerby-dau | TGCh | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cost neu Brisiad ar 1 Ebrill 2021 | 6,133 | 12,355 | 1,568 | 222 | 370 | 20,648 |
| Ychwanegiadau | 1,456 | 459 | 13 | - | 19 | 1,947 |
| Gwaredu | - | - | (131) | (48) | (66) | (245) |
| Ailbrisio | (1,427) | (1,249) | - | - | - | (2,676) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **6,162** | **11,565** | **1,450** | **174** | **323** | **19,674** |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2021 | - | - | (1,192) | (122) | (162) | (1,476) |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (171) | (238) | (88) | (26) | (84) | (607) |
| Gwaredu | - | - | 129 | 44 | 66 | 239 |
| Ailbrisio | 171 | 238 | - | - | - | 409 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **-** | **-** | **(1,151)** | **(104)** | **(180)** | **(1,435)** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022** | **6,162** | **11,565** | **299** | **70** | **143** | **18,239** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2021** | **6,133** | **12,355** | **376** | **100** | **208** | **19,172** |

Wedi'i gynnwys yn nhir ac adeiladau Rhydd-ddaliadaeth Plas Menai mae tir a brisiwyd yn £175,000 (2020/21 £175,000). Cafodd y tir a'r adeiladau sy'n cael eu dal gan Ymddiriedolaeth CChC eu prisio'n annibynnol ar 31 Mawrth 2023 yn £19,711,000 gan Feistri Cooke ac Arkwright, Syrfëwyr Siartredig, yn unol â llawlyfr gwerthuso a phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig.

Mae'r prisiad hwn yn eithrio'r tir yng Nghanolfan Genedlaethol Chwaraeon Cymru, sydd ar brydles.

## 10. Ased Hawl i Ddefnydd

| | Tir | Adeiladau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cost neu brisiad ar 31 Mawrth 2022 | - | - | - |
| Addasiadau ar gyfer gweithredu IFRS 16 | 1,852 | 64 | 1,916 |
| **Cost neu brisiad wedi'u haddasu ar 1 Ebrill 2022** | **1,852** | **64** | **1,916** |
| | | | |
| Ychwanegiadau | - | - | - |
| Gwaredu | - | - | - |
| Ailbrisio | (13) | - | (13) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **1,839** | **64** | **1,903** |
| | | | |
| Dibrisiant ar 1 Ebrill 2022 | - | - | - |
| Ffi ar gyfer y flwyddyn | (1) | (4) | (5) |
| Gwaredu | - | - | - |
| Ailbrisio | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(1)** | **(4)** | **(5)** |
| | | | |
| **Gwerth Llyfr Net ar 31 Mawrth 2022** | **-** | **-** | **-** |
| **Gwerth Llyfr Net ar 1 Mawrth 2023** | **1,838** | **60** | **1,898** |

| Dadansoddiad Aeddfedrwydd | 2023 |
|---|---|
| | **£'000** |
| Llifau arian cytundebol heb ostyngiad yn ymwneud ag atebolrwydd prydles | |
| O fewn blwyddyn | 3 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 10 |
| Ar ôl pum mlynedd | 95 |
| | **108** |
| | |
| **Llai ffioedd yn y dyfodol a neilltuir i gyfnodau yn y dyfodol** | **(9)** |
| | |
| **Taliadau prydles isafswm** | **99** |
| | |
| Cynhwysir yn: | |
| Elfennau taladwy masnach cyfredol | 5 |
| Elfennau taladwy masnach anghyfredol | 94 |
| **Cyfanswm** | **99** |

| Gwerth presennol y taliadau prydles isafswm | 2023 |
|---|---|
| | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 5 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 17 |
| Ar ôl pum mlynedd | 77 |
| | **99** |

| Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 2023 |
|---|---|
| | £'000 |
| Dibrisiant | 5 |
| Nam | - |
| Llog ar atebolrwydd prydles | 1 |
| Treuliau cysylltiedig â phrydlesau tymor byr | - |

| Swm a gydnabyddir yn y Datganiad o Lif Arian (net ar TAW anadferadwy) | 2023 |
|---|---|
| | £'000 |
| Cost llog | 1 |
| Ad-daliadau ar brydlesau | 5 |
| **Cyfanswm llifau arian** | **6** |

## 11. Masnach ac Elfennau Derbyniadwy Eraill (Dyledus o Fewn Blwyddyn)

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach Dderbyniadwy | 107 | 101 |
| SPORTLOT | 2,321 | 2,546 |
| TAW | 182 | 281 |
| Rhagdaliadau ac incwm a gronnwyd | 201 | 259 |
| Rhagdaliad grant | 199 | 474 |
| Grant ad-daladwy | 12 | 225 |
| Darpariaeth ar gyfer dyledion drwg ac amheus | (6) | (2) |
| | **3,016** | **3,884** |
| | | |
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 2,503 | 2,914 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 211 | 699 |
| | 2,714 | 3,613 |
| Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth | 302 | 271 |
| | **3,016** | **3,884** |

## 12. Masnach Daladwy ac Atebolrwydd Arall

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Masnach Daladwy | 112 | 611 |
| Croniadau | 398 | 548 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 99 | - |
| Incwm gohiriedig | 80 | 172 |
| | **689** | **1,331** |
| | | |
| **Cyfredol:** | | |
| Masnach Gyfredol ac Elfennau Taladwy Eraill | 564 | 1,300 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 5 | - |
| **Anghyfredol:** | | |
| Masnach ac Elfennau Taladwy Eraill | 26 | 31 |
| Atebolrwydd Prydles Hawl i Ddefnydd | 94 | - |
| | **689** | **1,331** |
| | | |
| **Balans rhyng-lywodraeth** | | |
| Balans gyda chyrff eraill y llywodraeth ganolog | 35 | 201 |
| Balans gydag awdurdodau lleol | 102 | 2 |
| | **137** | **203** |
| **Balans gyda chyrff allanol i'r llywodraeth** | **552** | **1,128** |
| | **689** | **1,331** |

## 13. Croniadau Grant

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Grantiau Wedi Cronni | 27 | 44 |

## 14. Llif Arian Crynswth

| | 2022/2023 | 2021/2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 20 | 1 |
| | | |
| **Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol** | | |
| Taliadau i brynu eiddo, peiriannau ac offer | (1,947) | (1,947) |
| Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau ac offer | 4 | 14 |
| | **(1,943)** | **(1,933)** |
| **Llif Arian o Weithgareddau Cyllido** | | |
| Cyllid a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (nodyn 4) | 33,880 | 39,994 |

## 15. Arian Parod a Chyfwerth ag Arian Parod

| | 2022/2023 | 2021/2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 559 | 230 |
| Newid net y balansau mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod | (15) | 329 |
| **Ar 31 Mawrth** | **544** | **559** |
| | | |
| Roedd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn cael eu cadw mewn: | | |
| Banciau masnachol ac arian mewn llaw | 544 | 559 |
| Ar 31 Mawrth | 544 | 559 |

## 16. Ymrwymiadau Cyfalaf

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Contractiwyd ond heb dalu | 9 | 635 |

## 17. Atebolrwydd Wrth Gefn

| | Ar 31 Mawrth 2023 | Ar 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Atebolrwydd Grant Wrth Gefn | 33 | - |

Mae Chwaraeon Cymru wedi derbyn hysbysiad o hawliad cyfreithiol posib yn dilyn damwain a ddigwyddodd ar safle Chwaraeon Cymru. Mae ansicrwydd sylweddol yn ymwneud â'r mater hwn gan nad yw achosion ffurfiol wedi'u cychwyn ac nid yw cwantwm unrhyw rwymedigaeth bosibl wedi'i bennu eto.

## 18. Buddiannau i Gyflogeion

Mae'r datgeliadau pensiwn canlynol wedi cael eu paratoi yn unol ag IAS19 'Buddiannau cyflogeion'.

Mae cyflogeion Chwaraeon Cymru yn aelodau o Gronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, sy'n rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r gronfa'n darparu buddiannau pendant sy'n seiliedig ar Enillion Gyrfa Cyfartalog Wedi'u Hailbrisio (CARE).

Mae'r data pensiwn yn y datgeliad hwn wedi cael eu darparu gan actwari annibynnol Chwaraeon Cymru, AON Hewitt. Mae'r prisiad IAS19 a ddarparwyd gan yr actwari ar gyfer Chwaraeon Cymru yn ei gyfanrwydd; ni chafwyd prisiadau ar wahân ar gyfer datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri ac felly mae'r data isod yn cael eu datgelu fel data crynswth.

Mae diffyg y gronfa bensiwn a hefyd y cofnodion cysylltiedig sy'n effeithio ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a'r Datganiad o Newidiadau i Ecwiti Trethdalwyr wedi cael eu dyrannu rhwng datganiadau ariannol Cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru a datganiadau ariannol Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri ar gymhareb sy'n seiliedig ar ddyrannu hanesyddol ar gostau staff i gyfrif Dosbarthu'r Loteri. Ar gyfer 2022/23, mae hwn yn 74% i Gyngor Chwaraeon Cymru (2021/22 74%), a 26% i Gyfrif Dosbarthu'r Loteri.

Mae Chwaraeon Cymru wedi gwneud cyfanswm o £2,090,000 o gyfraniad pensiwn yn 2022/23 (2021/22 £2,870,000). Fe'i dadansoddir fel a ganlyn:

- Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr o £1,313,000 sy'n cynrychioli 32.8% o gyflog pensiynadwy (2021/22 £1,355,000 32.8%)
- Nid oedd unrhyw gyfraniadau uwch mewn perthynas â chost ymddeol yn gynnar yn ystod 2022/23 (2021/22 Dim)
- Cyfraniad Diffyg Cyfandaliad o £777,000 (26% wedi'i dalu gan y Loteri), (2021/22 £517,000 gyda 26% wedi'i dalu gan gyfrif Dosbarthu'r Loteri)

Cyfradd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr o 2023/24 ymlaen fydd 33.4%. Pennwyd y ganran hon o ganlyniad i'r prisiad bob tair blynedd diwethaf o'r cynllun, a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2022. Mae adroddiad yr actwari wedi cael ei baratoi yn unol â Nodyn Cyfarwyddyd GN9 a gyhoeddwyd gan Sefydliad a Chyfadran yr Actwarïau, sy'n gyfredol ar y dyddiad prisio, i'r graddau ei fod yn berthnasol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae Chwaraeon Cymru yn disgwyl cyfrannu £2,170,000 at y gronfa yn 2023/24. Yn ychwanegol, efallai y bydd angen cyfraniadau "straen ar gronfa" hefyd.

Y gost pensiwn lawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £250,000 (2021/22 £420,000) gyda £185,000 (2020/21 £310,800) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig a'r gweddill o £65,000 (2021/22 £109,200) wedi'i ddyrannu i Weithgareddau Dosbarthu'r Loteri.

Y gost actwaraidd lawn ar bensiwn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £9,280,000 (2021/22 ennill £10,420,000) gyda £6,867,000 (2021/22 ennill £7,710,800) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda'r gweddill o £2,413,000 (2021/22 ennill £2,709,200) wedi'i ddyrannu i Weithgareddau Dosbarthu'r Loteri.

Yr atebolrwydd pensiwn llawn i Gyngor Chwaraeon Cymru yw £1,470,000 (2021/22 £9,620,000), gyda £1,523,000 (2021/22 £7,554,000) wedi'i ddyrannu i'r cyfrifon cyfnerthedig, gyda'r balans o £53,000 o ased pensiwn (2021/22 £2,066,000 o atebolrwydd pensiwn) wedi'i ddyrannu i Weithgareddau Dosbarthu'r Loteri. Mae atebolrwydd pensiwn Gweithgareddau Dosbarthu'r Loteri wedi'i addasu £435,000 i ganiatáu ar gyfer effaith net newidiadau hanesyddol wrth ddyrannu costau staff i gyfrif Dosbarthu'r Loteri gyda'r £435,000 o iawn wedi'i ddyrannu i'r atebolrwydd pensiwn yng nghyfrifon cyfnerthedig Cyngor Chwaraeon Cymru. Oherwydd hyn, a gan fod y diffyg pensiwn yn isel o gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae hyn wedi arwain at ased pensiwn ar gyfer cyfrifon Dosbarthu'r Loteri.

### Prif Ragdybiaethau Ariannol

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| | % | % | % |
| Cyfradd Gostyngiad | 4.7 | 2.7 | 2.1 |
| Chwyddiant – CPI | 2.7 | 3.0 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau mewn taliadau | 2.7 | 3.0 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig | 2.7 | 3.0 | 2.7 |
| Cyfradd y cynnydd cyffredinol mewn cyflogau | 3.7 | 4.0 | 3.7 |

| Rhagdybiaethau Marwoldeb: | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 |
|---|---|---|---|
| | Blynyddoedd | Blynyddoedd | Blynyddoedd |
| Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 65 oed ar y dyddiad cyfrifo) | | | |
| Dynion | 22.6 | 22.1 | 22.3 |
| Merched | 24.7 | 24.6 | 24.7 |
| Oes yn y dyfodol o 65 oed (yn 45 oed ar y dyddiad cyfrifo) | | | |
| Dynion | 23.2 | 23.2 | 23.3 |
| Merched | 25.8 | 26.0 | 26.1 |

Mae Chwaraeon Cymru yn defnyddio dull bloc adeiladu o weithio wrth benderfynu ar gyfradd yr adenillion ar asedau Cronfa. Astudir y marchnadoedd hanesyddol a chymerir yn ganiataol bod yr asedau mwyaf anwadal yn creu adenillion uwch, yn gyson ag egwyddorion marchnad cyfalaf a dderbynnir yn gyffredinol.

Mae'r gyfradd gyffredinol ddisgwyliedig o adenillion ar asedau'n deillio o gydgrynhoi'r gyfradd ddisgwyliedig o adenillion ar gyfer pob dosbarth o asedau dros ddyraniad gwirioneddol ar gyfer y Gronfa ar 31 Mawrth 2023.

### Dadansoddiad o symudiadau gwarged (diffyg) yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| Gwerth teg asedau'r gronfa | 57.54 | 61.70 |
| Gwerth presennol yr atebolrwydd | (46.14) | (71.32) |
| Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged | (11.40) | 0.00 |
| Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm oherwydd ymrwymiad i dalu cyfraniadau diffyg | (1.47) | 0.00 |
| (Diffyg) yn y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn | (1.47) | (9.62) |

### Dadansoddiad o'r swm a godwyd mewn perthynas â Chostau Gweithredu

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1.80 | 2.00 |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol | 0.00 | 0.00 |
| Cost setliad | 1.17 | 0.00 |
| Cost llog | 0.25 | 0.42 |
| Treuliau wedi'u cydnabod | 3.22 | 2.42 |

### Ailfesur symiau cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| Adenillion ar asedau cynllun (mwy) / llai na'r hyn a gydnabyddir yn y llog net | 3.05 | (4.73) |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau ariannol | (28.80) | (5.18) |
| (Enillion) actwaraidd oherwydd y newid mewn rhagdybiaethau demograffig | (0.23) | (0.72) |
| Colledion actwaraidd oherwydd profiad atebolrwydd | 3.83 | 0.21 |
| Addasiad mewn perthynas â pharagraff 64 | 12.87 | 0.00 |
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig mewn Gwariant Cynhwysfawr Arall | (9.28) | (10.42) |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm y swm cydnabyddedig yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | (6.06) | (8.00) |

### Newidiadau i werth presennol y rhwymedigaeth budd pendant yn ystod y cyfnod cyfrifo

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| Rhwymedigaeth budd pendant agoriadol | 71.32 | 74.63 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 1.80 | 2.00 |
| Cost llog ar rwymedigaeth pensiwn pendant | 1.89 | 1.56 |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr | 0.28 | 0.28 |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau ariannol | (28.80) | (5.18) |
| (Enillion) actwaraidd ar atebolrwydd - rhagdybiaethau demograffig | (0.23) | (0.72) |
| Colledion actwaraidd ar atebolrwydd – profiad | 3.83 | 0.21 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.90) | (1.46) |
| Cost y gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiad) | 0.00 | 0.00 |
| Setliadau | (2.05) | 0.00 |
| Rhwymedigaeth budd pendant wrth gloi | 46.14 | 71.32 |

### Newidiadau i werth teg yr asedau yn ystod y flwyddyn

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| Gwerth teg agoriadol yr asedau | 61.70 | 54.14 |
| Incwm llog ar asedau | 1.64 | 1.14 |
| Ailfesur (colledion) / enillion ar asedau | (3.05) | 4.73 |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 2.09 | 2.87 |
| Cyfraniadau gan y cyfranogwyr | 0.28 | 0.28 |
| Buddiannau net a dalwyd | (1.90) | (1.46) |
| Setliadau | (3.22) | 0.00 |
| Gwerth teg yr asedau wrth gloi | 57.54 | 61.70 |

### Adenillion gwirioneddol ar asedau

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| Adenillion disgwyliedig ar asedau | 1.64 | 1.14 |
| (Colledion) / enillion actwaraidd ar asedau | (3.05) | 4.73 |
| Adenillion gwirioneddol ar asedau | (1.41) | 5.87 |

## Hanes gwerthoedd yr asedau, gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant a diffyg

| | 31 Mawrth 2023 | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2021 | 31 Mawrth 2020 | 31 Mawrth 2019 | 31 Mawrth 2018 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| Gwerth teg yr asedau | 57.54 | 61.70 | 54.14 | 44.37 | 47.09 | 42.87 |
| Gwerth presennol y rhwymedigaeth budd pendant | (46.14) | (71.32) | (74.63) | (58.40) | (59.97) | (56.52) |
| Ased heb ei gydnabod oherwydd cyfyngiadau ar warged | (11.40) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| Atebolrwydd ychwanegol o dan y gofynion cyllido isafswm oherwydd ymrwymiad i dalu cyfraniadau diffyg | (1.47) | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 | 0.00 |
| (Diffyg) | (1.47) | (9.62) | (20.49) | (14.03) | (12.88) | (13.65) |

## Dadansoddiad Sensitifrwydd

| Rhwymedigaeth Budd Pendant a Gyllidwyd £46.14m | +0.1% y flwyddyn | | -0.1% y flwyddyn | |
|---|---|---|---|---|
| **Newid mewn Rhagdybiaethau ar werth Presennol y rhwymedigaethau budd pendant a gyllidwyd** | **£m** | **% Cynnydd / Gostyngiad i Atebolrwydd Cyflogeion** | | **£m** |
| Addasiad i'r gyfradd Ostyngiad | 45.26 | -1.9% | 1.9% | 47.02 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Cyflog | 46.19 | 0.1% | -0.1% | 46.09 |
| Addasiad i'r gyfradd Cynnydd Pensiwn | 46.97 | 1.8% | -1.7% | 45.36 |
| | **-1 blwyddyn** | | **+1 blwyddyn** | |
| Addasiad i'r gyfradd Marwolaethau | 47.39 | 2.7% | -2.7% | 44.89 |

Mae paragraff 64 o IAS 19, fel y'i dehonglir gan IFRIC 14, yn cyfyngu ar swm yr ased pensiwn net y gellir ei gydnabod.

Mae actiwarïaid y gronfa wedi dod i'r casgliad bod cyfraniadau gwasanaeth yn y dyfodol yn sylweddol uwch na'r gost gwasanaeth a ragwelir ac y byddai'r gwerth economaidd o ostyngiad mewn cyfraniadau yn y dyfodol yn ddim.

Ar y sail honno, mae Chwaraeon Cymru wedi dod i'r casgliad na ellir cydnabod yr ased pensiwn.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymrwymo i wneud cyfraniadau diffyg parhaus yn unol â'r prisiad tair blynedd diweddaraf ar 31 Mawrth 2022. Ar gyngor actiwarïaid y gronfa, mae'r cyfraniadau diffyg hyn wedi'u cydnabod fel rhwymedigaeth pensiwn.

## 19. Darpariaethau

| | Darpariaeth ar gyfer hawliad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Ar 1 Ebrill 2022 | - | - |
| Darpariaeth a wnaed yn ystod y flwyddyn | 20 | 20 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **20** | **20** |

| | Darpariaeth ar gyfer hawliad | Cyfanswm |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| Dim hwyrach nag un flwyddyn | 20 | 20 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a dim hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **20** | **20** |

Yn unol ag IAS 37, mae Chwaraeon Cymru wedi cydnabod darpariaeth o £20,000 mewn perthynas â hawliad anaf personol. Dyma amcangyfrif gorau'r rheolwyr o swm tebygol y setliad.

## 20. Trafodion Parti Cysylltiedig

**Cyrff Cyhoeddus**

Mae Chwaraeon Cymru yn Gorff Cyhoeddus a noddir gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir Llywodraeth Cymru fel parti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Chwaraeon Cymru gyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae swyddogaeth dosbarthu'r Loteri Chwaraeon Cymru yn cael ei hystyried fel parti cysylltiedig hefyd.

**Unigolion**

Yn ystod y flwyddyn, bu trafodion ariannol sylfaenol rhwng Chwaraeon Cymru a'r sefydliadau y mae'r aelodau bwrdd a'r uwch reolwyr canlynol wedi datgan budd ynddynt.

Mae'r golofn taliadau'n cynnwys yr holl daliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymrwymiadau cyfredol, ymrwymiadau a dalwyd ymlaen llaw a gwariant heb fod yn grantiau. Mae'r golofn derfynol ar gyfer taliadau grant a ymrwymwyd ond sydd heb eu gwneud eto (nid yw'n cynnwys unrhyw symiau heb fod yn grantiau).

Rhaid i unrhyw ddatgan buddiannau ar gyfer eitemau a drafodir mewn cyfarfodydd gael eu datgan gan yr unigolyn, a fydd yn gadael y cyfarfod ar gyfer y rhan honno.

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Taliad Grant a Ymrwymwyd |
|---|---|---|---|---|
| Y Farwnes Tanni Grey-Thompson DBE, DL Cadeirydd | Youth Sport Trust | 73 | Noddwr | - |
| | Fields In Trust | 18 | Llysgennad | - |
| | Prifysgol Abertawe | 110 | Cymrawd | - |
| I Bancroft Aelod o'r Cyngor | CBS Wrecsam | 231 | Prif Swyddog Gweithredol | - |
| A Thorne Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 253 | Aelod Panel Annibynnol dros Benodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru | - |
| | Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 27 | Aelod Bwrdd | - |
| | Chwarae Teg | 5 | Cadeirydd | - |
| J Rhys MBE Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 253 | Uwch Aelod Annibynnol o'r Panel dros Benodiadau Cyhoeddus Llywodraeth Cymru | - |
| L Robinson Aelod o'r Cyngor | Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 27 | Is Ganghellor | - |
| P Tilley Aelod o'r Cyngor | Triathlon Cymru | 90 | Aelod | - |
| | Cymdeithas Ganŵio Cymru | 152 | Aelod | - |
| | Y Royal Yachting Association | 8 | Aelod o'r Pwyllgor | - |
| | Newport Live | 143 | Ymddiriedolwr ac Aelod Bwrdd | - |
| | Rhwyfo Cymru | 92 | Gwraig yn Aelod | - |
| | Undeb Beicio Cymru | 1,200 | Aelod | - |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Taliad Grant a Ymrwymwyd |
|---|---|---|---|---|
| M Veale YH<br>Aelod o'r Cyngor | Cyngor Sir Benfro | 600 | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio | - |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | 600 | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Safonau | - |
| | Llywodraeth Cymru | 253 | Aelod annibynnol o'r Gyfarwyddiaeth Archwilio, Pwyllgorau, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | - |
| | Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | 442 | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio | - |
| | Cyngor Sir Fynwy | 494 | Aelod Lleyg o'r Pwyllgor Archwilio | - |
| R Begum<br>Aelod o'r Cyngor | Women Connect First | 75 | Ymddiriedolwr | - |
| D T Davies<br>Aelod o'r Cyngor | Llywodraeth Cymru | 253 | Cadeirydd y Bwrdd Teithio Llesol | - |
| | Run 4 Wales | 1 | Cadeirydd | - |
| B Davies OBE<br>Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro | Gymnasteg Cymru | 652 | Priod yn Hyfforddwr | - |
| | Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru | 73 | Cynrychiolydd Chwaraeon Cymru ar Fwrdd CGGC | - |
| | Undeb Hoci Cymru | 399 | Merch yn aelod o dîm Hoci D18 Cymru | - |

| Aelod o'r Panel | Corff | Taliad Grant yn ystod y Flwyddyn £000 | Natur y cyswllt | Taliad Grant a Ymrwymwyd |
|---|---|---|---|---|
| G Willliams Cyfarwyddwr – Gwybodaeth Chwaraeon a Datblygu Gwasanaethau | Pêl Rwyd Cymru | 274 | Plant - Aelodau | - |
| S Morgan Pennaeth Gweithrediadau - Plas Menai | Yr Urdd | 284 | Aelod Bwrdd Anweithredol – Rhaglen Chwaraeon a Phrentisiaethau | - |
| J Nicholas Cyfarwyddwr Cynorthwyol - Darpariaeth y System Chwaraeon a Pherthnasoedd | Cyngor Gemau'r Gymanwlad Cymru | 73 | Cynrychiolydd Chwaraeon Cymru ar Fwrdd CGGC | - |

**Tâl yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor**

Ystyrir yr Uwch Reolwyr ac Aelodau'r Cyngor fel Cyfarwyddwyr a datgelir eu tâl yn yr Adroddiadau Tâl a Staff ar dudalennau 114 i 122.

## 21. Digwyddiadau ar Ôl Y Cyfnod Adrodd Yn Ôl

Ym mis Awst 2023, cytunodd Chwaraeon Cymru i wneud taliad costau byw anghyfnerthedig o £1,500 i staff parhaol neu dymor penodol a oedd yn gyflogedig ar 31 Mawrth 2023 a 30 Mehefin 2023. Amcangyfrifir bod cost y taliad hwn yn £112,000, gan gynnwys cyfraniadau yswiriant cenedlaethol a phensiwn.

Awdurdodwyd y cyfrifon ar gyfer eu cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifo ar y dyddiad y cawsant eu hardystio gan y Rheolwr a'r Archwilydd Cyffredinol.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

YN DYFARNU ARIAN ODDI WRTH
AWARDING FUNDS FROM
**THE NATIONAL LOTTERY®**